## *Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr*

# *Datganiad o Gyfrifon*

# *2016-17*



**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
**Swyddfeydd Dinesig**
**Stryd yr Angel**
**PEN-Y-BONT AR OGWR**
**CF31 4WB**
**(01656) 643643**

# Cynnwys


| | Rhif tudalen |
|---|---|
| **Adroddiad Naratif** | 3 |
| **Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon** | 26 |
| **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** | 27 |
| **Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu** | 49 |
| **Datganiadau Ariannol** | |
| Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 64 |
| Dadansoddiad Gwariant a Chyllid | 65 |
| Datganiad ar gyfer y Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn | 66 |
| Mantolen | 67 |
| Datganiad Llif Arian Parod | 68 |
| **Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd** | 69 |
| **Adroddiad yr Archwilydd** | 125 |
| **Geirfa** | 127 |

# Adroddiad Naratif

## 1. Y Datganiad o Gyfrifon

Lluniwyd y Cyfrifon hyn yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod) ar gyfer 2016-17. Mae hyn yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Mae'r prif newidiadau yn cynnwys mabwysiadu'r newidiadau canlynol a ymgorfforwyd yn y Cod Ymarfer:

**Adrodd yr Hanes** – yn gofyn am newidiadau i gyflwyniad datganiadau ariannol awdurdodau lleol trwy newidiadau i'r trefniadau adrodd cylchrannol ar gyfer y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ac yn cyflwyno Datganiad Gwariant a Chyllid newydd a nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiad yn crynhoi perfformiad y Cyngor wedi ei adrodd ar sail gwariant a fesurwyd yn ôl arferion cyfrifyddu priodol â ffioedd wedi'u diffinio'n statudol i Gronfa'r Cyngor. Mae hyn yn disodli'r angen i'r Cyngor adrodd ar gost gwasanaethau unigol yn ei Ddatganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn unol â'r fformat a nodir yn Adran 3 y Cod Ymarfer Adrodd Gwasanaethau. Mae'r newid hwn hefyd yn cyflwyno Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn wedi'i symleiddio fel yr adlewyrchir yn y Datganiad o Gyfrifon hwn.

Mae'r cyfrifon yn cynnwys y datganiadau ariannol canlynol:

**a) Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon**
Mae hwn yn nodi cyfrifoldebau priodol y Cyngor a'r swyddog Adran 151 am baratoi a chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

**b) Datganiad Llywodraethu Blynyddol**
Mae'r datganiad hwn yn cynnig adolygiad parhaus o effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu'r Cyngor gan gynnwys y system rheolaeth fewnol a systemau rheoli risg, er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch eu heffeithiolrwydd a/neu fynd i'r afael â gwendidau a nodwyd.

**c) Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu**
Diben y Datganiad hwn yw esbonio'r sail ar gyfer y ffigurau yn y Cyfrifon. Mae'n amlinellu'r polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd.

**ch) Y Datganiadau Ariannol**

i. <u>Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</u>

Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dangos y gost gyfrifyddu yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethi. Mae cynghorau yn casglu trethi i dalu am wariant yn unol â gofynion statudol; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddu. Dangosir y sefyllfa drethi yn y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid a'r Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Rhennir y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ddwy ran.

Mae'r rhan gyntaf yn adlewyrchu'r gost economaidd lawn o ddarparu gwasanaethau'r awdurdod a chaiff y canlyniadau eu crynhoi ar y llinell Gwarged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau. Mae'n cynrychioli'r costau gweithredu o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Byddai hyn yn cyfateb i elw neu golled cwmni yn y sector preifat.

Mae'r ail ran, incwm a gwariant cynhwysfawr arall, yn dangos yr enillion neu'r colledion o ran mesur asedau a rhwymedigaethau'r Cyngor. Mae'r enillion neu'r colledion hynny'n codi o ganlyniad i newidiadau i brisiadau'r farchnad, cyfraddau llog neu newidiadau i dybiaethau mesur yn ymwneud ac asedau a rhwymedigaethau pensiwn.

Ar gyfer 2016-17, dangosodd y Cyngor ddiffyg o £9.914 miliwn o dan y Ddarpariaeth o Wasanaethau. Mae hyn yn cyferbynnu â thanwariant alldro cyllideb o £0.356 miliwn, ac esbonnir y gwahaniaeth rhwng y ddau yn y Datganiad Gwariant a Chyllid.

ii. Y Datganiad Gwariant a Chyllid

Mae'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid yn dangos sut y caiff gwariant blynyddol ei ddefnyddio a'i ariannu o adnoddau (grantiau llywodraeth, rhenti, y dreth gyngor ac ardrethi busnes) gan y Cyngor o'u cymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddiwyd neu a enillwyd gan y Cyngor yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae hefyd yn dangos sut y caiff y gwariant hwn ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau rhwng Cyfarwyddiaethau'r Cyngor. Cyflwynir incwm a gwariant a gyfrifyddir yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn fwy llawn yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

iii. Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn dangos y symudiad o ddechrau'r flwyddyn i'r diwedd ar y gwahanol gronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor, wedi eu dadansoddi'n 'gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy' (h.y. y rheini y gellir eu defnyddio ar hyn o bryd i ariannu gwariant neu leihau trethi lleol) a chronfeydd wrth gefn 'annefnyddadwy' eraill. Mae'n dangos sut y caiff symudiadau yn ystod y flwyddyn o gronfeydd wrth gefn y Cyngor eu dadansoddi rhwng enillion a cholledion yr aethpwyd iddynt yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol a'r addasiadau statudol sy'n ofynnol i ddychwelyd y symiau sy'n drethadwy i'r dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn. Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos symudiadau balans Cronfa'r Cyngor yn ystod y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hynny ac mae hyn yn dangos bod cyfanswm balans Cronfa'r Cyngor wedi cynyddu £0.356 miliwn.

iv. Y Fantolen

Mae'r Fantolen yn dangos y gwerth ar ddyddiad Mantolen yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Cyngor. Caiff asedau net y Cyngor (asedau heb rwymedigaethau) eu cyfateb gan y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor. Adroddir cronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yw'r categori cronfeydd wrth gefn cyntaf, h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny y gallai'r Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (er enghraifft, gellir defnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled yn unig). Mae'r ail gategori o gronfeydd wrth gefn yn cynrychioli'r rheini na all y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynrychioli'r rheini na all y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn lle cedwir enillion a cholledion na wireddwyd (er enghraifft y Gronfa Wrth Gefn Ailbrisio), lle byddai symiau yn dod ar gael i ddarparu gwasanaethau dim ond os caiff yr asedau eu gwerthu; a chronfeydd wrth gefn sy'n cynnwys gwahaniaethau amseru a ddangosir yn llinell y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn 'Addasiad rhwng sail gyfrifyddu a sail ariannu o dan reoliadau'. Mae'r fantolen yn dangos mai £138.863 miliwn oedd gwerth net y Cyngor, sy'n ostyngiad i werth net o £3.190 miliwn o 2015-16 (a oedd yn £142.053 miliwn).

v. Datganiad Llif Arian Parod

Mae'r Datganiad Llif Arian Parod yn dangos y newidiadau i arian parod a gwerthoedd cyfwerth ag arian parod y Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut y mae'r Cyngor yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a gwerthoedd cyfwerth ag arian parod trwy ddosbarthu llifoedd arian parod fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae cyfanswm y llifoedd arian parod net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o'r graddau y caiff

gweithrediadau'r Cyngor eu hariannu trwy incwm trethi a grantiau neu gan dderbynwyr gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli i ba raddau y mae all-lifoedd arian parod wedi cael eu gwneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at ddarpariaeth gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol. Mae all-lifoedd arian parod sy'n deillio o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol i ragweld hawliadau ar all-lifoedd arian parod gan ddarparwyd cyfalaf (h.y. benthyg) i'r Cyngor. Mae sefyllfa arian parod a gwerthoedd cyfwerth ag arian parod y Cyngor wedi gostwng £5.518 miliwn.

**d) Y Nodiadau i'r Cyfrifon**

Datgeliadau'n ymwneud â'r datganiadau ariannol yw'r rhain ac maent yn cynnwys datgeliadau pensiynau ac offerynnau ariannol.

**dd) Ariannu Gwasanaethau'r Cyngor**


Mae'r Cyngor yn gwneud dau fath o wariant – gwariant refeniw a gwariant cyfalaf.

Mae **gwariant refeniw** yn cynnwys gwariant ar gostau o ddydd i ddydd gwasanaethau fel cyflogau staff, cynnal a chadw adeiladau a chyflenwadau cyffredinol, comisiynu ac offer. Telir am y gwariant hwn gyda'r incwm a dderbynnir gan y rhai sy'n talu'r dreth gyngor, y rhai sy'n talu ardrethi busnes, y ffioedd am wasanaethau penodol a chyda grantiau a dderbynnir gan lywodraeth.


Mae **gwariant cyfalaf** yn cynnwys gwariant ar asedau fel ffyrdd, ysgolion newydd, ailddatblygu a gwaith ailwampio mawr ar adeiladau. Bydd yr asedau hyn yn cynnig buddion i'r gymuned am flynyddoedd lawer a chaiff y gwariant ei gyllido'n bennaf gan fenthyg a grantiau cyfalaf.

**a) <u>Gwariant refeniw ar wasanaethau'r cyngor</u>**

**O ble ddaeth yr arian…**



**Ble gwariwyd yr arian…**




£211.433 miliwn oedd y gwariant net ar wasanaethau refeniw yn 2016-17. Mae hyn yn cymharu â £213.712 miliwn a ragwelwyd pan ddiwygiwyd y gyllideb, gan arwain at danwariant o £2.279 miliwn ar Gyllidebau Cyfarwyddiaethau. Mae'n bwysig nodi na ellir gwneud cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn oherwydd symudiad gwasanaethau rhwng Cyfarwyddiaethau. Mân danwariant o £356,000 oedd y sefyllfa gyffredinol i'r Cyngor ar ôl caniatáu ar gyfer dyraniadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ac ohonynt, incwm ychwanegol o'r Dreth Gyngor a thanwariant ar gyllidebau cyngor cyfan.

Mae'r tabl canlynol yn dangos sut yr oedd y gwariant gwirioneddol ar wasanaethau yn ystod 2016-17 yn cymharu â'r gyllideb a bennwyd ar gyfer y flwyddyn. Darperir esboniadau o wahaniaethau sylweddol rhwng gwariant a'r gyllideb.

**Cymhariaeth o wariant gwirioneddol gyda chyllideb 2016-17**

| Cyfarwyddiaeth/Maes Cyllideb | Cyllideb Wreiddiol 2016-17 £'000 | Cyllideb Ddiwygiedig 2016-17 £'000 | Alldro Gwirioneddol 2016-17 £'000 | Gorwarianet/ (Tanwariant) Gwirioneddol 2016-17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllidebau Cyfarwyddiaethau** | | | | |
| Addysg a Chymorth I Deuluoedd | 108,034 | 108,238 | 107,653 | (585) |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 59,697 | 61,383 | 62,560 | 1,177 |
| Cymundeau | 24,644 | 24,871 | 24,517 | (354) |
| Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth | 14,899 | 14,952 | 13,236 | (1,716) |
| Prif Weithredwyr | 4,333 | 4,268 | 3,467 | (801) |
| **Cyfanswm Cyllidebau'r Cyfarwyddiaethau** | **211,607** | **213,712** | **211,433** | **(2,279)** |
| **Cyllidebau Cyngor Cyfan** | | | | |
| Cyllido Cyfalaf | 10,128 | 10,128 | 11,115 | 987 |
| Praeseptau ac Ardollau | 6,959 | 6,879 | 6,881 | 2 |
| Cysgu I Mewn | 800 | 264 | 0 | (264) |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 14,304 | 14,304 | 13,358 | (946) |
| Costau Yswiriant | 1,559 | 1,559 | 1,316 | (243) |
| Cynnal a Chadw Adeiladau | 900 | 729 | 413 | (316) |
| Cyllidebau Corfforaethol Eraill | 8,634 | 7,316 | (1,516) | (8,832) |
| **Cyfanswm Cyllidebau Cyngor Cyfan** | **43,284** | **41,179** | **31,567** | **(9,612)** |
| **Incwm Treth Gyngor Cronnus** | | | **(974)** | **(974)** |
| **Dyraniadau i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** | | | **12,509** | **12,509** |
| **Trosflwyddiad I Gronfa'r Cyngor** | | | **356** | **356** |
| **Cyfanswm** | **254,891** | **254,891** | **254,891** | **0** |

Mae'r alldro cyffredinol ar 31 Mawrth 2017 yn dangos sefyllfa gytbwys, ar ôl trosglwyddo £356,000 i Gronfa'r Cyngor, yn unol ag Egwyddor 8 y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Ar ôl cynnwys arian a dynnwyd i lawr o gronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn, darparodd cyllidebau Cyfarwyddiaethau danwariant net o £2.279 miliwn a chyllidebau cyngor cyfan danwariant net o £9.612 miliwn. Caiff y rhain eu mantoli gan y gofyniad i ddarparu Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi ar gyfer amrywiaeth o risgiau ac ymrwymiadau gwariant yn y dyfodol.

Mae'r tanwariant ar gyllidebau net Cyfarwyddiaethau ar gyfer y flwyddyn o ganlyniad i nifer o ffactorau gan gynnwys sicrhau cymaint â phosibl o incwm grant ac incwm arall, rheoli swyddi gwag yn llym ac arbedion effeithlonrwydd cyffredinol. Tynnodd Cyfarwyddiaethau £7.751 miliwn i lawr yn ystod y flwyddyn o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd cymeradwy i fodloni pwysau untro a nodwyd yn y blynyddoedd cynt, gan gynnwys cyllid ar gyfer prosiectau gweddnewid drwy'r Gronfa Newid, cyllid ar

gyfer prosiectau cyfalaf, tynnu balansau ysgolion i lawr, cyllid ar gyfer gwaith dymchwel a phwysau untro penodol i wasanaethau.

Mae'r tanwariant yn cuddio pwysau sylfaenol ar y gyllideb mewn cyllidebau gwasanaeth a adroddwyd yn ystod y flwyddyn ac sy'n parhau. Mae'r prif bwysau ariannol ym meysydd gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. Dylid nodi y gall y meysydd cyllideb hyn fod yn anwadal a gall mân newidiadau i alw arwain at fynd i gostau cymharol uchel. Wrth i batrymau darparu newid o fewn Cyfarwyddiaethau, caiff cyllidebau gwasanaeth eu hadolygu a'u hail-alinio yn unol â hynny.

**Monitro Cynigion Lleihau Cyllidebau**

**<u>Lleihad Cyllidebau 2015-16</u>**

Sefydlwyd Cynllun Wrth Gefn Lleihau Cyllidebau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn unol ag Egwyddor 12 y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig sydd fel a ganlyn: *"Resources are allocated to deliver the Bridgend Change Programme based on clear strategic plans that are kept under review by Corporate Directors to maintain alignment with the MTFS and a MTFS Budget Reduction Contingency will be maintained",* ac fe'i defnyddiwyd i liniaru'n rhannol y diffygion yn y cynigion lleihau cyllidebau canlynol yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

| **Diffygion Lleihau Cyllidebau 2015-16** | | |
|---|---|---|
| COM 1 | MREC | £150,000 |
| COM 11 | Bathodynnau Glas | £83,000 |
| CH 9 | Trafnidiaeth Ysgol | £100,000 |
| **Diffygion Lleihau Cyllidebau 2016-17** | | |
| RES29 | Ad-drefnu'r ystad swyddfeydd graidd - Ies Cwrt y Cigfrain | £195,000 |

**<u>Lleihad i Gyllidebau 2016-17</u>**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar 5 Gorffennaf 2016 ar Berfformiad Ariannol 2015-16. Amlygwyd yn yr adroddiad nad oedd £2.692 miliwn o'r cynigion lleihau cyllidebau o £11.225 miliwn ar gyfer 2015-16 wedi eu bodloni'n llawn, gyda diffyg o £1.909 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol. Roedd yr adroddiad yn nodi y byddai'r cynigion hyn yn parhau i gael eu monitro ochr yn ochr â chynigion y flwyddyn gyfredol, gyda chamau lliniaru i'w cyflawni i gael eu nodi. Nid yw'r holl gynigion wedi cael eu darparu'n llawn fodd bynnag, a phan fo hyn yn wir mae'r Cyfarwyddiaethau wedi nodi ateb ailadroddus a chamau lliniaru i gynnig ateb mwy parhaol.

Roedd y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2016-17 yn cynnwys cynigion ar gyfer arbedion o £7.477 miliwn. Ni wireddwyd £2.385 miliwn o'r cynigion hyn yn llawn yn 2016-17, ond mantolwyd y gwariant a oedd yn gysylltiedig â nhw gan waith rheoli swyddi gwag, ac arbedion eraill mewn rhannau eraill o'r gyllideb. O'r £2.385 miliwn o gynigion na wireddwyd yn llawn, gwireddwyd £540,000 yn 2016-17, gan adael diffyg o £1.845 miliwn. Fel y cyfryw, mae pwysau ailadroddus yn parhau ar gyllidebau 2017-18 a bydd angen rhoi sylw iddo trwy weithredu cynigion ar gyfer arbedion wedi eu cytuno neu nodi a darparu dewisiadau amgen. Bydd adroddiadau monitro yn y dyfodol yn adolygu cyflawniad yn erbyn y targedau hyn yn ogystal â lleihad cyllidebau 2017-18. Darperir crynodeb o gyflawniad y cynigion lleihau cyllidebau isod.

**Cyflawniad Lleihad Cyllidebau 2016-17**

| CYFARWYDDIAETH | Cyfanswm y Lleihad i'r Gyllideb a oedd yn Ofynnol £'000 | Cyfanswm y Lleihad i'r Gyllideb a Gyflawnwyd £'000 | Diffyg £'000 |
|---|---|---|---|
| Addysg a Chymorth i Deuluoedd | 976 | 504 | 472 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 2,984 | 1,993 | 991 |
| Cymunedau | 1,377 | 1,025 | 352 |
| Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth | 985 | 985 | 0 |
| Prif Weithredwr | 217 | 187 | 30 |
| Cyllidebau Cyngor Cyfan | 938 | 938 | 0 |
| **CYFANSWM** | **7,477** | **5,632** | **1,845** |

Mae'r mwyaf arwyddocaol o'r cynigion hyn na gyflawnwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol neu'r Coleg (£450,000) – ac, yn benodol, cyflawni arbedion effeithlonrwydd o ran trafnidiaeth ysgol ac ad-drefnu trafnidiaeth anghenion addysgol arbennig. Mae cyllidebau wedi cael eu hailalinio yn 2017-18 i fynd i'r afael â'r diffyg.
- Trosglwyddo'r Gwasanaeth Gofal Teuluol i Ganolfannau Cymunedol (£158,000) – Dylai'r arbediad hwn gael ei gyflawni'n llawn yn 2017-18.
- Ailfodelu Gofal Preswyl a Seibiant i Blant (£200,000) – Ceir adolygiad parhaus o opsiynau ailfodelu i nodi arbedion. Bydd angen i'r Gyfarwyddiaeth nodi cynigion amgen yn 2017-18 os nad oes modd cyflawni'r cynnig hwn.
- Gostyngiad i niferoedd a chostau Diogelu Plant sy'n Derbyn Gofal (£357,000) – gwnaed cynnydd o ran lleihau'r nifer presennol o Blant sy'n Derbyn Gofal, ond mae nifer y plant newydd sy'n mynd i mewn i'r system yn ei gwneud yn anodd iawn i wneud arbedion ar y lefel ofynnol. Mae hyn yn cael ei ddatblygu drwy'r Bwrdd Ymyrraeth Gynnar a Diogelu.
- Adolygu gwasanaethau cynnal a chadw Priffyrdd / Sefydliad Llafur Uniongyrchol (£112,000) – oherwydd oedi cyn cwblhau'r gwaith ailstrwythuro, ond mae hwn wedi ei gyflawni erbyn hyn a bydd yr arbediad yn cael ei gyflawni'n llawn yn 2017-18.
- Les Cwrt y Cigfrain (£195,000) – cyflawnwyd o Gronfa Wrth Gefn Lleihad Cyllidebau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn 2016-17. Mae marchnata gweithredol o'r adeilad yn parhau, ond efallai na fydd modd darparu'r lleihad os bydd hyn yn aflwyddiannus.
- Gweithredu rhai agweddau ar y Dreth Gyngor a Budd-daliadau Tai ar-lein (£30,000) – fe wnaeth oedi wrth weithredu Newid Sianel atal arbedion llawn rhag cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Mae'r cyfarwyddwyr yn parhau i weithio gyda'u staff i ddarparu eu cynigion neu ddod o hyd i ddewisiadau amgen i atal gorwario cyllidebau yn y dyfodol.

**Sylwadau ar y sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2017**

Nodir ac esbonnir yr amrywiannau mwyaf arwyddocaol isod.

## Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd

£108.238 miliwn oedd y gyllideb net i'r Gyfarwyddiaeth ar gyfer 2016-17 a £107.653 miliwn oedd yr alldro gwirioneddol, ar ôl tynnu £2.54 miliwn i lawr o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd, yn deillio o danwariant o £585,000. Dyma'r amrywiannau mwyaf arwyddocaol:

| Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG A CHYMORTH I DEULUOEDD | Cyllideb Net £'000 | Alldro £'000 | Amrywiant Dros/ (o dan) y gyllideb £'000 | % yr Amrywiant |
|---|---|---|---|---|
| Y Gwasanaeth Amgylchedd Adeiledig | 997 | 1,010 | 13 | 1.3% |
| Digolledu Rhyng-awdurdod | 126 | (519) | (645) | -511.9% |
| Y Blynyddoedd Cynnar | 606 | 541 | (65) | -10.7% |
| Y Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad | 1,442 | 1,359 | (83) | -5.8% |
| Gwella Ysgolion | 966 | 800 | (166) | -17.2% |
| Cynllunio Strategol ac Adnoddau | 4,126 | 4,013 | (113) | -2.7% |
| Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg | 3,860 | 4,986 | 1,126 | 29.2% |
| Gwasanaethau Arlwyo | 775 | 494 | (281) | -36.3% |
| Gweithio Integredig | 1,022 | 856 | (166) | -16.2% |

Y Gwasanaeth Amgylchedd Adeiledig

- Er mai mân orwariant o £13,000 yw'r sefyllfa gyffredinol i'r Gwasanaeth Amgylchedd Adeiledig, ceir amrywiannau sylfaenol ar draws y meysydd gwasanaeth.
- Roedd gorwariant o £185,000 ar y Sefydliad Llafur Uniongyrchol. Diwygiwyd cyfraddau codi tâl yn ystod y flwyddyn yn unol â chanllawiau CIPFA. Y canlyniad oedd cyfradd codi tâl is ar ôl cael gwared ar gostau anghymwys. Bydd angen monitro cyfraddau cynhyrchiant yn agos yn 2017-18 i sicrhau y ceir sefyllfa lle mae'r cyfrifon yn cael eu mantoli yn y dyfodol. Cydbwyswyd y gorwariant gan or-adfer incwm yn erbyn y targed incwm o ran Penseiri (£81,000) a Syrfewyr Maint (£34,000), ynghyd â rheoli swyddi gwag ymhlith Peirianwyr Mecanyddol a Thrydanol (£26,000) a'r Adran Ynni (£64,000).

Digolledu Rhyng-awdurdod

- Ceir tanwariant o £645,000 ar leoliadau addysg y tu allan i'r sir, oherwydd cyfuniad o ostyngiad i nifer y lleoliadau (28 ym mis Mawrth 2016 i 24 ym mis Mawrth 2017) wrth i ddisgyblion gael eu dychwelyd i'r sir i gael eu haddysgu (£588,000) ac incwm ychwanegol gan ddisgyblion o awdurdodau lleol eraill (£57,000) yn cael eu lleoli yn ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr. Trosglwyddwyd £445,000 o'r gyllideb hon i'r gyllideb Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol yn 2017-18 i liniaru pwysau ar y gyllideb honno.

Y Blynyddoedd Cynnar

- Ceir tanwariant o £65,000 ar y Blynyddoedd Cynnar oherwydd cyfuniad o swyddi gwag, cynnydd na ragwelwyd i incwm grant a llai o wariant ar Grantiau Datblygu Meithrin wrth ddisgwyl lleihad i gyllidebau 2017-18 y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Y Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad

- Mae'r tanwariant net o £83,000 yn gyfuniad o adfachiadau uwch gan ysgolion yn deillio o gynnydd i nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu mewn mannau ac eithrio'r ysgol, ynghyd â swyddi gwag yn Narpariaeth Amgen y Bridge (£116,000). Caiff hyn ei gydbwyso gan gostau cynyddol ar gyfer cymorth ategol 1:1 oherwydd anawsterau'n recriwtio staff parhaol (£32,000) a defnydd o staff asiantaeth yn sgil hynny, am gost uwch i'r Cyngor.

Gwella Ysgolion

- Mae'r tanwariant o £166,000 yn ymwneud yn bennaf â'r oedi o ran penodiadau i'r Tîm Datblygu (£124,000) sy'n cefnogi'r adolygiad strategol o ysgolion, ac a ddefnyddiwyd i liniaru achosion eraill o orwariant o fewn y Gyfarwyddiaeth. Mae'r swyddi hyn wedi cael eu llenwi erbyn hyn. Ceir gostyngiad o £68,000 i'r gyllideb yn erbyn y Tîm Datblygu yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2017-18 gan y nodwyd ffynhonnell ariannu amgen i alluogi'r gyllideb i gael ei lleihau heb effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau. Mae balans y tanwariant oherwydd incwm grant ychwanegol.

Cynllunio Strategol ac Adnoddau

- Mae'r tanwariant o £113,000 wedi codi'n bennaf o ganlyniad i adeiladu Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn hwyrach na'r disgwyl, a'r angen dilynol i fenthyg yn rhan o'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol. Bydd y cyllid refeniw'n cael ei defnyddio i ad-dalu'r gost o fenthyg wrth i'r cynlluniau ddatblygu.
- Ar 28 Mawrth 2017, penderfynodd y Cabinet gefnu ar y cynnig i adleoli Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig i safle Ysgol Gyfun Cynffig. O'r herwydd, ailgyfeiriwyd y gost o ddylunio a gwaith arall yn gysylltiedig â'r cynllun i gyllideb refeniw'r Gyfarwyddiaeth o dan y maes gwasanaeth hwn. £327,000 oedd cyfanswm hyn. Fodd bynnag, cydbwyswyd hyn gan gyllid o'r Gronfa Wrth Gefn Gorfforaethol.

Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol / Coleg

- Ceir gorwariant o £1.126 miliwn yn y gyllideb Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg, ac mae £337,000 ohono'n ymwneud â gorwariant a ddygwyd ymlaen o 2015-16. Ni chyflawnwyd arbedion Strategaeth Ariannol Tymor 2015/16 yn llawn yn rhannol oherwydd yr ad-drefnu contractau cyfyngedig oherwydd cynnydd i nifer y disgyblion sy'n gymwys ar gyfer trafnidiaeth, sydd y tu allan i reolaeth yr awdurdod lleol ac yn anodd ei ragweld yn gywir. Hefyd, ni wireddwyd gostyngiadau cyllideb o ran newidiadau i'r Polisi Teithio Dysgwyr yn llawn gan na allwyd rhoi'r newid a gytunwyd i'r polisi gan y Cabinet ar waith tan fis Medi 2016 ac ni ddaeth hyn â'r un lefel o arbedion ag y nodwyd yn wreiddiol. Lliniarwyd y gorwariant yn rhannol gan gyfraniad o £100,000 o Gronfa Wrth Gefn Lleihau Cyllidebau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.
- Ceisiwyd gwneud arbedion effeithlonrwydd pellach i drafnidiaeth Anghenion Addysgol Arbennig a Phlant sy'n Derbyn Gofal, ond cawsant eu heffeithio gan rywfaint o alw cynyddol am drafnidiaeth unigol oherwydd anghenion plant unigol a'n dyletswydd fel Awdurdod Lleol i sicrhau eu bod yn cael eu cludo yn unol â'n cyfrifoldebau statudol a'n polisi Teithio Dysgwyr cyfredol.
- Mae cynigion ychwanegol y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2016-17 o £450,000 wedi ychwanegu at y pwysau hwn. Ail-aliniwyd cyllidebau yn rhan o broses pennu cyllidebau 2017-18 i liniaru'r diffygion yn y maes gwasanaeth hwn, gyda'r mwyafrif yn dod o'r Digolledu Rhyng-awdurdod o dan wariant a nodwyd uchod.
- Mae'r Cyngor wedi rhoi cyllid untro o'r neilltu mewn cronfa wrth gefn a glustnodwyd i wneud gwaith ar lwybrau diogel i ysgolion.

Gwasanaethau Arlwyo

- Mae'r tanwariant o £281,000 wedi deillio'n rhannol o reoli swyddi gwag yn llym (£116,000). Mabwysiadwyd y dull darbodus hwn gan y gall costau llafur gael eu heffeithio gan amhariad ar ddiwrnodau masnachu yn ystod misoedd y gaeaf, na ddigwyddodd oherwydd na chafwyd tywydd garw. Hefyd, sicrhaodd y gwasanaeth £139,000 yn fwy na'i incwm a dargedwyd. Mae hyn yn

bennaf oherwydd y galw uwch am brydau bwyd ysgol uwchradd na ragwelwyd pan bennwyd y cyllidebau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

- Bydd yr achosion hyn o danwariant yn cyfrannu at darged Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2017-18 ar gyfer arlwyo, sef £79,000.

Gweithio Integredig

- Mae Gweithio Integredig wedi tanwario o £166,000. Mae hyn yn bennaf oherwydd rheoli swyddi gwag o £125,000, a'r gweddill oherwydd tanwariant ar Gymorth i Yrwyr Gwirfoddol - terfynwyd y gwasanaeth dros dro ym mis Chwefror wrth ddisgwyl adolygiad.

Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion

- Gostyngodd balansau ysgolion o £2.154 miliwn ar ddiwedd 2015-16 i £866,000 ar ddiwedd 2016-17 (gostyngiad o £1.288 miliwn), sy'n cynrychioli 0.93% o'r cyllid a oedd ar gael. Mae cyfanswm cyllidebau diffyg yn gyfwerth ag £1.225 filiwn a chyfanswm cyllidebau gwarged yn gyfwerth â £2.090 filiwn.
- O gyfanswm o 59 o ysgolion, ceir 18 ysgol (13 cynradd, 4 uwchradd ac 1 arbennig) â chyllidebau diffyg a 7 ysgol (5 cynradd, 1 uwchradd, 1 arbennig) â balansau sy'n fwy na'r cyfyngiadau statudol (£50,000 cynradd, £100,000 ysgolion uwchradd ac arbennig) yn unol â Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010. Bydd y balansau hyn yn cael eu dadansoddi gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chyngor i Deuluoedd, yn unol â'r 'Canllawiau a gweithdrefnau ar reoli balansau ysgol gwared' a gytunwyd.

**Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant**

£61.383 miliwn oedd cyllideb net y Gyfarwyddiaeth ar gyfer 2016-17 a £62.560 miliwn oedd yr alldro gwirioneddol, ar ôl tynnu £1.806 miliwn i lawr o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd, yn arwain at orwariant o £1.177 miliwn. Dyma'r amrywiannau mwyaf arwyddocaol:

| Y GYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT | Cyllideb Net £'000 | Alldro £'000 | Amrywiant Dros/ (o dan) y gyllideb £'000 | % yr Amrywiant |
|---|---|---|---|---|
| Gofal Preswyl Pobl Hŷn | 8,084 | 8,320 | 236 | 2.9% |
| Gofal Cartref Pobl Hŷn | 8,640 | 7,936 | (704) | -8.1% |
| Asesu a Rheoli Gofal Pobl Hŷn ac Anableddau Corfforol | 3,475 | 2,890 | (585) | -16.8% |
| Gofal Preswyl Anableddau Dysgu | 1,458 | 1,753 | 295 | 20.2% |
| Gofal Cartref Anableddau Dysgu | 5,516 | 6,177 | 661 | 12.0% |
| Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu | 3,099 | 2,896 | (203) | -6.6% |
| Gofal Cartref Iechyd Meddwl | 412 | 626 | 214 | 51.9% |
| Plant sy'n Derbyn Gofal | 10,546 | 11,521 | 975 | 9.2% |

Gofal Preswyl Pobl Hŷn

- Mae'r gorwariant wedi codi'n bennaf o ganlyniad i ostyngiad i incwm gofal nyrsio o £230,000 o'i gymharu â 2015-16. Mae hyn yn bennaf oherwydd incwm is a dderbyniwyd o ddarpariaeth nyrsio yn ein sefydliadau yn dilyn dull mwy darbodus o adennill incwm a sicrhawyd yn erbyn eiddo, yn

seiliedig ar batrymau hanesyddol, sydd wedi arwain at lai o incwm yn cael ei gyfrifyddu yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17.

Gofal Cartref Pobl Hŷn

- Ceir tanwariant o £704,000 o ganlyniad i gostau gostyngedig o drosglwyddo pecynnau gofal cartref i'r sector annibynnol, yn rhan o strategaeth y Cyngor o ganolbwyntio gofal cartref yr awdurdod lleol ar ofal arbenigol a chymhleth yn unig.

Asesu a Rheoli Gofal

- Ceir tanwariant o £301,000 ar asesu a rheoli gofal ar gyfer pobl hŷn, a £284,000 ar asesu a rheoli gofal ar gyfer pobl ag anableddau corfforol. Cynhyrchwyd y tanwariant trwy reoli swyddi gwag da ond hefyd trwy gyllid allanol ychwanegol i gydbwyso costau gweithgareddau gwasanaethau craidd.

Gofal Preswyl Anableddau Dysgu

- Bu gorwariant o £295,000 o ganlyniad i drosglwyddo 'anghenion cymhleth' i wasanaethau i oedolion. Mae'r gorwariant hwn yn dilyn tynnu £245,000 i lawr o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.
- Yn y dyfodol, er nad ydym yn ymwybodol o unrhyw blant ag anghenion gofal sy'n troi'n oedolion yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, bydd gwaith dadansoddi yn cael ei wneud i ddeall y galw am y gwasanaeth yn y dyfodol. Mae'r rheini sydd wedi trosglwyddo wedi cael eu hasesu i benderfynu ar y math mwyaf priodol o leoliad i ddiwallu eu hanghenion, sydd am gost is yn gyffredinol.

Gofal Cartref Anableddau Dysgu

- Ceir gorwariant o £661,000 yn deillio o gynnydd i nifer yr oriau mewn pecynnau gofal presennol, i ddiwallu anghenion mwy cymhleth, ynghyd â chynnydd o un i nifer y cynlluniau byw â chymorth. Mae'r incwm a dderbyniwyd o ffioedd a dalwyd gan Awdurdodau Lleol eraill yn llai na'r hyn a gyllidebwyd ar ei gyfer hefyd.

Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu

- Ceir tanwariant o £203,000 yn deillio o swyddi gwag. Mae'r mwyafrif wedi cael eu llenwi erbyn hyn a defnyddiwyd y rhai a oedd yn weddill i fodloni gostyngiadau i'r gyllideb yn 2017-18.

Gwasanaethau Gofal Cartref Iechyd Meddwl Oedolion

- Ceir gorwariant o £214,000 ar ofal cartref o ganlyniad i alw cynyddol am ofal cartref yn y maes gwasanaeth hwn, ynghyd â chynnydd o ddau ddefnyddiwr gwasanaeth ychwanegol yn y cynllun byw â chymorth.

Plant sy'n Derbyn Gofal

- Ceir gorwariant o £975,000 ar blant sy'n derbyn gofal, ar ôl tynnu £440,000 i lawr o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r oedi cyn cyflwyno model newydd ar gyfer gwasanaethau preswyl (arbediad £400,000 y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig o 2015-16 a 2016-17 i gael ei wireddu) sydd wedi cymryd cryn amser i'w sefydlu oherwydd yr angen am waith ymchwil, ymgynghori a gwerthuso opsiynau sylweddol, a'r gostyngiad diogel arafach na'r disgwyl i blant sy'n derbyn gofal (£357,000 yn 2016-17). Mae cynlluniau prosiect ar gyfer y ddau faes hyn ar waith erbyn hyn ac mae'r gwaith gofynnol wedi datblygu momentwm, a disgwylir i waith cyfalaf sylweddol gael ei wneud yn 2017-18. Mae cynllun ar waith i leoli mwy o blant mewn lleoliadau maeth mewnol o leoliadau annibynnol cost uchel.
- Er bod nifer y plant sy'n derbyn gofal ledled Cymru â Phen-y-bont ar Ogwr wedi parhau i gynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r nifer fel cyfran o'r boblogaeth plant wedi gostwng mewn gwirionedd. Mae'r Bwrdd Ymyrraeth Gynnar a Diogelu wedi bod yn adolygu'r math o leoliadau y mae ein plant mwy agored i niwed yn cael eu lleoli ynddynt, a thrwy leoliadau mewn mannau mwy priodol, mae wedi sicrhau arbediad ariannol cyffredinol. Mae'r pwyslais wedi bod, a bydd yn parhau i fod, ar leihau nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir, pan fo'n briodol ac yn ddiogel gwneud

hynny. 390 oedd nifer y plant a oedd yn derbyn gofal ar ddiwedd mis Mawrth 2017, o'i gymharu â 382 ar ddiwedd mis Mawrth 2016, a 10 yw nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir ar hyn o bryd gyda rhai lleoliadau unigol yn costio tua £220,000 y flwyddyn. Er bod y boblogaeth plant sy'n derbyn gofal net wedi cynyddu, dylid nodi:

  - Bod y Gwasanaeth wedi lleihau lleoliadau Asiantaeth Maethu Annibynnol cost uchel o 7, a all leihau'r gost flynyddol tua £330,000.
  - Nad yw 88 o blant yn blant sy'n derbyn gofal mwyach, ond daeth 97 yn blant sy'n derbyn gofal yn ystod y cyfnod hwn.
  - Bod y Gwasanaeth wedi cyflwyno ei strategaeth perfformiad gan nodi lleoliadau cost uchel a throsglwyddo i leoliadau cost is
  - Wrth adolygu'r boblogaeth plant sy'n derbyn gofal o 390 ar ddiwedd mis Mawrth 2017, bod y gost plant sy'n derbyn gofal gyfatebol flynyddol net tua £290,000 yn llai na chost y boblogaeth plant sy'n derbyn gofal o 382 ym mis Ebrill 2016.

- Hefyd, ceir nifer o gleientiaid "Pan Fyddaf yn Barod" (pan fo ymadawr gofal yn parhau i fyw gyda'i ofalwr maeth ar ôl iddo droi'n 18 oed) sy'n dal mewn lleoliad, y mae'r Cyngor yn eu hariannu, ond nad yw'n eu cyfrif fel plant sy'n derbyn gofal. Ar gyfer 2017-18, cydnabuwyd hyn fel pwysau newydd ar y gyllideb ar ôl cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac fe'i hariennir yn unol â hynny.

Caiff y gyllideb ei monitro'n agos ac mae cynllun adfer ar waith i weithio tuag at leihau'r gorwariant cyfredol a sicrhau bod y gyllideb ar gyfer 2017-18 yn cael ei rheoli'n effeithiol.

Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Eraill

- Nid yw'r Gwasanaeth hwn yn rhagweld amrywiant sylweddol, ac felly ni adroddir ar y Gwasanaeth hwn yn y tabl uchod. Fodd bynnag, mae'n rhaid nodi bod hyn yn dilyn tynnu £308,000 i lawr o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd i fantoli'r gorwariant ar y cyd-wasanaeth mabwysiadu. Mae'r gorwariant yn ymwneud yn bennaf â'r cyfraniad at gronfa gyfun Bae'r Gorllewin. Mae cyfraniad pob awdurdod yn seiliedig ar nifer y lleoliadau gan bob awdurdod fel % o gyfanswm lleoliadau Bae'r Gorllewin, ac mae cyfran Pen-y-bont ar Ogwr o leoliadau ar hyn o bryd yn 34% o'r cyfanswm o'i gymharu â 24% a ragwelwyd pan bennwyd y gyllideb. Mae hyn yn cydnabod y dull rhagweithiol o geisio lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal, trwy ddarparu atebion mwy parhaol. Aethpwyd i'r afael â'r diffyg hwn ar gyfer 2017-18 trwy bwysau cyllideb yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

**Y Gyfarwyddiaeth Cymunedau**

£24.871 miliwn oedd y gyllideb net ar gyfer y Gyfarwyddiaeth yn 2016-17 a £24.517 miliwn oedd yr alldro gwirioneddol, ar ôl tynnu £2.287 miliwn i lawr o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd, gan arwain at danwariant o £354,000. Dyma'r amrywiannau mwyaf arwyddocaol:

| Y GYFARWYDDIAETH CYMUNEDAU | Cyllideb Net £'000 | Alldro £'000 | Amrywiant Dros/ (o dan) y gyllideb £'000 | % yr Amrywiant |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu | 301 | 162 | (139) | -46.2% |
| Adfywio | 1,788 | 1,692 | (96) | -5.4% |
| Gwaith stryd | 8,018 | 8,260 | 242 | 3.0% |
| Priffyrdd a Fflyd | 6,127 | 6,475 | 348 | 5.7% |
| Parciau a Mannau Agored | 2,010 | 1,942 | (68) | -3.4% |
| Trafnidiaeth a Pheirianneg | 842 | 746 | (96) | -11.4% |
| Cymorth y Gwasanaethau Stryd | 326 | 253 | (73) | -22.4% |
| Dysgu Oedolion | 177 | 83 | (94) | -53.1% |
| Eiddo (Ystadau) | 1,264 | 867 | (397) | -31.4% |

<u>Rheoli Datblygiad</u>

- Ceir tanwariant o £139,000 oherwydd cynnydd i nifer y ceisiadau cynllunio mwy sy'n denu lefelau ffioedd mwy yn ystod y flwyddyn ariannol. Caiff ffioedd eu pennu gan Lywodraeth Cymru ac maent yn amrywio yn ôl y math o ddatblygiad. O ganlyniad i nifer y ceisiadau, mae'r gwasanaeth wedi derbyn mwy o incwm na gyllidebwyd. Fodd bynnag, ni ellir sicrhau y bydd nifer tebyg o geisiadau mawr yn cael eu derbyn y flwyddyn nesaf ac felly dylid ystyried yr incwm cynyddol a gynhyrchwyd fel achos unigryw ar hyn o bryd.

<u>Adfywio</u>

- Ceir tanwariant o £96,000 o'r gyllideb Adfywio. Mae hyn yn bennaf oherwydd rheoli swyddi gwag (£50,000) gyda'r gweddill o danwariant ar gyllidebau nad ydynt yn ymwneud â staffio. Mae'r tanwariant ar gyllidebau nad ydynt yn ymwneud â staffio yn rhannol gysylltiedig â gweithrediad cynnar gostyngiadau cyllideb y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn y dyfodol, ac yn rhannol oherwydd tanwariant o gyllideb marchnata a hyrwyddo'r Uned Datblygu Economaidd o ganlyniad i gyfyngiadau capasiti staff a chyfraniadau uwch na'r disgwyl gan noddwyr.

<u>Gwaith Stryd</u>

- Mae'r gorwariant net o £242,000 ar Waith Stryd yn cynnwys gorwariant o £365,000 o'r Gyllideb Gwaredu Gwastraff. Ni chyflawnwyd yr arbediad MREC o £300,000 ar gyfer 2015-16, ond fe'i lliniarwyd yn rhannol gan gyfraniad o £150,000 o Gronfa Wrth Gefn Lleihau Cyllidebau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Ail-aliniwyd cyllidebau yn rhan o broses pennu cyllidebau 2017-18 i liniaru'r diffyg hwn. Roedd costau tunelledd ychwanegol o £454,000 hefyd, sydd wedi cael eu mantoli'n rhannol gan arbediad o £239,000 o'r prosiect caffael Treulio Anaerobig interim.
- O dan y contract gwastraff newydd yn cychwyn yn 2017-18, ceir gostyngiad rhagweledig i gyfanswm y tunelledd sy'n mynd i'r MREC oherwydd cynnydd i gasglu deunydd ailgylchadwy ar garreg y drws ac yn y Safleoedd Amwynder Dinesig. Tynnwyd £196,000 i lawr o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd i gynorthwyo costau prosiect caffael ar gyfer y Contract Gwastraff newydd a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2017.
- Ceir targed lleihau'r gyllideb pellach o £200,000 o ran yr MREC yn 2017-18 y rhagwelir y bydd yn cael ei gyflawni pan fydd y broses gaffael i benodi contractwr i weithredu a rheoli'r MREC yn dod i ben. Mae hwn yn parhau i fod yn faes o bwyslais sylweddol i reolwyr mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Mae arbediad o £100,000 hefyd wedi ei gynnwys yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2017-18 yn erbyn yr ymarfer Caffael Treulio Anaerobig sydd ar fin cael ei gwblhau.

Priffyrdd a Fflyd

- £348,000 yw'r gorwariant net ar Briffyrdd a Fflyd. Mae gorwariant ar Gynnal a Chadw Priffyrdd a Gwasanaethau Fflyd o £441,000 wedi ei gynnwys yn rhan o hyn, sy'n wariant ar gynnal a chadw priffyrdd a wnaed gan y Gyfarwyddiaeth (£293,000) yn bennaf, ynghyd â dirywiad i incwm masnachol Gwasanaethau Fflyd (£148,000). Mae'r gostyngiad i incwm oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys y gostyngiad cyffredinol i gyllidebau'r Cyngor a chau Cyflenwadau'r Sir. Mantolwyd hyn gan danwariant o £131,000 ar oleuadau stryd, sydd wedi codi yn dilyn rhaglen y Fenter Benthyca Llywodraeth Leol o ddisodli llusernau, a gostyngiad dilynol i gostau ynni a gwaith cynnal a chadw gofynnol. Bydd yr arbediad hwn yn cael ei ddefnyddio yn 2017-18 i fodloni diffygion byrdymor yn arbediad y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, tra bod cynigion yn cael eu datblygu e.e. adolygiad o ffioedd parcio ceir.
- Mae cais Asiantaeth Cefnffyrdd De-ddwyrain Cymru am waith ychwanegol ar yr A470 ar ôl i Gyngor Merthyr dynnu yn ôl o'r gweithgareddau cynnal a chadw ar y ffordd wedi cael effaith gadarnhaol ar sefyllfa alldro'r Sefydliad Llafur Uniongyrchol. Derbyniwyd ceisiadau ychwanegol hefyd i gynorthwyo gwaith cynnal a chadw cefnffyrdd yn ardal Castell-nedd Port Talbot. Nid yw'n eglur ar hyn o bryd a fydd unrhyw geisiadau am waith ychwanegol y tu hwnt i'r ymrwymiad lefel gwasanaeth yn 2017-18 na goblygiadau ariannol unrhyw geisiadau o'r fath.

Parciau a Mannau Agored

- Ceir tanwariant o £68,000 ar Barciau a Mannau Agored yn bennaf oherwydd tanwariant ar staffio. Mae'r tanwariant wedi codi yn rhan o broses ailstrwythuro'r gwasanaeth parcio ac ni fydd yn digwydd eto yn 2017-18.

Trafnidiaeth a Pheirianneg

- Ceir tanwariant net o £96,000 ar draws y gwasanaeth. O fewn hyn, ceir pwysau ar y gyllideb meysydd parcio o £111,000, yn bennaf oherwydd yr oedi cyn cyflwyno lleihad cyllidebau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, gan gynnwys codi am fathodynnau glas (£165,000) a chynnydd i ffioedd parcio ceir (£60,000), wedi'u cyfuno â diffygion o ran incwm meysydd parcio (£140,000). Lliniarwyd hyn gan gyfraniad o £83,000 o Gronfa Wrth Gefn Lleihau Cyllidebau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a thynnu cyllid i lawr o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd. Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi nodi tanwariant lliniaru i leddfu'r pwysau hyn yn y byrdymor. Ceir gostyngiad pellach o £50,000 i'r gyllideb yn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2017-18 yn gysylltiedig ag adolygiad eang o feysydd parcio gan gynnwys trwyddedau parcio staff ac aelodau etholedig.
- Ceir gorwariant o £64,000 ar Reoli Traffig a Diogelwch ar y Ffyrdd. Mae £20,000 o hyn oherwydd y diffyg o ran arbediad y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn ymwneud â Phatrolau Croesi Ffordd Ysgolion. Mae gweddill y gorwariant oherwydd diffyg incwm ffioedd mewnol.
- Mae gan Bolisi Datblygu orwariant o £79,000. Mae hyn yn cynnwys gorwariant ar gostau staffio oherwydd gweithrediad hwyr prosesau ailstrwythuro staff yn bennaf.
- Mantolwyd yr achosion o orwario a nodwyd gan wasanaethau Peirianneg yn rhagori ar eu targed incwm (£275,000) yn bennaf oherwydd cydbwysedd gweithio ar brosiectau a ariannwyd gan yr UE/na ariannwyd gan yr UE o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol. Bu tanwariant o dan Gydgysylltu Trafnidiaeth Gyhoeddus hefyd, oherwydd rheoli swyddi gwag (£75,000).

Cymorth y Gwasanaethau Stryd

- Ceir tanwariant o £73,000 ar draws y gwasanaeth oherwydd rheoli swyddi gwag a llai o wariant ar gyflenwadau a gwasanaethau.

Dysgu Cymunedol Oedolion

- Ceir tanwariant o £94,000 ar draws y gwasanaeth oherwydd rheoli swyddi gwag. Roedd hyn yn rhannol o ganlyniad i raglen lai o gyrsiau oherwydd ansicrwydd am ddarpariaeth Dysgu Cymunedol oedolion yn y dyfodol yn dilyn newidiadau sylweddol i'r bartneriaeth strategol ardal a darpariaeth Coleg Penybont o raglen Dysgu Cymunedol Oedolion. Bydd hyn yn cyfrannu at

darged arbedion 2017-18 y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig o £70,000 ar gyfer lleihad i'r ddarpariaeth Dysgu Cymunedol Oedolion.

Eiddo

- Ceir tanwariant o £397,000 ar draws Ystadau Eiddo. Mae hyn yn bennaf oherwydd i gyllid Llywodraeth Cymru o £250,000 gael ei dynnu i lawr o ran Hartshorn House, a drosglwyddwyd i gronfa wrth gefn a glustnodwyd i dalu costau gweithredol ac ailwampio yn y portffolio eiddo masnachol. Ceir tanwariant o £117,000 hefyd yn deillio o swyddi gwag, sy'n cael ei fantoli'n rhannol gan orwariant yn deillio o danfeddianaeth o'r Ganolfan Arloesedd, o ganlyniad i anawsterau'n denu tenantiaid.
- Gwnaeth y Swyddog Adran 151 ddyraniad untro o Gronfa Wrth Gefn Lleihau Cyllidebau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn erbyn yr arbediad o £195,000 o ran Cwrt y Cigfrain ar ôl y methiant i lesu'r adeilad yn ystod y flwyddyn ariannol.

**Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth**

£14.952 miliwn oedd y gyllideb net ar gyfer y Gyfarwyddiaeth yn 2016-17 a £13.236 miliwn oedd yr alldro gwirioneddol, ar ôl tynnu £1.056 miliwn i lawr o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd, gan arwain at danwariant o £1.716 miliwn. Dyma'r amrywiannau mwyaf arwyddocaol:

| Y GYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU GWEITHREDOL A PHARTNERIAETH | Cyllideb Net £'000 | Alldro £'000 | Amrywiant Dros/ (o dan) y gyllideb £'000 | % yr Amrywiant |
|---|---|---|---|---|
| Opsiynau Tai a Digartrefedd | 693 | 375 | (318) | -45.9% |
| Gwasanaethau Cyfreithiol | 1,976 | 1,783 | (193) | -9.8% |
| Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | 3,536 | 3,175 | (361) | -10.2% |
| TGCh | 3,726 | 3,466 | (260) | -7.0% |
| Gwasanaethau Rheoleiddio | 1,470 | 1,350 | (120) | -8.2% |

Tai a Digartrefedd

- Ceir tanwariant o £318,000 ar y maes hwn. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r defnydd o staff craidd i gyflawni dyletswyddau y mae'r Cyngor yn derbyn cyllid grant ar eu cyfer (arian pontio a grant Cefnogi Pobl), a mân danwariant ar gyllidebau eraill. Mae'r gyllideb hon yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd gan y Pennaeth Cyllid a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth i ddarganfod a oes arbediad cyllideb ailadroddus y gellid ei wireddu yn y dyfodol.

Gwasanaethau Cyfreithiol

- Mae'r tanwariant o £193,000 ar wasanaethau cyfreithiol yn rhannol oherwydd cynnydd i gostau cyfreithiol a adenillwyd (£69,000), yn rhannol oherwydd tanwariant ar gostau cyfreithiol ac alldaliadau, a'r gweddill oherwydd swyddi gwag (£72,000), y mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi eu cynnwys yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig fel gostyngiadau i'r gyllideb ar gyfer 2017-18.

Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol

- Mae rhan o'r tanwariant yn ymwneud â rheoli swyddi gwag i baratoi ar gyfer arbedion y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (£200,000) yn y dyfodol, ac mae'r gweddill wedi codi o ganlyniad i swyddi sy'n wag ac yn disgwyl recriwtiad.

TGCh

- Mae'r tanwariant o £260,000 o ganlyniad i swyddi gwag yn y tîm, a chostau ffôn is (£40,000), ynghyd â thanwariant o £168,000 ar drwyddedau meddalwedd oherwydd dull rhagweithiol o ad-drefnu meddalwedd ar draws y Cyngor pan fo'r cyfle'n codi. Mae rhai o'r arbedion hyn mewn paratoad ar gyfer arbedion y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn y dyfodol.

Gwasanaethau Rheoleiddio

- Mae'r tanwariant yn ymwneud ag ad-daliad o danwariant ar y cyd-wasanaeth rheoleiddio ar ôl cau cyfrifon 2015-16, a oedd yn bennaf oherwydd swyddi gwag ar ôl creu'r gwasanaeth ar y cyd. Nid oedd cyfanswm y tanwariant hwn, ac unrhyw ad-daliad posibl, yn hysbys tan i'r cyfrifon gael eu harchwilio.

**Prif Weithredwyr**

£4.268 miliwn oedd y gyllideb net ar gyfer y Gyfarwyddiaeth yn 2016-17 a £3.467 miliwn oedd yr alldro gwirioneddol, ar ôl tynnu £58,000 i lawr o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd, gan arwain at danwariant o £801,000. Dyma'r amrywiannau mwyaf arwyddocaol:

| PRIF WEITHREDWYR | Cyllideb Net £'000 | Alldro £'000 | Amrywiant Dros/ (o dan) y gyllideb £'000 | % yr Amrywiant |
|---|---|---|---|---|
| Prif Swyddogion | 645 | 508 | (137) | -21.2% |
| Gweinyddu Budd-dal Tai | 696 | 485 | (211) | -30.3% |
| Taliadau Budd-dal Tai | 52 | (368) | (420) | -807.7% |

Prif Swyddogion

- Mae'r tanwariant yn ymwneud yn bennaf â'r gyllideb swyddi gwag ar ôl i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol adael. Cafodd hyn ei gynnwys yng ngostyngiadau i gyllidebau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2017-18.

Gweinyddu Budd-dal Tai

- Ceir tanwariant o ran gweinyddu budd-dal tai yn deillio'n bennaf o swyddi gwag, ond hefyd incwm grant ychwanegol. Adolygwyd y pwysau ar gyllideb 2016-17 o ran y cyfleuster Emmaus newydd yn chwarter 3 ac fe'i lleihawyd £100,000 cyn ei ddychwelyd i'r gyllideb gorfforaethol.

Taliadau Budd-dal Tai

- £48.478 miliwn yw'r gyllideb gros, sydd wedi ei mantoli gan £48.427 miliwn o incwm, y mae'r rhan fwyaf ohono'n gymhorthdal budd-dal tai. Ceir tanwariant o £420,000 o ran talu budd-dal tai. Mae hyn yn cynnwys adennill gordaliadau ychwanegol, yn dod i gyfanswm o £245,000, a thanwariant o £180,000 o ganlyniad i'r ffaith fod llai o angen am ddarpariaeth ar gyfer dyled ddrwg.

**Cyllidebau Cyngor Cyfan**

Mae adran hon y cyfrifon yn cynnwys cyllidebau, darpariaethau a gwasanaethau sydd ar draws y cyngor cyfan, ac nid yn cael eu rheoli gan Gyfarwyddiaeth unigol. £41.179 miliwn yw'r gyllideb net a £31.567 oedd yr alldro gwirioneddol, gan arwain at danwariant o £9.612 miliwn. Nodir manylion yr amrywiannau mwyaf arwyddocaol isod:

| CYLLIDEBAU CYNGOR CYFAN | Cyllideb Net<br>£'000 | Alldro<br>£'000 | Amrywiant Dros/ (o dan) y gyllideb<br>£'000 | % yr Amrywiant |
|---|---|---|---|---|
| Cyllido Cyfalaf | 10,128 | 11,115 | 987 | 9.7% |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 14,304 | 13,358 | (946) | -6.6% |
| Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 729 | 413 | (316) | -43.3% |
| Premiymau Yswiriant | 1,559 | 1,316 | (243) | -15.6% |
| Cyllidebau Corfforaethol Eraill | 7,316 | (1,516) | (8,832) | -120.7% |

Cyllido Cyfalaf

- Mae'r gorwariant net o £987,000 yn gyfuniad o danwariant ar log a dalwyd oherwydd benthyg is na ragwelwyd (£1.3 miliwn), wrth i'r Cyngor ddefnyddio ei adnoddau mewnol ei hun i ariannu cynlluniau, sy'n cael ei fantoli a mwy gan daliad untro o £2.35 miliwn o fenthyg darbodus o ran Cwrt y Cigfrain i leihau costau cyllido cyfalaf yn y dyfodol. Gwireddwyd ychydig yn llai o log na ragwelwyd ar fenthyciadau mewnol hefyd ar ôl ad-dalu symiau benthyg darbodus blaenorol.

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

- Mae'r tanwariant o £946,000 o ganlyniad i lai o alw na ragwelwyd ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Cyllideb a arweinir gan alw yw hon sy'n seiliedig ar y nifer llawn yn manteisio arni, ond ni fydd y nifer gwirioneddol a fanteisiodd arni yn hysbys tan ddiwedd y flwyddyn. Ceir gostyngiad o £300,000 i'r gyllideb hon yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2017-18 gyda gostyngiadau pellach wedi eu cynllunio i'r gyllideb ar gyfer y blynyddoedd i ddod, yn dibynnu ar y nifer sy'n manteisio bryd hynny.

Atgyweirio a Chynnal a Chadw

- Mae'r tanwariant o £316,000 o ganlyniad i lithriant ar rai mân gynlluniau gwaith ac astudiaethau dichonoldeb, a fydd yn cael eu cwblhau yn 2017-18 bellach. Sefydlwyd Cronfa Wrth Gefn a Glustnodwyd i dalu'r costau hyn. Ceir tanwariant hefyd ar fenthyg darbodus o ran y Cynllun Gorchuddio Swyddfeydd Dinesig, a fydd yn cael ei gwblhau yn 2017-18.

Premiymau Yswiriant

- Mae'r tanwariant o £243,000 wedi codi'n bennaf o ganlyniad i ad-daliad ffodus ac annisgwyl o ran cynllun PFI Maesteg o ran cytundeb rhannu premiymau'r contract (£170,000). Ceir ychydig bach o incwm ychwanegol a gynhyrchwyd o ailgyfeirio ffioedd i sefydliadau llafur uniongyrchol hefyd, ar gyfer yswiriant a drefnwyd ar eu rhan.

Cyllidebau Corfforaethol Eraill

- Ceir symudiad sylweddol ar fantolen y Cyngor o ran dyledwyr treth gyngor a budd-dal tai hanesyddol a chyfredol. Mae hyn wedi creu symudiad ffafriol o £3.678 miliwn ar gyllidebau corfforaethol eraill. O ran budd-daliadau tai, sefydlwyd y rhain fel dyledwyr yn y system budd-daliadau tai yn unig yn flaenorol ac nid ym mhrif gyfrifon y Cyngor. Mae hyn yn newid i driniaeth gyfrifyddu a fydd, yn y dyfodol, yn cydnabod y dyledion yn ystod y flwyddyn y maent yn codi, yn hytrach na'r flwyddyn y maent yn cael eu talu. Mae'r gweddill yn ymwneud â darpariaeth dyled ddrwg ostyngedig ar y fantolen ar gyfer treth gyngor yn dilyn cyfraddau adfer uwch. O'r herwydd, mae'r rhain yn addasiadau untro ac ni fyddant yn digwydd eto.
- Ceir tanwariant o £961,000 hefyd o ran arian yswiriant a rhyddhawyd i'r cyfrif refeniw i wneud cyfraniad at raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Trosglwyddwyd y cyllid hwn i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i fantoli'r gost yn 2017-18.
- Ceir nifer o achosion eraill o danwariant mewn cyllidebau cyngor cyfan, yn dod i gyfanswm o £5.09 miliwn, gan gynnwys:

- o Llai o ofyniad gan Gyfarwyddiaethau o ran tâl a phrisiau yn dilyn cyfraddau isel o chwyddiant (£1.58 miliwn). Er na fu angen hyn yn 2016-17, mae hwn yn faes risg penodol i gyllidebau cyngor ar hyn o bryd gan fod mynegeion chwyddiant wedi cynyddu dros y misoedd diwethaf.
- o Cost is na'r disgwyl yn ystod y flwyddyn o weithredu ymrestriad awtomatig ar gyfer pobl newydd (£400,000). Dylai'r gost hon fod yn gwbl hysbys erbyn diwedd 2017-18 wrth i'r Cyngor weithio tuag at ddiwedd y cyfnod pontio ymrestriad awtomatig (30 Medi 2017).
- o Achosion o danwariant ar gyllidebau corfforaethol eraill e.e. cronfa wrth gefn gorfforaethol, darpariaeth ar gyfer blwydd-daliadau a chyfraniadau yswiriant gwladol (£1.7 miliwn).
- o Hefyd, roedd cyllid yn cael ei gadw'n gorfforaethol yn y gyllideb i ymateb i bwysau ar gyllidebau yn gysylltiedig â'r cynllun Gofal Ychwanegol (cyfraniad refeniw i £1 filiwn i gyfalaf) a gweithrediad Safonau'r Gymraeg. Oherwydd yr oedi yn y cynllun Gofal Ychwanegol, mae'r cyllid wedi cael ei drosglwyddo i Gronfa Wrth Gefn a Glustnodwyd, tra'n disgwyl gwaith adeiladu. Hefyd, mae nifer o Safonau'r Gymraeg yn destun apêl ar hyn o bryd, a cheir oedi yng ngweithrediad y gyfres lawn o safonau o ganlyniad, a gwariant ar y gyllideb hon felly (£319,000), tan i ganlyniad yr apêl gael ei dderbyn gan Gomisiynydd y Gymraeg.

- Mae'r rhain wedi cael eu mantoli'n rhannol gan daliad untro o £896,000 o fenthyg darbodus o ran Swyddfa Cofnodion Morgannwg i leihau costau cyllido cyfalaf yn y dyfodol.

Mae'r tanwariant hwn wedi galluogi nifer o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd newydd i gael eu sefydlu i ymateb i bwysau yn 2017-18, yr adroddwyd rhai ohonynt yn chwarter 2 a chwarter 3, gan gynnwys yn benodol cyfraniadau at y gronfa gyfalaf wrth gefn i gefnogi ychwanegiadau posibl at y rhaglen gyfalaf yn y dyfodol (yn amodol ar gymeradwyaeth lawn y Cyngor) ac ariannu gwaith dymchwel, i osgoi costau sy'n gysylltiedig ag adeiladau gwag. Mae'r tanwariant ar gyllidebau Cyfarwyddiaethau hefyd wedi galluogi nifer o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd i gael eu sefydlu, i ymateb i bwysau penodol i wasanaethau y rhagwelir y byddant yn codi yn 2017-18, y bwriadwyd i lawer ohonynt godi yn 2016-17 yn wreiddiol. Mae'r tanwariant ar incwm treth gyngor gronnus o £974,000 wedi cael ei drosglwyddo i'r gronfa wrth ad-drefnu gwasanaethau i gefnogi cost rhaglenni trosglwyddo. Darperir rhagor o wybodaeth am Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn nodyn 27 i'r Datganiad o Gyfrifon.


Mae'r cyllidebau cyngor cyfan wedi cael eu hadolygu'n rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2017-18 i 2020-21 a byddant yn destun gostyngiadau sylweddol dros oes y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

**b) <u>Gwariant cyfalaf yn 2016-17</u>**


Yn ogystal â gwario arian ar ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, mae'r Cyngor hefyd yn gwario arian ar ddarparu cyfleusterau newydd, gwella asedau a'r seilwaith, gwella asedau neu ddarparu grantiau cyfalaf i eraill. £18.356 miliwn oedd cyfanswm y gwariant cyfalaf yn 2016-17. Roedd asedau a gafodd eu creu, eu gwella neu a oedd wrthi'n cael eu datblygu o ganlyniad i'r gwariant hwn yn cynnwys:

- Datblygiadau Llewyrchus Llawn Addewid - disodli maes parcio a llety preswyl a manwerthu newydd yn y Rhiw
- Ysgolion Cynradd De Cwm Garw, Pencoed a Brynmenyn
- Ailwampio'r Swyddfeydd Dinesig
- Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl
- Ailadeiladu cerbytffyrdd a goleuadau stryd

**O ble daeth yr arian:**




**Yr hyn y gwariwyd yr arian arno:**



**Alldro'r rhaglen gyfalaf**

Diwygiwyd y gyllideb wreiddiol a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Mawrth 2016 ymhellach ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn i ymgorffori cyllidebau a ddygwyd ymlaen o 2015-16, cyllidebau a ddygwyd ymlaen i 2017-18, ac unrhyw gymeradwyaeth i gynlluniau a grantiau newydd. Mae'r rhaglen ddiwygiedig a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 31 Mai 2017 yn dod i gyfanswm o £18.356 miliwn ar gyfer 2016-17. Dyma'r prif newidiadau o'r rhaglen gyfalaf a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 1 Mawrth 2017:

- Cyfanswm llithriant o £7.670 miliwn i 2017-18, gan gynnwys:
    - £565,000 o ran cynlluniau moderneiddio ysgolion;
    - Cronfa £1 filiwn a roddwyd o'r neilltu ar gyfer gwelliannau i barciau a phafiliynau i gynorthwyo Trosglwyddiad Asedau Cymunedol llwyddiannus;
    - £922,000 ar gyfer grantiau cysylltiedig â Thai / Cyfleusterau i Bobl Anabl, o ganlyniad i wahaniaethau amseru rhwng dyfarniadau grant a hawliadau deiliaid tai. Roedd llithriant yn erbyn y gyllideb Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl yn y blynyddoedd blaenorol oherwydd oediadau gydag atgyfeiriadau iechyd galwedigaethol, yn arwain at ôl-groniad, ac mae hyn wedi cael effaith ddilynol ar y gallu i ddal i fyny yn y flwyddyn ddilynol. Mae'r ymrwymiad wedi parhau i mewn i 2017-18. Hefyd, roedd oedi cyn derbyn ceisiadau am Grantiau Cartrefi Gwag a Grantiau Cartrefi mewn Trefi sydd wedi arwain at danwariant pellach. Dylai'r grantiau hyn gael eu gwario'n llawn yn 2017-18.
    - £480,000 o ran prynu asedau anweithredol sy'n cynhyrchu incwm;
    - £820,000 o gynlluniau gwaith mân yn sgil cwblhau cynlluniau a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn cynt, oediadau dilynol o ran cychwyn cynlluniau'r flwyddyn gyfredol a chapasiti cyfyngedig yn y Gwasanaeth Amgylchedd Adeiledig.

- Cyllidebau llai ar gyfer nifer o gynlluniau yn 2016-17, yn dod i gyfanswm o £871,000, yn enwedig o ran disodli arfaethedig Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig sydd wedi cael ei dynnu o'r rhaglen gyfalaf.

£18.266 miliwn oedd cyfanswm y gwariant ar 31 Mawrth 2017, yn arwain at danwariant o £89,000 ar adnoddau CBSPAO. Bydd y tanwariant hwn yn cael ei ddychwelyd i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf.

**c) <u>Trefniadau benthyg a ffynonellau cyllid</u>**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu *Treasury Management in the Public Services*: *Code of Practice 2011 Edition* y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth Rheoli Trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r Strategaeth hon yn bodloni ymrwymiad cyfreithiol y Cyngor o dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003* i roi sylw i'r Cod Ymarfer hwn.

Mae Arferion Rheoli Trysorlys y Cyngor yn galluogi'r Cyngor i godi cyllid o amrywiaeth o ffynonellau. Mae gan y Swyddog Adran 151 awdurdod i gymryd y math mwyaf priodol o fenthyciad o ffynonellau cymeradwy o fewn y cyfyngiadau benthyg cyffredinol a bennir gan y Cyngor.

Bob blwyddyn, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003, a'r Cod Darbodus, mae'n ofynnol i'r Cyngor bennu gwahanol gyfyngiadau o ran ei weithgareddau Rheoli Trysorlys, gan gynnwys cyfyngiadau ar gyfer dyled. Roedd y cyfyngiadau a bennwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol fel a ganlyn:-

| | 2016-17<br>£m |
|---|---|
| **Cyfyngiad a awdurdodwyd ar gyfer dyled allanol** | |
| Benthyg | 140 |
| Rhwymedigaethau hirdymor eraill | 30 |
| **Cyfanswm** | **170** |
| **Ffin Weithredol** | |
| Benthyg | 105 |
| Rhwymedigaethau hirdymor eraill | 25 |
| **Cyfanswm** | **130** |

Fel y gellir gweld o'r Fantolen ar 31 Mawrth 2017, £97.432 miliwn (£97.434 miliwn 2015-16) oedd cyfanswm y benthyciadau hirdymor a £21.064 miliwn (£21.759 miliwn 2015-16) oedd cyfanswm y rhwymedigaethau hirdymor, felly mae'r Cyngor wedi gweithredu'n unol â'r cyfyngiadau a bennwyd.

### 3. Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor

Gellir crynhoi'r cronfeydd ariannol wrth gefn a ddelir gan y Cyngor ar 31 Mawrth 2017 fel a ganlyn:-

| Balans Agoriadol 2016-17 £'000 | Cronfa wrth Gefn | Symudiad yn ystod 2016-17 | | Balans wrth Gau 2016-17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | | Ychwanegiadau/ Ail-ddosbarthiadau £'000 | Defnydd yn ôl Cyfarwyddiaeth £'000 | |
| 7,604 | Balans Cronfa'r Cyngor | 356 | - | **7,960** |
| 2,154 | Balans Dirprwyedig Ysgolion | - | (1,288) | **866** |
| 3,706 | Cydraddoli Menter Cyllid Preifat Ysgol Maesteg | 243 | - | **3,949** |
| 39,053 | Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd | 13,754 | (6,463) | **46,344** |
| **52,517** | **CYFANSWM GAN GYNNWYS CRONFA'R CYNGOR** | **14,353** | **(7,751)** | **59,119** |

Mae'r Balansau Ysgolion Dirprwyedig yn cynrychioli symiau a ddelir gan ysgolion sydd wedi eu hymrwymo i gael eu gwario ar ysgolion ac nad ydynt ar gael i'r Cyngor at ddefnydd cyffredinol. Er bod gan y rhan fwyaf o ysgolion falansau gwarged, mae rhai yn cario diffygion ymlaen i 2017-18. Yn unol â Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, ac yn rhan o ofynion y Cynllun Ariannol ar gyfer Ysgolion, gofynnwyd i ysgolion roi rhesymau am eu balansau. Gall y rhesymau gynnwys materion fel cofrestrau sy'n lleihau, addasiadau ôl-weithredol negyddol a mentrau a gynlluniwyd.

Sefydlwyd Cronfa Cydraddoli PFI Ysgolion Maesteg i dalu costau'r contract PFI yn y dyfodol, ac fel y cyfryw nid yw ar gael i'r Cyngor at ddefnydd cyffredinol.

**Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gadw cronfeydd ariannol wrth gefn digonol i ddiwallu anghenion y sefydliad. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys Protocol Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau'r Cyngor sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn pennu ac yn adolygu lefel balans ei Gronfa Cyngor a'i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd. Tynnwyd cyllid i lawr o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd penodol gan Gyfarwyddiaethau yn ystod 2016-17, a hysbyswyd y Cabinet am y rhain drwy'r Adroddiadau Monitro. Nodir manylion y symiau terfynol a dynnwyd i lawr gan Gyfarwyddiaethau isod:-

| | Tynnwyd i lawr o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd 2016-17 £'000 |
|---|---|
| **Addysg a Chymorth i Deuluoedd** | 2,543 |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant** | 1,806 |
| **Cymunedau** | 2,288 |
| **Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth** | 1,056 |
| **Prif Weithredwyr** | 58 |
| **Cyfanswm** | **7,751** |

£4.095 miliwn oedd y swm a dynnwyd i lawr o Gronfeydd Wrth Gefn Corfforaethol, £2.368 miliwn o Gronfeydd Wrth Gefn Cyfarwyddiaethau ac £1.288 miliwn o ran symudiad net ar falansau ysgolion.

Ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r Protocol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adolygu Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd presennol, ac ystyried ceisiadau gan Gyfarwyddiaethau ar gyfer Cronfeydd Wrth Gefn newydd neu Gronfeydd Wrth Gefn Corfforaethol ychwanegol yn seiliedig ar risgiau neu bwysau newydd. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn bellach gydag asesiad o'r risgiau a'r pwysau sy'n ddigon 'hysbys' neu 'debygol' dros gyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ac y mae angen Cronfa Wrth Gefn a Glustnodwyd ar eu cyfer felly. Mae'r adolygiad hwn wedi nodi'r angen am £10.416 miliwn i greu Cronfeydd Wrth Gefn Corfforaethol newydd neu wella rhai sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys cronfeydd wrth gefn i helpu i gefnogi'r Rhaglen Gyfalaf, i dalu costau ad-drefnu gwasanaethau yn y dyfodol (gan gynnwys taliadau diswyddo), i ddarparu cyllid ar gyfer Darpariaeth Gofal Ychwanegol fel y cytunwyd yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, i barhau gyda rhaglen Gweddnewid Digidol y Cyngor ac i adnewyddu Cronfa Wrth Gefn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Wrth benderfynu pa Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd Cyfarwyddiaethau sy'n ofynnol, rhoddwyd blaenoriaeth i'r rheini sy'n dangos risg sylweddol, y rheini sy'n ddigon 'hysbys' neu 'debygol' a'r rheini y mae angen rhoi cyllid o'r neilltu ar eu cyfer fel blaenoriaeth, gan roi ystyriaeth i unrhyw falansau cronfeydd wrth gefn presennol. £2.093 miliwn oedd cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Cyfarwyddiaethau newydd ac adnewyddiadau i rai presennol. £1 filiwn yw'r ychwanegiad mwyaf at y Gronfa Wrth Gefn Plant sy'n Derbyn Gofal i adnewyddu'r gronfa wrth gefn a'i gwella ymhellach ar ôl tynnu bron i £800,000 i lawr yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17. £12.509 miliwn yw cyfanswm yr ychwanegiadau/ailddosbarthiadau o ganlyniad i adolygiad y Prif Swyddog Cyllid.

Yn yr un modd â'r llynedd, o dan arferion cyfrifyddu cywir fel y nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol, dylid dadansoddi'r holl grantiau a chyfraniadau i weld a oes amodau penodol ynghlwm iddynt. Pan gaiff yr amodau eu bodloni mewn gwirionedd, caiff y grant ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pa un a yw'r gwariant gwirioneddol wedi cael ei wneud ai peidio. Yn yr achosion hyn, gall y Cyngor benderfynu trosglwyddo'r arian grant i Gronfa Wrth Gefn a Glustnodwyd i ariannu gwariant yn y dyfodol. Yn 2016-17, derbyniwyd £841,000 o grantiau, sydd wedi cael eu trosglwyddo, yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd i sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddiogelu yn unol â thelerau ac amodau gwreiddiol y grant neu'r cyfraniad.

Ceir nifer o Gronfeydd Wrth Gefn 'Cydraddoli Gwariant' hefyd. Mae'r Cronfeydd Wrth Gefn hyn yn sicrhau bod gwariant sy'n cael ei wneud yn ystod blwyddyn benodol yn y dyfodol yn cael ei gysoni dros gyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Mae'r rhain yn cynnwys costau Etholiadau, cyllid PFI Maesteg, costau Rheoli Adeiladau, prosiectau Cronfa Adfywio Arbennig a pharatoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Cynyddwyd y rhain £647,000 erbyn diwedd y flwyddyn.

Darperir dadansoddiad llawn o gyfanswm y symudiad ar Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar 31 Mawrth 2017 yn Nodyn 27 i'r Datganiadau Ariannol Craidd. £44.418 miliwn yw cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn ac eithrio Cydraddoli Grantiau a Gwariant, sy'n gynnydd o £4.758 miliwn o ddechrau'r flwyddyn ariannol. Bydd y tanwariant o £356,000 sy'n weddill ar y cyfrif yn cael ei drosglwyddo i Gronfa'r Cyngor.

### 4. Rhwymedigaeth Cronfa Pensiwn

Mae gwybodaeth ddatgelu am fuddion ymddeol yn y Datganiad o Gyfrifon yn seiliedig ar Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 19. Y rhwymedigaeth cronfa bensiwn a ddatgelir ar y Fantolen yw'r sefyllfa net gan gymryd gwerth tybiannol y Cyngor hwn o asedau'r gronfa, a'r swm o arian y mae angen ei roi o'r neilltu i fodloni'r pensiwn a enillwyd hyd at 31 Mawrth 2017. Bydd y diffyg hwn yn newid yn flynyddol yn dibynnu ar berfformiad buddsoddiadau, y tybiaethau actiwaraidd a wneir o ran pensiynwyr cyfredol, pensiynau wedi'u gohirio a chyflogeion cyfredol, a'r cyfraniadau a wneir at y gronfa. £252.450 miliwn yw'r Rhwymedigaeth Pensiwn ar gyfer 2016-17 (£245.270 miliwn yn 2015-16), cynnydd o £7.18 miliwn. Fe'i cyfatebir ar y Fantolen gyda Chronfa Bensiwn Wrth Gefn.

Mae'r tybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo'r rhwymedigaeth pensiwn wedi eu rhagnodi'n drwm gan y safon gyfrifyddu berthnasol (IAS19). Fodd bynnag, mae gan yr Actiwari fwy o annibyniaeth i ddefnyddio gwahanol dybiaethau, mwy penodol i'r Cyngor, wrth gyflawni ailbrisiad tair blynedd o'r Gronfa Bensiwn, a ddefnyddir i benderfynu ar gyfraddau cyfraniad y cyflogwr sy'n angenrheidiol i fodloni 100% o rwymedigaethau'r gronfa bensiwn. Gellid dadlau felly fod yr ailbrisiad tair blynedd yn ddynodiad mwy cywir o'r diffyg a fydd yn daladwy yn y dyfodol, a disgwylir i gyfraddau cyfraniad y cyflogwr fodloni'r diffyg hwn. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i fuddion a enillir gael eu cyllido wrth i'r Cyngor wneud cyfraniadau cyflogwr at gronfeydd pensiwn. O'r herwydd, er ei bod yn ofynnol i'r Cyngor gyflawni a datgelu'r rhwymedigaeth pensiwn seiliedig ar IAS19, bydd trefniadau statudol, wedi eu cyfuno ag asesiadau actiwariadd tair blynedd o rwymedigaeth cyflogwr, yn sicrhau y bydd cyllid wedi cael ei roi o'r neilltu erbyn yr adeg y bydd y buddion yn daladwy.

### 5. Y Prif Newidiadau i'r Cyfrifon ar gyfer 2016-17 o'u cymharu â 2015-16

Mae cyfrifon y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17 wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17 ('y Cod'). Mae hwn yn nodi'r egwyddorion a'r arferion cyfrifyddu sy'n ofynnol i baratoi Datganiad o Gyfrifon sy'n cyflwyno'n deg sefyllfa ariannol a thrafodion Awdurdod Lleol. Fel y nodir ar ddechrau'r Adroddiad Naratif, y prif newid yw cyflwyno 'Adrodd yr Hanes' a newidiadau i gyflwyniad gwybodaeth i gynorthwyo dealltwriaeth well o broses rheoli gwasanaethau'r Cyngor ac adlewyrchwyd hyn yn y gwaith o lunio'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2016-17.

### 6. Effaith yr Hinsawdd Economaidd Bresennol ar y Cyngor

Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn nodi y bydd nifer o ostyngiadau i gyllidebau yn anodd ac mae nifer o gynigion yn dibynnu ar ail-lunio ac ailfodelu gwasanaethau. Mae'n bwysig bod cynigion yn cael eu datblygu cyn gynted â phosibl ac y cedwir at amserlenni. Mae lefel y balansau a ddelir yn ddigonol i alluogi'r Cyngor i ymateb i ddigwyddiadau na ragwelwyd a chael eu cadw ar lefel ofynnol o £7 miliwn, gyda chynnydd wedi ei gynllunio yn unol â Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor o 2.7% o Wariant Refeniw Gros erbyn 2019-20. Mae'n rhaid rheoli gwariant gwasanaethau yn unol â chyllidebau i sicrhau nad yw sefyllfa ariannol y Cyngor yn cael ei pheryglu. Er bod amcanestyniadau o gyllid y dyfodol wedi cael eu gwneud ar gael, amcangyfrifon dynodol yn unig yw'r rhain a gallent newid ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

# Y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon

**Cyfrifoldebau'r Cyngor**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor:

- Wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Y Pennaeth Cyllid yw'r swyddog hwnnw yn y Cyngor hwn.
- Rheoli ei fusnes i sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau.
- Cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Llofnod: ______________________________________________

**Y Cynghorydd Lyn Walters** **28 Medi 2017**
**Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio**

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Adran 151**

Mae'r Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am baratoi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor yn unol ag arferion priodol fel y nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon hwn, mae'r Swyddog Adran 151 wedi:

- dethol polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus
- cydymffurfio â'r Cod Awdurdodau Lleol.

Mae'r Swyddog Adran 151 hefyd wedi:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd yn gyfredol
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

**Tystysgrif y Swyddog Adran 151**

Ardystiaf fod y Datganiad o Gyfrifon yn cyflwyno safbwynt gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 31 Mawrth 2017 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

Llofnod: ______________________________________________

**Randal Hemmingway** **28 Medi 2017**
**Swyddog A.151 a Phennaeth Cyllid**

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2016-17

## 1. Cwmpas Cyfrifoldeb

1.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gyflawni yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, ei gyfrifyddu'n briodol ac yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

1.2 Mae gan y Cyngor ddyletswydd hefyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus i arfer ei swyddogaethau o ran effeithiolrwydd strategol, ansawdd gwasanaethau, argaeledd gwasanaethau, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac arloesedd.

1.3 Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau cyffredinol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod ganddo drefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei fusnes a system gadarn o reolaeth fewnol sy'n hwyluso arfer effeithiol ei swyddogaethau ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

a. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol sy'n cyd-fynd â'r fframwaith a ddatblygwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE) (argraffiad 2007).

b. Yn 2016, cyhoeddodd CIPFA a SOLACE ddogfen ddiwygiedig *Delivering Good Governance in Local Government Framework* a *Delivering Good Governance in Local Governance Guidance Notes for Welsh Authorities*. Mae'r Fframwaith diwygiedig yn sefydlu set newydd o saith egwyddor sy'n nodweddiadol o lywodraethu effeithiol ar gyfer pob corff awdurdod lleol. Mae'r egwyddorion hyn wedi disodli'r rheini a nodwyd yn flaenorol yn 2007. Mae'r Cyngor wedi adolygu ei God Llywodraethu Corfforaethol i adlewyrchu'r egwyddorion newydd hyn.

1.6 Cytunwyd yn dilyn trafodaeth gyda Swyddfa Archwilio Cymru y bydd 2016-17 yn flwyddyn bontio o ran y ffordd y mae'r Cyngor yn llunio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol. At ddibenion yr adroddiad hwn, mae'r Cyngor wedi dilyn y chwe egwyddor hanesyddol a nodwyd yn Fframwaith 2007 i ddangos llywodraethu cryf ac mae wedi cynnwys tystiolaeth i gefnogi llywodraethu yn erbyn yr egwyddorion newydd lle'n bosibl. Bydd y Cyngor yn dilyn yr egwyddorion newydd y flwyddyn nesaf wrth lunio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol yn unol â fframwaith newydd 2016.

## 2. Diben y Fframwaith Llywodraethu

2.1 Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau, y prosesau a'r gwerthoedd y caiff y Cyngor ei gyfarwyddo a'i reoli ganddynt a'r modd y mae'n atebol i'r gymuned leol, yn ymgysylltu â hi ac yn ei harwain. Mae'n galluogi'r Cyngor i fonitro cyflawniad ei amcanion strategol ac i ystyried pa un a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol a chost-effeithiol.

2.2 Mae'r system o reolaeth fewnol yn rhan arwyddocaol o'r fframwaith hwnnw ac mae wedi ei ddylunio i wneud defnydd priodol o gyllid cyhoeddus a'u hatal rhag cael eu colli. Mae hefyd yn cynorthwyo gyda rheoli'r risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Nid yw'n cael gwared ar bob risg; mae'r system o reolaeth fewnol wedi ei dylunio i nodi a blaenoriaethu risgiau, i werthuso tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n ymddangos ac i reoli eu heffaith.

2.3 Mae'r paragraffau canlynol yn crynhoi'r fframwaith llywodraethu a'r system o reolaeth fewnol, sydd wedi bod ar waith yn y Cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017.

Mae’r disgrifiad o’r trefniadau sydd ar waith wedi ei seilio ar yr egwyddorion craidd a nodir yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor.

### 3. Y Fframwaith Llywodraethu

Mae’r tabl isod yn amlinellu’r fframwaith llywodraethu y caiff y Cyngor ei gyfarwyddo a’i reoli ganddo ac y mae’n atebol i’w gymunedau, yn ymgysylltu â nhw a, phan fo’n briodol, yn eu harwain drwyddo.

| **Dogfennau Allweddol: Adolygiad / Llunio Blynyddol** | **Dogfennau Allweddol: Adolygiad / Llunio Ad hoc** | **Monitro Proses / Rheoliadau** |
|---|---|---|
| Cynllun Corfforaethol<br>Strategaeth Ariannol<br>Tymor Canolig<br>Adroddiad Blynyddol<br>Datganiad Llywodraethu<br>Blynyddol<br>Cynllun Rheoli Asedau<br>Llyfr Cyllideb<br>Strategaeth Cyfathrebu,<br>Marchnata ac<br>Ymgysylltu<br>Cod Llywodraethu<br>Corfforaethol<br>Asesiad Risg<br>Corfforaethol<br>Cynlluniau Busnes<br>Cyfarwyddiaethau<br>Adroddiad Cydnerthedd<br>Ariannol<br>Cynllun Partneriaeth<br>Integredig Sengl<br>Datganiad o Gyfrifon<br>Strategaeth Rheoli<br>Trysorlys<br>Cynllun Gweithlu | Polisi Gwrth-dwyll a Llwgrwobrwyo<br>Polisi Gwrth-wyngalchu arian<br>Asesiad o Lesiant Lleol<br>Cynlluniau Parhad Busnes<br>Cod Ymddygiad – Rhan 5 y<br>Cyfansoddiad<br>Cyfansoddiad<br>Rheolau Gweithdrefn Contract<br>Polisi Cwynion Corfforaethol<br>Hyfforddiant a Datblygiad<br>Corfforaethol<br>Strategaeth Dysgu a Datblygu<br>Aelodau Etholedig<br>Rheolau Gweithdrefn Ariannol<br>Dadansoddiad o’r Bylchau/Polisi<br>Iechyd a Diogelwch<br>Protocolau a Chanllawiau Rheoli<br>Adnoddau Dynol<br>Strategaeth Technoleg<br>Gwybodaeth a Chyfathrebu<br>Strategaeth Rheoli Gwybodaeth<br>Fframwaith Rheoli Perfformiad<br>Cofnod o Benderfyniadau<br>Ymgynghoriad Llunio Dyfodol<br>Pen-y-bont ar Ogwr<br>Gweithdrefn Sylwadau a<br>Chwynion Gwasanaethau<br>Cymdeithasol<br>Cynllun Cydraddoldeb Strategol<br>Polisi Chwythu’r Chwiban | Pwyllgor Archwilio<br>Adroddiad Gwella Blynyddol<br>(Swyddfa Archwilio Cymru)<br>Adroddiadau Monitro<br>Cyllidebau i’r Cabinet a<br>Phwyllgorau Craffu<br>Panel Dinasyddion<br>Asesiad Corfforaethol<br>(Swyddfa Archwilio Cymru)<br>Polisi Diogelu Corfforaethol<br>Asesiad Perfformiad<br>Corfforaethol<br>Taflen Treth Gyngor<br>Archwiliad Allanol<br>Blaenraglen Waith ar gyfer<br>Pwyllgorau<br>Rhyddid Gwybodaeth<br>Pennaeth Cyllid – Swyddog<br>a151<br>Adroddiadau Arolygiaeth<br>Archwiliad Mewnol<br>Disgrifiadau Swydd<br>Proses Gwerthuso Swyddi<br>Cyfraith a Llywodraethu<br>Datblygu ac Ymsefydlu<br>Aelodau<br>Swyddog Monitro<br>Pwyllgorau Rheoleiddio,<br>Craffu a Safonau<br>Cynllun Dirprwyo<br>Ymsefydlu Staff<br>Adroddiadau Monitro Rheoli’r<br>Trysorlys |

3.1 Mae’r chwe egwyddor llywodraethu corfforaethol (Fframwaith 2007) sy’n sail i lywodraethu effeithiol pob corff awdurdod lleol fel y’u diffiniwyd gan CIPFA a SOLACE ac a fabwysiadwyd gan y Cyngor fel a ganlyn:

- Canolbwyntio ar ddiben y Cyngor ac ar ganlyniadau i’r gymuned a llunio a gweithredu gweledigaeth ar gyfer yr ardal leol; (Rhoi’r Dinesydd yn Gyntaf; Sicrhau Gwerth am Arian).
- Aelodau a swyddogion yn gweithio gyda’i gilydd i gyflawni diben cyffredin â swyddogaethau wedi’u diffinio’n eglur; (Gwybod Pwy sy’n Gwneud Beth a Pham);
- Hybu gwerthoedd i’r Cyngor a dangos gwerthoedd llywodraethu da trwy sicrhau safonau uchel o ymddygiad; (Living Public Service Values);
- Gwneud penderfyniadau cytbwys a thryloyw sy’n destun craffu effeithiol a rheoli risg;

(Meithrin Darpariaeth Arloesol);
- Datblygu capasiti a gallu Aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol; (Bod yn Sefydliad sy'n Dysgu);
- Ymgysylltu â phobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn; (Ymgysylltu ag Eraill).

3.2 Mae'r Cyngor wedi nodi'r pwyntiau canlynol wrth gasglu tystiolaeth o dan bob un o'r egwyddorion i gael sicrwydd bod llywodraethu o fewn y Cyngor yn gadarn. Amlinellir egwyddorion newydd 2016 mewn cromfachau pan fo'n bosibl mapio'r rhain yn erbyn yr egwyddorion hanesyddol yn unol â chanllawiau CIPFA 2016.

**4. Egwyddor 1 – Canolbwyntio ar ddiben y Cyngor ac ar ganlyniadau i'r gymuned a llunio a gweithredu gweledigaeth ar gyfer yr ardal leol (*CIPFA 2016 - Egwyddor C – Diffinio canlyniadau o ran manteision economaidd, cymdeithasol, ac amgylcheddol cynaliadwy)***

4.1 Mae gan y Cyngor weledigaeth eglur - un Cyngor yn gweithio gyda'i gilydd i wella bywydau. Yn 2016, datblygodd y Cyngor set newydd o flaenoriaethau corfforaethol gan ddiffinio canlyniadau eglur ar gyfer pob blaenoriaeth. Lluniwyd cynllun corfforaethol newydd ar gyfer 2016-2020 i wireddu'r weledigaeth ac i ddarparu canlyniadau i'r bobl leol, gan gymryd yr heriau sylweddol sy'n wynebu ein cymunedau i ystyriaeth - yn enwedig y gofynion cynyddol a wneir o lawer o'n gwasanaethau yn erbyn cefndir o ostyngiadau a ragwelir i gyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun newydd yn nodi sut y bydd y Cyngor yn newid a beth fydd ei ganolbwynt dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r tair blaenoriaeth gorfforaethol fel a ganlyn:

- Cefnogi economi lwyddiannus
- Helpu pobl i ddod yn fwy hunanddibynnol
- Defnyddio adnoddau'n ddoethach

4.2 Mae'r Cyngor wedi adolygu'r blaenoriaethau hyn yn ddiweddar yn erbyn gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ogystal â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, gan benderfynu mai'r tair blaenoriaeth hon yw ei amcanion gwella o dan y Mesur ac amcanion llesiant o dan y Ddeddf. Mae'r Cynllun Corfforaethol a adolygwyd ar gyfer 2017-18 wedi adlewyrchu'r diwygiadau hyn. Mae hefyd wedi ymsefydlu cyflwr llesiant y Cyngor, sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, yn y ddogfen, ac mae'n nodi sut mae ein blaenoriaethau'n cysylltu â'r sail nod llesiant cenedlaethol.

4.3 Mae'r weledigaeth, yr egwyddorion a'r blaenoriaethau gwella a nodir yn y Cynllun Corfforaethol sydd ar gael drwy'r ddolen hon http://www1.bridgend.gov.uk/media/414513/cynllun-corfforaethol-2016-2020.pdf yn rhoi'r cyfeiriad ar gyfer datblygu Cynlluniau Busnes y Cyfarwyddiaethau. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi nifer o ddangosyddion llwyddiant sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, y mae rhai ohonynt yn fesurau meincnodi. Nod y dangosyddion sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun yw mesur llwyddiant ein canlyniadau a chynnig tystiolaeth o'n gwaith cydgysylltiedig gyda dinasyddion a phartneriaid, yn ogystal â darparu mesur o berfformiad. Caiff y rhain eu hadrodd i banel Asesu Perfformiad Corfforaethol yn rheolaidd ac maent yn destun craffu ddwywaith y flwyddyn.

4.4 Ochr yn ochr â'r Cynllun Corfforaethol, cymeradwywyd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gan y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2016-17 i 2019-20 sydd ar gael drwy'r ddolen hon https://democratic.bridgend.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=142&MId=2341&LLL=1. Mae hon yn cynnig fframwaith cynllunio ac ariannol integredig ar gyfer y pedair blynedd nesaf, gan gynnwys y strategaeth gyllideb fanwl ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r gyllideb refeniw flynyddol a'r blaengynllun ariannol ynghyd â'r rhaglen gyfalaf yn galluogi'r Cyngor i alinio ei adnoddau ariannol â'i flaenoriaethau newydd. Cyflwynir adroddiadau monitro cyllidebau tri misol

i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu, gyda'r Pwyllgor Craffu ar Adnoddau a Gwelliant Corfforaethol wedi ei enwebu fel y Pwyllgor Craffu arweiniol.

4.5 Mae gan y Cyngor amrywiaeth o brosiectau a rhaglenni ar y gweill i sicrhau bod y blaenoriaethau gwella yn cael eu cyflawni ac yn darparu arweinyddiaeth gorfforaethol sy'n cefnogi newid drwy'r Cyngor cyfan. Mae Bwrdd Rheoli'r Rhaglen Gorfforaethol yn goruchwylio nifer o fentrau pwysig i gyflawni newid:

- Rhaglen moderneiddio ysgolion;
- Ailfodelu Gofal Cymdeithasol i Oedolion;
- Ailfodelu Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant;
- Rhaglen Economi Lwyddiannus;
- Adolygiad Strategol o'r Cwricwlwm a'r Ystad Ysgolion;
- Rhaglen Trydydd Sector;
- Rhaglen Gweddnewid Digidol;
- Symleiddio'r rhaglen Ystadau; a
- Phrosiectau cydweithredu strategol e.e. Bargen ddinesig.

4.6 Mae'r Cyngor yn gweithio ar y cyd â nifer o bartneriaid gan ddarparu gwasanaethau ar y cyd i sicrhau cymaint o arbedion effeithlonrwydd â phosibl a gwella canlyniadau er budd ein dinasyddion. Mae mentrau cydweithredol allweddol yn cynnwys: Cyd-wasanaeth Rheoleiddio, Consortiwm Canolbarth y De, Bae'r Gorllewin, HALO, Awen, Amlosgfa Llangrallo. Caiff y partneriaethau hyn eu monitro gan yr aelodau etholedig hynny a benodwyd gan y Cabinet/ Cyngor i gynrychioli buddiannau'r Cyngor ar y corff allanol yn y lle cyntaf. Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hefyd yn derbyn adroddiadau gan bartneriaeth Cyngor sy'n galluogi Aelodau Etholedig i fonitro'r trefniadau llywodraethu a'r canlyniadau sy'n cael eu darparu.

4.7 Archwiliodd Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) Gynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2016-17, ac un ar gyfer 2017-18 hefyd, ac ardystiodd ar gyfer bob blwyddyn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) y Mesur ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

4.8 Archwiliodd yr Archwilydd Cyffredinol asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn 2016-17 hefyd, yn unol â'r Mesur a'r Cod Ymarfer Archwilio, ac ardystiodd ym mis Tachwedd 2016 bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

4.9 Roedd gweithgareddau eraill sy'n dangos ymrwymiad y Cyngor i Egwyddor 1 - **"Rhoi'r Dinesydd yn Gyntaf**", yn cynnwys:

- Defnydd parhaus o'r Panel Dinasyddion (grŵp cynrychiadol o fwy na 1,500 o drigolion 16 oed a hŷn) a gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu cyhoeddus helaeth a gyflawnwyd gyda dinasyddion ar wahanol wasanaethau a pholisïau'r Cyngor gan gynnwys cynigion lleihau;
- Darparu Strategaeth Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu 2016-17 y Cyngor
- Ymateb uchaf yn ôl % o drigolion Cymru i'r ymgynghoriad cyllideb.
- Cynyddu'r amrywiaeth o ffyrdd y gall dinasyddion gwblhau arolygon h.y. bwrdd gwaith, llechen neu ffôn symudol.
- Cyflwyno cronfa ddata negeseuon e-bost (yn ogystal â'r Panel Dinasyddion o fwy na 1,500 o drigolion sydd wedi gofyn i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am ymgynghoriadau allweddol.
- Gweithgareddau ymgysylltu a chynnwys dinasyddion i hysbysu Asesiad o Lesiant Pen-y-bont ar Ogwr, ac ymgynghoriad cyhoeddus ar yr asesiad drafft a ddatblygwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

## 5. Egwyddor 2 - Aelodau a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni diben cyffredin â swyddogaethau wedi'u diffinio'n eglur

5.1 Nod y Cyngor yw sicrhau bod y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau ar gyfer llywodraethu wedi eu diffinio a'i neilltuo fel bod atebolrwydd am benderfyniadau a wneir a chamau a gymerir yn eglur. Mae'n gweithredu system Arweinydd a Chabinet sy'n gwneud y canlynol:

- Mae'r Cyngor yn pennu'r gyllideb gyffredinol ac yn penodi Arweinydd y Cyngor;
- Mae'r Arweinydd yn penodi aelodau o'r Cabinet ac yn cyhoeddi'r Dirprwy Arweinydd a'r portffolio o Aelodau Cabinet, y caiff eu manylion eu cyhoeddi ar y wefan;
- Mae gan y Pwyllgor Archwilio swyddogaeth wedi'i diffinio'n eglur sy'n rhoi sicrwydd annibynnol o addasrwydd y fframwaith rheoli risg a'r amgylchedd rheoli cysylltiedig, craffu annibynnol ar berfformiad ariannol ac nad yw'n ariannol y Cyngor i'r graddau y mae'n effeithio ar amlygiad y Cyngor i risg ac yn gwanhau'r amgylchedd rheolaeth, ac i oruchwylio'r broses adrodd ariannol. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn penodi ei Gadeirydd ei hun;
- Ceir cyfanswm o bum Pwyllgor Craffu sy'n cynghori ar lunio polisi ac yn dwyn y Cabinet i gyfrif o ran materion penodol. Gallant hefyd adolygu meysydd o weithgarwch nad yw'r Cabinet yn gyfrifol amdanynt neu faterion o bryder lleol ehangach;
- Mae Pwyllgorau Rheoleiddio (e.e. Trwyddedu, Rheoli Datblygiad) ar waith i benderfynu ar faterion fel y'u diffinnir yng Nghyfansoddiad y Cyngor;
- Mae'r Cabinet yn gwneud penderfyniadau o fewn y fframwaith hwn ond caiff rhai penderfyniadau eu dirprwyo i unigolion yn y Cabinet, pwyllgorau'r Cabinet neu swyddogion; ac
- Mae trefniadau eglur ar waith i gofnodi penderfyniadau a wneir gan Aelodau'r Cabinet a swyddogion o dan bwerau dirprwyedig.

5.2 Ceir Pwyllgor Safonau i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr Tref a Chymuned a Chynghorwyr Bwrdeistref Sirol, aelodau lleyg, aelodau cyfetholedig a Chynrychiolwyr yr Eglwys a Rhiant-lywodraethwyr. Ceir cyfanswm o 8 aelod i'r Pwyllgor, yn cynrychioli'r uchod.

5.3 Mae'r Cyfansoddiad yn ganolog i fusnes y Cyngor ac yn neilltuo cyfrifoldeb o fewn y Cyngor. Mae hefyd yn darparu fframwaith sy'n rheoleiddio ymddygiad unigolion a grwpiau trwy godau ymddygiad, protocolau a rheolau sefydlog.

5.4 Mae'r Cyfansoddiad yn ddogfen gynhwysfawr sy'n cael ei hadolygu'n barhaus gan y Swyddog Monitro. Mae'n darparu pwynt cyfeirio i unigolion a sefydliadau y tu mewn a'r tu allan i'r Cyngor. Mae ei Reolau Gweithdrefn yn llywodraethu'r fframwaith cyffredinol y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol ag ef. Mae rheolau gweithdrefnol a chodau ymddygiad yn amlinellu sut y bydd y Cyfansoddiad yn cael ei roi ar waith. Er bod y Cyfansoddiad yn ofynnol yn ôl statud, nid yw ei gynnwys wedi ei ragnodi'n llawn. Mae'r Cyngor yn fodlon ei fod yn cyd-fynd â statud, rheoliadau a chanllawiau. Y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth yw'r Swyddi Monitro a benodwyd o dan Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Deiliad y swydd sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau cydymffurfiad â'r gyfraith ac mae ei staff yn gweithio'n agos gydag adrannau i gynghori ar faterion cyfreithiol.

5.5 Mae gan yr holl Bwyllgorau gylchoedd gorchwyl eglur sy'n nodi eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau a'u rhaglenni gwaith. Caiff y rhain eu hadolygu gan y pwyllgor yn ystod y flwyddyn a'u diweddaru yn ôl y gofyn. Mae'r Pwyllgor Archwilio, trwy ei raglen waith, yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ynghylch effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu risg, y fframwaith rheoli risg a'r amgylchedd rheolaeth fewnol.

5.6 Prif Weithredwyr y Cyngor (fel Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig) sy'n arwain swyddogion y Cyngor ac yn cadeirio'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol. Cynigiwyd newidiadau i'r strwythur rheoli gan y Prif Weithredwr (ar ôl i'r swydd Cyfarwyddwyr Corfforaethol – Adnoddau ddod yn wag) ac fe'u cytunwyd gan y Cyngor ym mis Ebrill 2016.

5.7 Ers cael gwared ar y swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol, enwebwyd y Pennaeth Cyllid fel Swyddog Adran 151 y Cyngor, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ac mae'n meddu ar y cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu Datganiad CIPFA ar Swyddogaeth y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol (2010). Mae'r swyddogaeth cyllid corfforaethol yn darparu amrywiaeth o gefnogaeth i adrannau ac yn pennu'r broses paratoi cyllidebau a monitro ariannol. Er nad yw'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, mae'r Swyddog Adran 151 yn aelod o'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol ar yr un sail ag aelodau eraill.

.

5.8 Y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yw'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol statudol, fel y diffinnir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, sy'n amlinellu'r chwe chyfrifoldeb craidd ar draws yr holl swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys sicrhau bod gan y Cyngor fesurau diogelu priodol i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. Yn dilyn newidiadau a wnaed ym mis Rhagfyr 2014, y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant sydd â chyfrifoldeb rheoli llinell am y swyddogaethau gofal cymdeithasol ar gyfer plant ac oedolion erbyn hyn. Mae hyn wedi galluogi i'r ffyrdd newydd o weithio a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gael eu hymsefydlu yn y gwasanaeth. Mae adroddiad AGGCC o 2014-15, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2015, yn cydnabod bod y newidiadau hyn wedi creu capasiti arweinyddiaeth ychwanegol i ymateb i'r heriau yn y gwasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol.

5.9 Newidiwyd swyddogaeth y Prif Weithredwr Cynorthwyol yn y Cyngor ym mis Ebrill 2016 i swyddogaeth Cyfarwyddwyr Corfforaethol Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethau, gan gydnabod maint a chymhlethdod portffolio mwy o wasanaethau.

5.10 Y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gweddnewid gynt, tan fis Ebrill 2016) yw'r Prif Swyddog Addysg, fel y rhagnodir gan Ddeddf Addysg 1996 a'r Cyfarwyddwr Plant a Phobl Ifanc, fel y diffinnir gan Ddeddf Plant 2004. Mae deiliad presennol y swydd wedi mynd at secondiad i Lywodraeth Cymru a phenodwyd Pennaeth Gwasanaeth dros dro ym mis Ebrill 2017 i gyflawni ei swyddogaeth yn ystod cyfnod y secondiad.

5.11 Nod Cynllun Gweithlu'r Cyngor yw nodi materion gweithlu critigol a darparu dull strwythuredig a chydgysylltiedig o gynyddu capasiti a gallu ein gweithlu. Caiff y cynllun ei ddiweddaru'n flynyddol gan yr adran Adnoddau Dynol mewn ymgynghoriad â Rheolwyr Busnes, ac mae'n ymgorffori cynllun gweithredu Adnoddau Dynol a Chynllun Gweithredu ar Ddatblygu Sefydliadol. Fe'i cymeradwyir gan y Bwrdd Rheoli Corfforaethol.

5.12 Darperir cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer meysydd o flaenoriaeth, naill ai trwy hyfforddiant ac e-ddysgu wyneb yn wyneb wedi'u targedu, y gall cyflogeion gael mynediad atynt trwy system rheoli dysgu. Darperir a chyd-gysylltir hyfforddiant arbenigol gan feysydd gwasanaeth hefyd, sy'n cynnwys hyfforddiant i fodloni gofynion deddfwriaethol newydd.

5.13 Caiff anghenion hyfforddi eu nodi drwy'r broses gwerthuso cyflogeion lle gall rheolwyr nodi gyda chyflogeion eu hanghenion datblygu. Mae Fframwaith Hyfforddiant Craidd ar gael sy'n cynnig manylion hyfforddiant corfforaethol sydd ar gael i gynorthwyo'r broses hon.

5.14 Mae disgrifiadau swydd ar gael sy'n nodi diben y swydd ac yn crynhoi prif gyfrifoldebau a gweithgareddau'r swydd. Caiff y rhain eu hadolygu yn rhan o'r broses werthuso. Cynhelir

gwerthusiadau rhwng mis Ionawr a mis Mehefin bob blwyddyn ac mae camau a thargedau yn gysylltiedig â blaenoriaethau gwasanaeth a adlewyrchir mewn cynlluniau busnes blynyddol.

5.15 Nodir telerau ac amodau cyflogaeth ar gyfer yr holl gyflogeion trwy eu Datganiadau Ysgrifenedig o Fanylion Cyflogaeth. Mae'r rhain yn cynnwys telerau ac amodau cyflogaeth cenedlaethol a'r rhai a gytunir yn lleol, e.e. Cynllun Cyflog a Graddio'r Cyngor

5.16 Mae polisïau, protocolau a chanllawiau rheolwyr Adnoddau Dynol ar gael a chânt eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth cyflogaeth ac arfer gorau ac yn diwallu anghenion sefydliadol. Caiff y rhain eu datblygu mewn ymgynghoriad â chydweithwyr cyfreithiol a chynrychiolwyr Undebau Llafur. Caiff y polisïau allweddol eu cymeradwyo gan y Cabinet.

5.17 Mae cymorth iechyd a llesiant ar gael i gyflogeion trwy gynllun cwnsela a chymorth cyflogeion Care First sy'n cynnig mynediad 24/7 at gwnsela a chyngor ar amrywiaeth eang o faterion gweithle a phersonol, yn ogystal â rhaglen i helpu i wella iechyd a llesiant cyflogeion.

5.18 Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor, a ddiwygiwyd ac a fabwysiadwyd gan y Cabinet ym mis Mehefin 2014, yn parhau i lywio prosesau ac arfer cynllunio Corfforaethol, busnes ac ariannol a rheoli perfformiad integredig y Cyngor. Mae'r Fframwaith wedi ei strwythuro ar sail y model 'Cynllunio, Gwneud, Adolygu, Diwygio'. Mae'n diffinio'n eglur prosesau a gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer rheoli perfformiad ar bob cam, gan gynnwys data monitro a pherfformiad. Mae'n sefydlu swyddogaethau a chyfrifoldebau aelodau, rheolwyr a staff drwy'r cylch. Mae'n dangos y berthynas rhwng proses a chynlluniau ar lefelau Corfforaethol, Cyfarwyddiaeth a Gwasanaeth, gan gysylltu â gwerthusiadau unigol. Mae'n cynnwys disgwyliadau o ran arddull ac ymddygiad rheolwyr i gynorthwyo esblygiad pellach diwylliant cryf o hunanasesu.

5.19 Yn ystod 2016-17, cryfhaodd y Cyngor y Bwrdd Rheoli Corfforaethol i herio o ran Rheoli Perfformiad, i ategu'r Asesiad Perfformiad Corfforaethol. Datblygodd yr her strwythuredig hon y defnydd o Ddangosyddion Perfformiad sy'n gysylltiedig â gwella gwasanaethau ymhellach, gan ehangu'r cyfleoedd am drafodaeth fwy manwl o faterion perfformiad. Datblygwyd y system Rheoli Perfformiad ymhellach i adlewyrchu'r newidiadau hyn ac mae'n parhau i ddarparu gwybodaeth reoli amserol a chyson ar gyfer rheoli gwelliant gwasanaethau a gwneud penderfyniadau.

5.20 Nododd yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad Asesu Corfforaethol, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016, bod y Cyngor wedi egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau ac wedi sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer dwyn pobl i gyfrif. Canfu hefyd bod aelodau'r Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol yn cydweithio'n agos i ddatblygu'r opsiynau ar gyfer swyddogaeth y Cyngor yn y dyfodol ac i nodi cyfleoedd newydd ar gyfer ymgysylltu â chymunedau lleol.

**6. Egwyddor 3 - Hybu gwerthoedd i'r Cyngor a dangos gwerthoedd llywodraethu da trwy sicrhau safonau uchel o ymddygiad (*CIPFA 2016 - Egwyddor A - Ymddwyn gydag uniondeb, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith)***

6.1 Ceir gweledigaeth eglur ar gyfer y Cyngor, sef gweithredu fel 'Un Cyngor yn gweithio gyda'i gilydd i wella bywydau' bob amser'. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd yn dod yn awdurdod llai, mwy hyblyg ac arloesol sy'n gweithio gyda phartneriaid a chymunedau lleol i greu dyfodol lle mae gan drigolion fynediad at wasanaeth mwy ymatebol ac wedi'i deilwra. Bydd hefyd yn golygu bod trigolion yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am wneud i hynny ddigwydd, er eu lles eu hunain ac er lles y gymuned yn ei chyfanrwydd. Nodir y gwerthoedd hyn yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor.

6.2 Wrth ddatblygu ei Gynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2016-2020, nododd y Cyngor set newydd o egwyddorion. Datblygwyd y rhain er mwyn helpu i lywio'r Cyngor i fod yn fath o sefydliad y mae angen iddo fod er mwyn ymateb i heriau newydd.

6.3 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio a ddarperir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Penododd y Cyngor Aelod Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol i arwain gweithrediad y Ddeddf. Mae'r Cyngor wedi integreiddio cynllunio llesiant i'r broses cynllunio corfforaethol a busnes. Mae'r Cyngor yn adolygu ei Fframwaith Rheoli Perfformiad i sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn sail i bopeth y mae'n ei wneud: cynllunio-gwneud-adolygu-diwygio.

6.4 Caiff ymddygiad aelodau etholedig a swyddogion ei lywodraethu gan godau ymddygiad. Darperir hyfforddiant i aelodau etholedig yn unol â'r Strategaeth Dysgu a Datblygu Aelodau Etholedig a gymeradwyir gan y Cyngor ac a gyd-gysylltir gan y Gwasanaethau Democrataidd. Mae pynciau'n cynnwys cod ymddygiad, datganiadau o fuddiant a phynciau eraill sy'n egluro ymddygiad aelodau etholedig. Nodwyd bod rhywfaint o hyfforddiant, yn ymwneud â swyddogaethau rheoleiddio'n benodol, yn orfodol i sicrhau bod gan Aelodau Etholedig ddealltwriaeth lawn o'u swyddogaeth cyn iddynt wneud penderfyniadau allweddol. Mae'r Gwasanaethau Democrataidd hefyd yn monitro hyfforddiant, yn darparu hysbysiadau atgoffa ac yn cynnal dogfennau a chyhoeddi amrywiaeth o ddogfennau a chofrestrau gan gynnwys y gofrestr o Roddion a Lletygarwch i Aelodau Etholedig a Swyddogion.

6.5 Mae'r Cyngor yn rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn i dwyll, llygredd a chamweinyddu ac mae ganddo'r gweithdrefnau a'r polisïau canlynol, sydd â'r nod o atal neu ymdrin â digwyddiadau o'r fath;

- Polisi Gwrth-dwyll a Llwgrwobrwyo
- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Polisi Gwrth-wyngalchu Arian
- Polisïau Adnoddau Dynol ar ddisgyblu staff sy'n rhan o ddigwyddiadau o'r fath
- Polisi Cwynion Corfforaethol
- Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol
- Rheolau Gweithdrefn Ariannol
- Rheolau Gweithdrefn Contract

6.6 Caiff ymddygiad Aelodau ei fonitro gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac mae'r safonau'n adlewyrchu Gwerthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Mae Pwyllgor Safonau'r Cyngor hefyd yn ystyried unrhyw adroddiadau a gyflwynir gan yr Ombwdsmon a'r Swyddog Monitro ac unrhyw sylwadau a dderbynnir yn ymwneud ag achosion honedig o ddiffyg cydymffurfiad â'r Cod Ymddygiad. Ni fu cyfeiriad at y Pwyllgor Safonau o ran aelod o'r Cyngor ers blynyddoedd lawer ac mae'r Swyddog Monitro wedi defnyddio'r protocol anffurfiol mewnol a gymeradwywyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn llwyddiannus.

6.7 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn helpu i godi proffil rheolaeth fewnol a rheoli risg o fewn y Cyngor. Mae hyn yn cynyddu ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn llywodraethu ariannol y Cyngor.

6.8 Mae gan y Cyngor brotocol ar gyfer y defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol. http://www.bridgend.gov.uk/cy/canolfan-y-cyfryngau/telerau-ac-amodau/cyfryngau-cymdeithasu-a-chi.aspx. Nod hwn yw bod yn eglur ynghylch sut y bydd y Cyngor yn ymgysylltu â defnyddwyr ac yn rheoli disgwyliadau.

## 7. Egwyddor 4 - Gwneud penderfyniadau cytbwys a thryloyw sy'n destun craffu effeithiol a rheoli risg *(CIPFA 2016 - Egwyddor F – Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheoli ariannol cyhoeddus cryf)*

7.1 Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi sut y mae'r Cyngor yn gweithredu a'r broses ar gyfer polisi a gwneud penderfyniadau. Caiff penderfyniadau allweddol eu gwneud gan y Cabinet o fewn y

framwaith hwn. Mae holl gyfarfodydd y Cabinet yn agored i'r cyhoedd (ac eithrio ar yr adegau cyfyngedig pan fo eitemau wedi'u heithrio neu'n gyfrinachol).

7.2 Caiff yr holl benderfyniadau a wneir gan y Cabinet eu gwneud ar sail adroddiadau ysgrifenedig, gan gynnwys asesiadau o'r goblygiadau cyfreithiol, ariannol, a chydraddoldebau. Mae ymgynghori (gan gynnwys gydag aelodau ward pan fo'n briodol) yn rhan arferol o'r broses.

7.3 Caiff y broses o wneud penderfyniadau ei monitro gan bum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, sy'n cefnogi gwaith y Cyngor yn ei gyfanrwydd. Mae cyfansoddiad y Cyngor yn darparu i Gadeiryddion y pwyllgorau hyn gael eu penodi yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol yr aelodau etholedig sy'n ffurfio'r Cyngor. Gall aelodau Pwyllgor Craffu "alw i mewn" penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ond na roddwyd ar waith eto. Gallent argymell bod y Cabinet yn ailystyried y penderfyniad. Gall y Cabinet neu'r Cyngor hefyd ymgynghori â nhw ar benderfyniadau sydd ar fin cael eu gwneud ac ar ddatblygiad polisi.

7.4 Caiff penderfyniadau eraill eu gwneud gan Aelodau Cabinet yn unigol neu gan swyddogion o dan bwerau dirprwyedig. Nodir yr awdurdod i wneud penderfyniadau gweithredol o ddydd i ddydd yn y Cynlluniau Dirprwyo.

7.5 Mae polisïau a gweithdrefnau sy'n cynorthwyo llywodraethiad gweithrediadau'r Cyngor yn cynnwys Rheolau Gweithdrefn Ariannol; Rheolau Gweithdrefn Contract; y Polisi Grantiau a'r Polisi Rheoli Risg Corfforaethol. Mae gan yr holl reolwyr gyfrifoldeb i sicrhau cydymffurfiad â'r polisïau hyn.

7.6 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull rheoli categori o gaffael. Dull strategol yw hwn lle caiff ein hadnoddau caffael eu trefnu i ganolbwyntio ar feysydd gwariant penodol. Mae hyn yn galluogi arbenigwyr categori i ganolbwyntio eu hamser a gwneud gwaith dadansoddi'r farchnad trwyadl i fanteisio'n llawn ar benderfyniadau caffael ar ran y Cyngor yn ei gyfanrwydd. Gall y canlyniadau fod yn sylweddol well na dulliau prynu sy'n seiliedig ar drafodion traddodiadol. Mae'r uned caffael corfforaethol hefyd yn defnyddio ac yn hyrwyddo fframweithiau cydweithredol, yn enwedig y Gwasanaethau Caffael Cenedlaethol.

7.7 Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor yn disgrifio'r 'Edefyn Euraid' ar gyfer cynllunio sy'n cysylltu gweledigaeth y Cyngor o "Un cyngor yn gweithio gyda'i gilydd i wella bywydau" trwy wasanaethau a ddarperir ar reng flaen y Cyngor a sut y mae ffactorau allanol yn dylanwadu ar y weledigaeth. Mae'r ffactorau allanol yn cynnwys blaenoriaethau cenedlaethol gan Lywodraethau Cymru a'r DU a blaenoriaethau lleol gan Ddinasyddion, Partneriaid, a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sydd wrthi'n paratoi ei Gynllun Llesiant ac amcanion a fydd yn dylanwadu / yn cael eu dylanwadu gan flaenoriaethau'r Cyngor yn y dyfodol. Mae'r weledigaeth a'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Corfforaethol wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â chynlluniau busnes Cyfarwyddiaethau, cynlluniau darparu gwasanaethau, cynlluniau darparu grŵp ac amcanion unigolion mewn gwerthusiadau staff.

7.8 Cynhelir yr Asesiad Perfformiad Corfforaethol yn dri misol ac fe'i mynychir gan Aelodau'r Cabinet, y Bwrdd Rheoli Corfforaethol, a Phenaethiaid Gwasanaethau. Mae diben yr Asesiad Perfformiad Corfforaethol fel a ganlyn:

- Cael golwg gyfannol ar berfformiad y Cyngor;
- Nodi ac archwilio materion trawsbynciol;
- Herio meysydd o berfformiad gwael yn feirniadol; a
- Nodi cyfleoedd gwella gwasanaethau, risgiau i ddarpariaeth a goblygiadau adnoddau.

7.9 Yn benodol, mae'r Asesiad Perfformiad Corfforaethol yn monitro:

- Y sefyllfa ariannol fesul Cyfarwyddiaeth;
- Blaenoriaethau gwella'r Cyngor fel y'u diffinnir gan y Cynllun Corfforaethol;
- Gweithredoedd gwasanaeth sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau Cyfarwyddiaethau fel y'u diffinnir gan y Cynllun Corfforaethol;
- Dangosyddion/mesurau allweddol, trwy bedwar safbwynt sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau Cyfarwyddiaethau yn unol â'r Cynllun Corfforaethol ac ar lefel Gwasanaeth ar gyfer monitro perfformiad gweithredol allweddol; a
- Risgiau corfforaethol.

7.10 Pan fo angen, gall yr Asesiad Perfformiad Corfforaethol hefyd, trwy eithriad, fonitro cynnydd yn erbyn mentrau cenedlaethol a chydweithredol perthnasol.

7.11 Yn ystod rhan olaf 2015, adolygwyd y broses Asesu Perfformiad Corfforaethol bresennol gan y Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol gan gytuno ar gyfer 2016-17 y byddai'r Asesiad Perfformiad Corfforaethol yn cynnwys amrywiaeth ehangach o fesurau i asesu perfformiad y Cynllun Corfforaethol ac ar lefel Gwasanaeth o ran gweithgareddau busnes fel arfer. Cytunwyd y byddai canlyniadau'n cael eu mesur trwy bedwar safbwynt, gan ganolbwyntio ar ddangosyddion perfformiad a oedd yn cefnogi canlyniadau gweladwy. Byddai'r dangosyddion yn mesur gwerth am arian, canlyniadau defnyddwyr gwasanaeth, prosesau mewnol a chapasiti sefydliadol. Caiff y dangosyddion eu monitro ar lefel Pennaeth Gwasanaeth er mwyn cael mwy o atebolrwydd ar draws y sefydliad a defnyddir dull cerdyn sgorio cytbwys i fonitro perfformiad o 2016-17 ymlaen. Roedd Asesiadau Perfformiad Corfforaethol a gynhaliwyd yn ystod 2016-17 yn adlewyrchu'r broses newydd, gyda gwaith yn parhau yn ystod y flwyddyn i gryfhau'r gyfres o ddangosyddion a ddefnyddir i herio perfformiad ar Lefel Pennaeth Gwasanaeth a Chyfarwyddwr Corfforaethol.

7.12 Mae'r Cyngor wedi datblygu dull cadarn o reoli risg. Mae'r Polisi Rheoli Risg Corfforaethol wedi ei alinio â Chynlluniau Busnes Cyfarwyddiaethau a fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor. Caiff yr holl risgiau a nodir eu hasesu yn erbyn y meini prawf corfforaethol.

7.13 Caiff risgiau eu hystyried o safbwynt Gwasanaethau a Chyngor cyfan sy'n caniatáu i'r risgiau allweddol gael eu distyllu yn y Gofrestr Risg Corfforaethol. Caiff risgiau corfforaethol allweddol eu monitro ar y lefel uchaf yn y Cyngor, gan gynnwys y Cabinet, yr Uwch Dîm Rheoli, y Bwrdd Rheoli Rhaglenni, Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Asesu Perfformiad Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio. Mae dull y Cyngor yn sicrhau bod risgiau allweddol yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar flaenoriaethau, targedau ac amcanion y Cyngor ac yn cael eu cynnwys yng Nghynlluniau Busnes y Cyfarwyddiaethau. Nodir y prif risgiau sy'n wynebu'r Cyngor a ganfuwyd yn ystod 2016-17 ar Gofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor sydd ar gael yn http://www.bridgend.gov.uk/media/393300/risk-register-2016-17.pdf

7.14 Ym mis Ebrill 2015, derbyniodd yr Uwch Dîm Rheoli adroddiad ar ddadansoddiad o'r bylchau Iechyd a Diogelwch. Penderfynwyd y dylid uwchgyfeirio'r risg i'r Gofrestr Risg Corfforaethol. Mae'r risg yn disgrifio dyletswyddau'r Cyngor ac yn nodi bod meysydd lle gallai fod gwelliant i rai trefniadau iechyd a diogelwch.

7.15 Ymgymerir â rheolaeth ariannol y Cyngor yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol a'r Cyfansoddiad. Yn benodol, mae'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol a'r Rheolau Gweithdrefn Contract a'r cynllun dirprwyo yn darparu'r fframwaith ar gyfer rheolaeth ariannol. Mae gan y Swyddog Adran 151 gyfrifoldeb am sefydlu fframwaith eglur ar gyfer rheoli materion ariannol y Cyngor ac am sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer eu gweinyddu'n briodol. Yn rhan o'i fframwaith rheoli perfformiad, mae'r Cyngor yn cysylltu'r broses cynllunio strategol gyda'r broses cyllidebau ac yn sicrhau aliniad rhyngddynt, gan hwyluso dyraniad adnoddau i flaenoriaethau corfforaethol. Prif Swyddogion sy'n gyfrifol am reolaeth ariannol yn eu gwasanaethau priodol. Mae'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol yn monitro'r sefyllfa gyllidebol

gyffredinol a chyflawniad gostyngiadau penodol i gyllidebau yn rheolaidd, a chaiff adroddiadau monitro cyllidebau tri misol eu llunio ar gyfer y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu. Mae'r gwaith hwn yn hysbysu'r gwaith o lunio'r Datganiad o Gyfrifon blynyddol statudol.

7.16 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i roi sylw dyledus i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector cyhoeddus. Cyhoeddodd ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 ar 1 Ebrill 2016. Mae'r cynllun yn amlinellu dull y Cyngor o sicrhau cyfle cyfartal i gwsmeriaid, dinasyddion, trigolion ac ymwelwyr ac yn ceisio sicrhau bod Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn lle teg a chroesawgar i fod. Ysgrifennwyd y cynllun yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn ei wybod am ein gwasanaethau ac ar safbwyntiau ac anghenion dinasyddion Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'r bobl sy'n eu defnyddio. Mae gan y Cyngor ddyletswydd i gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac aeth y diweddaraf i Bwyllgor Cydraddoldebau'r Cabinet ym mis Mawrth 2017. Mae'r adroddiadau blynyddol yn adolygu ac yn myfyrio ar waith blaenorol ac yn amlinellu cynnydd a wnaed gan y Cyngor ar bob un o'i amcanion a themâu cydraddoldeb. Penaethiaid Gwasanaeth ac Uwch-Reolwyr Gwasanaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod y camau yn y Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Strategol yn cael eu cyflawni. Darperir diweddariadau i Bwyllgor Cydraddoldebau'r Cabinet ac i Fforwm Cydraddoldeb Pen-y-bont ar Ogwr. Caiff adroddiadau Pwyllgor a Chyngor sydd angen penderfyniad polisi eu hategu gan asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.

**8. Egwyddor 5 - Datblygu capasiti a gallu Aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol *(CIPFA2016 - Egwyddor E – Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion y tu mewn iddo)***

8.1 Nod y Cyngor yw sicrhau bod aelodau a swyddogion y Cyngor yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r capasiti sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu cyfrifoldebau fel yr amlinellir yn eu disgrifiadau swydd. Darperir cyfnod ymsefydlu i aelodau a staff newydd iddynt ymgyfarwyddo â phrotocolau, gweithdrefnau, gwerthoedd a nodau'r Cyngor.

8.2 Mae strwythurau sefydliadol o ran cyfrifoldeb Aelodau a phortffolios Cyfarwyddiaethau wedi eu cynnwys yn y cyfansoddiad ac ar gael ar wefan y Cyngor. Mae'r Aelodau wedi cytuno ar ddisgrifiadau swydd hefyd.

8.3 Ceir Strategaeth Dysgu a Datblygu Aelodau Etholedig 2012-17, sy'n darparu fframwaith ar gyfer cynorthwyo aelodau etholedig yn y swyddogaethau y mae'n ofynnol iddynt eu cyflawni y tu mewn a'r tu allan i'r Cyngor. Mae'r Strategaeth yn cynorthwyo aelodau i ddatblygu a chryfhau eu gallu i fod yn arweinwyr gwleidyddol a chymunedol hyderus.

8.4 Defnyddir y system Gweinyddu Pwyllgorau Modern.Gov i awtomeiddio llawer o'r dyletswyddau gweinyddol o ran aelodau etholedig a'r broses gwneud penderfyniadau ffurfiol. Mae'r system yn cynorthwyo pobl i wneud penderfyniadau, yn galluogi camau i gael eu holrhain a phenderfyniadau gael eu monitro ac yn darparu cofrestr penderfyniadau ar y we.

8.5 Mae'r Cyngor yn dilyn dull pragmatig o ddirprwyo pwerau ar gyfer gwneud penderfyniadau gan alluogi penderfyniadau lefel is i fod yn destun 'dwyn i gyfrif' ond nid 'galw i mewn' gan weithdrefnau craffu. Caiff y cynllun ei adolygu'n fanwl yn rheolaidd, ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth a newidiadau dilynol i'r strwythur corfforaethol, ac fe'i cyhoeddir ar y fewnrwyd. Hysbysir yr Awdurdod am unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud gan ddefnyddio negeseuon Bridgenders. Mae pwerau dirprwyedig a chyfyngiadau wedi eu nodi'n eglur, ac felly hefyd y defnydd o is-ddirprwyaethau gan alluogi penderfyniadau effeithiol a phrydlon.

8.6 Canfu asesiad corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol bod Aelodau etholedig y Cyngor yn elwa o amrywiaeth o gyfleoedd a oedd yn rhoi'r sgiliau yr oedd eu hangen arnynt i gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol.

8.7 Caiff y Rhaglen Datblygu Aelodau ei hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod unrhyw weithgareddau hyfforddi yn briodol, yn berthnasol ac yn brydlon. Darparwyd Hyfforddiant Gweddarlledu i Aelodau etholedig ac i swyddogion. Daethpwyd o hyd i ddarparwr ac mae gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau wedi dod yn ddangosydd perfformiad sy'n gofyn i 10 cyfarfod o leiaf gael eu gweddarlledu tan 2018.

8.8 Yn 2016-17, cymerodd grŵp trawsbleidiol o 3 Aelod Etholedig ran yn yr academi Arweinyddiaeth a gyd-gysylltwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a oedd yn cynnwys 3 modiwl gan gynnwys Arwain trwy gysylltiadau, Arwain Arloesedd ac Arweinyddiaeth Newid a Chymunedol. Cynorthwyodd yr Academi ddatblygiad personol yr Aelodau hyn hefyd gan hybu gwaith ar y cyd ledled Cymru.

**9. Egwyddor 6 - Ymgysylltu â phobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn *(CIPFA 2016 - Egwyddor B – Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid)***

9.1 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddeall a dysgu o safbwyntiau'r cyhoedd a defnyddio eu hadborth er mwyn helpu i lunio gwasanaethau a pholisïau. Mae pecyn ymgynghori ac ymgysylltu ar waith i helpu rheolwyr i sicrhau bod gweithgareddau ymgynghori'n gadarn ac yn dilyn canllawiau cyfreithiol (egwyddorion Gunning) ac Egwyddorion Cenedlaethol Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu Cyhoeddus yng Nghymru a fabwysiadwyd gan y Cyngor. Mae'r prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau wedi eu dylunio i gynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid. Mae'r Strategaeth Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu yn darparu fframwaith ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu a gyflawnir gan y Cyngor.

9.2 Cyflwynwyd Mesur y Gymraeg (Cymru) gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2010 a chyflwynwyd hysbysiad cydymffurfiad i'r Cyngor ar 30 Medi 2015. Mae'r Cyngor wedi cymryd camau sylweddol o ran ei ddefnydd o'r Gymraeg i roi hawliau gwell a gorfodadwy i siaradwyr Cymraeg ac wedi rhoi nifer o'r safonau ar waith. Mae'r Cyngor mewn trafodaethau gyda Chomisiynydd y Gymraeg ar weithredu'r safonau sy'n weddill.

9.3 Mae gan y Cyngor Banel Dinasyddion sy'n cynnwys dros 1,500 o drigolion 16 oed neu hŷn o bob rhan o'r fwrdeistref sirol. Mae aelodau'r panel yn cytuno i gymryd rhan mewn tri neu bedwar o arolygon y flwyddyn ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud â gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor. Mae hyn wedi helpu i ddeall barn trigolion ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu ac i helpu i wella pethau yn y dyfodol. Mae'r panel yn gynrychiadol o drigolion 25 oed a hŷn ar hyn o bryd. Mae gan y tîm ymgynghori ddangosyddion perfformiad allweddol ar waith i gynyddu cynrychiolaeth pobl ifanc 16-24 mlwydd oed, siaradwyr Cymraeg a thrigolion anabl, yn ogystal â dangosyddion i gynyddu cynrychiolaeth ar draws pob ward i 1 y cant o leiaf.

9.4 Yn ystod 2016-17, ymgynghorodd y Cyngor ar amrywiaeth eang o faterion gan gynnwys y canlynol (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr):

- Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr;
- Deall y galw am addysg Gymraeg
- Arolwg mynediad Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr
- Gwastraff cartref: cynllun lwfans ychwanegol
- Gweddnewid digidol

9.5 Roedd ymgynghoriad Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys 15 o ddigwyddiadau/stondinau ymgysylltu cymunedol ar draws y fwrdeistref sirol, ac arolwg ar-lein a gasglodd safbwyntiau'r cyhoedd ar sut i sicrhau'r arbedion cyllideb angenrheidiol.

9.6 Defnyddir cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwasanaethau ac ymgysylltu â'r cyhoedd, cynhelir sesiynau cwestiwn ac ateb/dadleuon rheolaidd yn rhan o ymarferion ymgynghori i gasglu adborth dinasyddion. Rhoddwyd hyn ar waith yn llwyddiannus yn rhan o'r ymgynghoriadau "adolygu gwastraff cartref ac ailgylchu" a "Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr".

9.7 Yn gynyddol, mae arolygon yn cael eu gwneud ar gael ar fwrdd gwaith, llechen a ffôn symudol i gynyddu'r tebygolrwydd y bydd trigolion yn ymateb. Mae'r tîm ymgynghori hefyd wedi creu cronfa ddata o fwy na 1,500 o drigolion sydd â diddordeb mewn derbyn negeseuon e-bost HTML am ymgynghoriadau allweddol sy'n cael eu cynnal yn y fwrdeistref sirol.

9.8 Anfonir manylion ymgysylltu at aelodau'r Panel Dinasyddion a thrigolion sy'n dewis derbyn diweddariadau ymgynghoriadau allweddol ar brosiectau a allai fod o ddiddordeb iddynt. Mae defnyddio'r gronfa ddata wedi arwain at welliant o 68% i'r gyfradd ymateb ar gyfer yr arolwg PSB (ymgynghoriad ar-lein ar yr Asesiad Llesiant) yn 2017. Gwahoddir aelodau Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr, y Cyngor ieuenctid a Fforwm Cydraddoldeb Pen-y-bont ar Ogwr i rannu eu safbwyntiau (pan fo'n berthnasol) i wella cynrychiolaeth.

9.9 Ceir cyfathrebu rheolaidd â staff trwy drefniadau rheoli a ategir gan

- Bridgenders
- Bwletin Bridgenders
- Diweddariadau'r Prif Weithredwr i gyflogeion
- Gweithdai Uwch-reolwyr

Cynhelir cyfarfodydd Undebau Llafur yn rheolaidd gyda'r Pennaeth Adnoddau Dynol ac aelodau Cabinet cynrychiadol.

9.10 Cyhoeddir y Cynllun Corfforaethol ar wefan y Cyngor, caiff ei gyfathrebu'n eang i staff a'i gymeradwyo gan Aelodau, drwy'r broses ddemocrataidd arferol. Caiff data perfformiad hefyd ei gyhoeddi ar y we, i gefnogi llwyddiannau'r Cyngor o ran darparu ei welliannau ar gyfer y flwyddyn. Cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol ar y wefan ac yn yr un modd â'r Cynllun Corfforaethol a data perfformiad, caiff ei gytuno gan aelodau etholedig yn y Cabinet a'r Cyngor yn flynyddol. Caiff hysbysiadau ar gyfer y Cynllun Corfforaethol a'r Adroddiad Blynyddol eu cyhoeddi ar y wefan a'r newyddiadur lleol yn flynyddol. Mae'r Adroddiad Blynyddol hefyd ar gael mewn adeiladau cyhoeddus allweddol ar draws y Fwrdeistref i ddinasyddion ei ddarllen.

9.11 Mae'r Cyngor yn gweithredu Gweithdrefn Cwynion Corfforaethol a Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn defnyddio'r rhain i nodi meysydd lle nad yw ansawdd gwasanaethau'n foddhaol, ac i gymryd camau i wella. Gellir gwneud cwynion yn electronig, yn ysgrifenedig ac, ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, gellir gwneud cwynion ar lafar hefyd. Mae'r Cyngor wedi gosod targed ar gyfer ymateb i'r holl gwynion a dderbynnir er mwyn sicrhau atebolrwydd. Adroddir ar weithrediad y Polisi Cwynion yn flynyddol i'r Cyngor llawn gan ei fod yn cynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn llunio Adroddiad Blynyddol ar eu cwynion a adroddir i'r Cabinet.

9.12 Ceir polisi Diogelu Corfforaethol sy'n cynnwys manylion Diogelu mewn Cyflogaeth.

9.13 Mae'r Protocol Recriwtio a Dethol a'r Canllawiau Rheolwyr yn nodi manylion fetio cyn-cyflogi sy'n cynnwys darganfod hanesion cyflogaeth llawn; prawf adnabod; tystlythyrau boddhaol; asesiad iechyd; archwiliad o gymwysterau; archwiliadau lloches a mewnfudo; ac archwiliadau cofnodion troseddol gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

9.14 Mae Polisi'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn berthnasol i gyflogeion, gwirfoddolwyr, lleoliadau gwaith ac aelodau etholedig. Hefyd, mae gofalwyr maeth a darpar rieni mabwysiadu,

lleoliadau myfyrwyr, trefniadau trwyddedu a thrafnidiaeth ysgol ac unrhyw sefyllfaoedd eraill a reoleiddir yn destun darpariaethau'r polisi hwn. Mae hefyd yn berthnasol i'r rheini a gyflogir yn uniongyrchol gan gyrff llywodraethu.

9.15 Mae'r Cyngor yn gwneud llawer iawn o wybodaeth ar gael i'w ddinasyddion mewn ffordd agored a chyfeillgar. Gellir cael gafael ar wybodaeth trwy wefan y Cyngor a llawer o gyhoeddiadau eraill. O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae'n ofynnol i'r Cyngor gynyddu mynediad at y wybodaeth y mae'n ei dal, ac mae rhan o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol darparu Cynllun Cyhoeddi. Cymeradwywyd y Cynllun gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiad â'r ddeddfwriaeth. Mae'r Cynllun yn darparu canllaw ar y wybodaeth a wneir ar gael i'r cyhoedd fel mater o drefn. Nid yw manylion yr holl wybodaeth y mae'r Cyngor yn ei chyhoeddi yn cael eu cynnwys yn y cynllun cyhoeddi. Gellir gwneud cais am wybodaeth nad yw'n cael ei chyhoeddi trwy wneud cais Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r Cyngor yn ystyried pob cais o dan ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth ac yn cydymffurfio â'r gofyniad i ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith.

9.16 Mae holl gyfarfodydd y Cyngor yn agored i'r cyhoedd ac eithrio pan fo materion personol neu gyfrinachol yn cael eu trafod. Mae'r holl agendâu, adroddiadau a chofnodion cyhoeddus ar gael ar wefan y Cyngor. Mae Rhaglenni Gwaith ag amserlenni a gytunwyd ar gyfer adrodd, cyflwyno, cymeradwyaeth gan adrannau Cyfreithiol a Chyllid, cyhoeddi a dosbarthu yn cynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau ar lefel strategol. Mae hyn yn sicrhau gwiriad corfforaethol o effaith penderfyniadau yn ogystal ag uniondeb o ran awdurdodiadau cyfreithiol ac ariannol. Cyflwynodd y Cyngor gyfleuster gweddarlledu ddechrau 2016 hefyd, sy'n cynnig ffrydio byw a chyfleuster archif. Caiff nifer gwylwyr y gweddarllediadau eu monitro a chaiff y canlyniadau eu hadrodd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae swyddogion ac aelodau yn gweithio gyda'i gilydd i nodi'r cyfarfodydd hynny yr ystyrir eu bod o ddiddordeb cyhoeddus allweddol ac sy'n addas i'w gweddarlledu. Gall aelodau'r cyhoedd a thystion 'arbenigol' gymryd rhan trwy siarad mewn Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn debyg i drefniadau sydd eisoes ar waith ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygiad.

9.17 Derbyniodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) gydsyniad brenhinol ar 29 Ebrill 2015. Mae'r Ddeddf yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ym mhob awdurdod lleol, a ddisodlodd Byrddau Gwasanaeth Lleol o 1 Ebrill 2016. Mae'r Cyngor yn un o bedwar aelod statudol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnwys 'Cyfranogwyr Gwahoddedig'. Gellid dod o hyd i waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr: http://www.bridgend.gov.uk/cy/gwasanaethau/y-bwrdd-gwasanaethau-cyhoeddus.aspx .

9.18 Prif bwyslais y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2016-17 oedd y gofyniad statudol i gyhoeddi Asesiad o Lesiant Lleol erbyn mis Ebrill 2017. Bydd yr Asesiad yn hysbysu'r amcanion llesiant i'w cynnwys yn y Cynllun Llesiant a fydd yn cael ei gyhoeddi erbyn mis Mai 2018. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd yn gyfrifol am weithredu Sir Pen-y-bont ar Ogwr Ynghyd, y Cynllun Partneriaeth Integredig Sengl ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, tan iddo gael ei ddisodli gan y Cynllun Llesiant. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn mabwysiadu dull prosiect o ddarparu ei flaenoriaethau a nodwyd. Cytunodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei Gylch Gorchwyl a datblygodd ei drefniadau llywodraethu, gan gynnwys ymsefydlu trefniadau Craffu.

9.19 Yn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2016-17 i 2019-20, nodwyd bod dros 10% o arbedion cyllideb a nodwyd dros y cyfnod 4 blynedd yn dod o gydweithredu a gweddnewid gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi cytuno y dylai cydweithredu ganolbwyntio ar brosiectau sydd â'r potensial i gynhyrchu'r budd mwyaf, o wneud cyfraniad eglur at flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor ac arwain at fudd gwasanaeth eglur. Y Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol:

Cadernid ac Adnewyddiad' a gyhoeddwyd yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei gynigion ar gyfer gwaith rhanbarthol gorfodol a systematig i gynnig cyfle i gryfhau, cysoni a symleiddio'r trefniadau presennol rhwng Awdurdodau Lleol. Mae'r gwasanaethau a allai gael eu heffeithio yn cynnwys trafnidiaeth, cynllunio defnydd tir a rheoli adeiladau, gwasanaethau cymdeithasol, addysg ac amddiffyn y cyhoedd. Er bod yr awdurdod eisoes yn gweithio ar y cyd yn nifer o'r meysydd gwasanaeth hyn, ceir meysydd lle gellid datblygu gwaith ar y cyd o hyd.

**10. Adolygiad o Effeithiolrwydd**

10.1 Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb am adolygu effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu'n flynyddol, gan gynnwys y system o reolaeth fewnol. Hysbysir hyn gan waith Archwilwyr Mewnol a phrif swyddogion yn y Cyngor sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd rheolaeth fewnol. Mae'r Cyngor hefyd yn derbyn sicrwydd ynghylch ei drefniadau llywodraethu gan ffynonellau annibynnol ac Archwilwyr Mewnol, Archwilwyr Allanol a rheoleiddwyr allanol eraill yn benodol.

10.2 Mae'r elfennau canlynol yn allweddol i'r Cyngor o ran monitro ac adolygu ei lywodraethu:

- Y Cyfansoddiad sy'n nodi sut y mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y caiff penderfyniadau eu gwneud a'r gweithdrefnau a ddilynir i sicrhau bod y rhain yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae hefyd yn cynnwys y Codau Ymddygiad ar gyfer aelodau a chyflogeion.

- Y Cabinet (fel Gweithrediaeth) sy'n gyfrifol am ystyried gwaith rheoli ariannol a pherfformiad cyffredinol ac yn derbyn adroddiadau cynhwysfawr yn rheolaidd. Mae'r Cabinet hefyd yn gyfrifol am benderfyniadau allweddol ac am sefydlu camau cywiro o ran materion risg a rheolaeth fewnol.

- Y swyddogaeth Graffu sy'n dwyn y Cabinet i gyfrif. Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau a Gwelliant Corfforaethol yn gyfrifol am gynnal trosolwg o berfformiad ariannol gan gynnwys gwerth am arian. Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Partneriaethau a Llywodraethu yn cynnal trosolwg o faterion trawsbynciol. Ceir cyfrifoldeb yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor i ystyried polisïau a strategaethau'r Cyngor o ran trefniadau gweithio ar y cyd a phartneriaeth. Mae Cadeiryddion y Pwyllgorau yn trafod â'i gilydd i sicrhau craffu effeithiol ar bynciau cydweithredu i sicrhau bod rhaglenni gwaith yn cael eu cydgysylltu i atal dyblygiad.

- Y Pwyllgor Archwilio, sy'n darparu'r canolbwynt ar gyfer adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Mae llawer o'r gwaith hwn yn seiliedig ar adolygu gwaith yr Archwilwyr Mewnol a derbyn adroddiadau gan archwilwyr allanol y Cyngor. Cyfarfu'r Pwyllgor yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn gan roi sicrwydd annibynnol i'r Cyngor o ran effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol a materion llywodraethu.

10.3 Roedd gofynion ychwanegol Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cynnwys:

- ethol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio gan y Pwyllgor Archwilio ei hun yn hytrach na thrwy benodiad gan y Cyngor;
- y gofyniad bod rhaid bod o leiaf un aelod lleyg, cynrychiolydd proffesiynol heb unrhyw gysylltiadau â'r Cyngor sy'n gallu cynorthwyo â swyddogaeth y Pwyllgor Archwilio. Mae nifer yr aelodau lleyg sydd eu hangen i gynorthwyo'r pwyllgor yn parhau i gael ei adolygu;
- penodiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

10.4 Darparwyd Rhaglen Datblygu Aelodau gynhwysfawr i sicrhau bod yr holl aelodau (gan gynnwys yr Aelodau Lleyg a Chyfetholedig) yn cael y cyfle i ennill dealltwriaeth gynhwysfawr

o'u swyddogaeth fel y'i disgrifir yn y Disgrifiadau Cofrestr Aelodau Etholedig a gymeradwywyd gan y Cyngor. Cynigiwyd hyfforddiant ar Reoli Trysorlys i'r holl Aelodau Etholedig i'w cynorthwyo i graffu ar Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol y Cyngor. Cydnabuwyd effeithiolrwydd hyfforddiant aelodau gan Estyn a nododd bod yr hyfforddiant a ddarparwyd i aelodau etholedig yn cynyddu eu dealltwriaeth a'u gallu i gwestiynu data i'w galluogi i herio perfformiad, yn enwedig o ran data perfformiad ysgolion.

10.5 Mae gan Aelodau swyddogaeth allweddol i'w chyflawni o ran diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl. Mae Aelodau wedi gallu cael mynediad at hyfforddiant i gynyddu eu dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau o ran diogelu plant ac oedolion. Ystyriodd yr hyfforddiant, a gynhaliwyd dros sawl dyddiad rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2016, diogelu yng nghyd-destun Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

10.6 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu model CLILC o ddisgrifiadau swydd ar gyfer holl Aelodau a Chadeiryddion pwyllgorau gan gynnwys y Pwyllgor Archwilio. Addaswyd y rhain i adlewyrchu'r swyddogaethau penodol a gyflawnir yn y Cyngor sy'n galluogi aelodau i ddeall eu swyddogaethau'n well a nodir unrhyw gymorth neu hyfforddiant pellach sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Bydd hyn yn cynyddu gallu aelodau'r Pwyllgor Archwilio i ddadansoddi, monitro a herio perfformiad effeithiol y Cyngor.

10.7 Mae swyddogaethau'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu yn darparu mecanwaith arall ar gyfer adolygu a herio unrhyw faterion a allai effeithio ar y system o reolaeth fewnol. Mae Pwyllgorau Craffu yn sefydlu paneli Ymchwil a Gwerthuso (gan gynnwys i adolygu cynigion cyllideb); maent yn cynnal adolygiadau o agweddau penodol ar weithrediadau'r Cyngor ac yn gwneud argymhellion i'r Cabinet ar gyfer gwella.

10.8 Mae Archwilwyr Mewnol hefyd yn cynnig sicrwydd annibynnol a gwrthrychol. Maent yn cynnal archwiliad parhaus o wasanaethau'r Cyngor sy'n cael eu hasesu a'u blaenoriaethu yn ôl risg gymharol. Mae'r asesiad risg hwn yn manteisio ar y risgiau corfforaethol a gwasanaeth a nodwyd yn rhan o'r broses cynllunio Gwasanaethau. Yn ystod 2016-17, wrth gyflawni eu dyletswyddau, gweithiodd yr Archwilwyr Mewnol yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn berthnasol i bob rhan o sector cyhoeddus y Deyrnas Unedig ac yn seiliedig ar Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol (CIIA). Yn unol â Safonau Mewnol y Sector Cyhoeddus, roedd y Cyd-wasanaeth Archwilio Mewnol yn destun asesiad mewnol, a gytunwyd gan Bwyllgor Archwilio'r Cyngor. Yn dilyn ymarfer caffael, comisiynwyd CIPFA i gynnal yr asesiad a gychwynnodd ddiwedd mis Ionawr 2017 ac a ddaeth i ben ym mis Chwefror 2017. Adroddwyd canlyniad yr asesiad i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ar 27 Ebrill, a ddynododd bod yr asesiad wedi nodi dim meysydd o ddiffyg cydymffurfiad â'r safonau a fyddai'n effeithio ar gwmpas neu weithrediad cyffredinol y gweithgarwch archwilio mewnol. Gwnaed nifer o argymhellion ac er bod nifer wedi cael eu rhoi ar waith eisoes, bydd Pwyllgor Archwilio'r Cyngor yn cadw trosolwg dros y broses weithredu i sicrhau y rhoddir sylw i'r holl argymhellion.

10.9 Cyflawnodd yr Archwilwyr Mewnol raglen o adolygiadau yn unol â'r Cynllun Archwilio Blynyddol ar gyfer 2016-17. Yn rhan o'r broses adrodd ar archwiliadau arferol, gwnaed argymhellion ac fe'u cytunwyd gyda'r prif swyddogion perthnasol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a allai effeithio ar y system o reolaeth fewnol. Hefyd, mae'r Archwilwyr Mewnol yn cynnal ymchwiliad twyll ac yn rhagweithiol o ran gwaith canfod twyll. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r amgylchedd rheolaeth mewn meysydd lle mae twyll neu afreoleidd-dra wedi dod i'r amlwg. Caiff unrhyw wendidau arwyddocaol yn yr amgylchedd rheolaeth a nodir gan yr Archwilwyr Mewnol eu hadrodd i'r uwch-reolwyr, y Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet fel sy'n briodol.

10.10 Mae'r trefniant archwilio mewnol yn galluogi'r Prif Archwilydd Mewnol i gynnig barn ar y trefniadau rheolaeth fewnol, rheoli risg a llywodraethu. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi canfod fod y Cyngor wedi ymrwymo i egwyddorion llywodraethu da ac, o ganlyniad, mae wedi mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol ffurfiol ar gyfer y chwe blynedd diwethaf, a bod trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu Datganiad CIPFA ar Swyddogaeth y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol (2010). Ar sail y gwaith archwilio a chan gymryd yr holl dystiolaeth sydd ar gael i ystyriaeth, mae'r Pennaeth Archwilio mewnol wedi dod i'r casgliad yr ystyrir bod fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor yn foddhaol ac na nodwyd unrhyw wendidau rheolaeth fewnol trawsbynciol arwyddocaol hyd yn hyn eleni a fyddai'n effeithio ar Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor.

10.11 Mae'r Cyngor yn destun rhaglen flynyddol o archwiliadau allanol annibynnol ac arolygiadau statudol sy'n adrodd ar drefniadau llywodraethu, perfformiad a chyfrifyddu'r Cyngor. Roedd y Cyngor yn destun dau ddarn sylweddol o waith asesu yn ystod 2015-16, a chynhaliwyd y ddau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yr Asesiad Cydnerthedd Ariannol a'r Asesiad Corfforaethol a gwnaed gwaith dilynol arnynt gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2016-17.

10.12 Yn dilyn ymlaen o gynigion Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwella, adolygwyd proses lunio a phwyslais yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2015-16 gan ei ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau ac yn haws i ddinasyddion ddeall y gwelliannau yr oedd y Cyngor wedi eu gwneud yn unol â'r gwelliannau a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol. Nid yw effeithiolrwydd Adroddiad Blynyddol gwell 2015-16 wedi cael ei asesu gan Swyddfa Archwilio Cymru eto.

10.13 Cynhaliwyd yr Asesiad Cydnerthedd Ariannol rhwng mis Mehefin a mis Medi 2016 gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth cynllunio arbedion 2015-16, ansawdd ei gynlluniau ariannol tymor canolig a chadernid ei gynlluniau arbedion ar gyfer 2016-17. Gwnaeth yr archwilwyr waith dilynol ar eu gwaith yn 2015-16 i ddarganfod yr hyn a wnaeth y Cyngor o ganlyniad i'r hyn iddo ei ddysgu a sut yr oedd wedi ymateb i'r cynigion ar gyfer gwella o ran cynllunio ariannol. Samplwyd rhai o'r cynigion ar gyfer arbedion yn 2016-17 gan yr archwilwyr gan edrych ar y tybiaethau sylfaenol, a pha un a oes mecanweithiau digonol i sicrhau y gellir eu darparu yn ôl yr amserlen arfaethedig. Canfuwyd ganddynt yn yr adolygiad bod y Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau ar gyfer adrodd ar y defnydd o gronfeydd wrth gefn ond mae ei ddull o ddatblygu cynlluniau arbedion yn gwanhau trefniadau. Nid yw dros hanner y cynlluniau arbedion wedi eu datblygu'n ddigon da wrth bennu'r gyllideb flynyddol i sicrhau darpariaeth yn ôl amserlenni a gynlluniwyd a cheir diffyg manylion mewn cynlluniau arbedion dangosol ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

10.14 Daeth yr asesiad i'r casgliad cyffredinol efallai na fydd cynlluniau arbedion nad ydynt wedi'u datblygu'n ddigonol yn cefnogi cydnerthedd ariannol yn y dyfodol yn llawn, er bod gan y Cyngor fframwaith cynllunio ariannol cadarn. Gwnaethant un cynnig ar gyfer gwella:

- Bod y Cyngor yn cryfhau trefniadau cynllunio ariannol trwy:
  - sicrhau bod cynigion arbedion yn cael eu datblygu'n llawn ac yn cynnwys amserlenni darparu realistig cyn eu cynnwys yn y gyllideb flynyddol; a
  - nodi cynigion arbedion dangosol dros gyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

10.15 Cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol Asesiad Corfforaethol o'r Cyngor yn 2015-16. Diben yr asesiad oedd darparu datganiad sefyllfa ar gapasiti a gallu'r Cyngor i ddarparu gwelliant parhaus. Roedd pwyslais yr asesiad ar i ba raddau y mae trefniadau yn helpu i wella perfformiad gwasanaethau a chanlyniadau i ddinasyddion.

10.16 Ystyriodd yr asesiad hanes y Cyngor o berfformiad a chanlyniadau yn ogystal ag archwilio'r trefniadau allweddol sy'n angenrheidiol fel sail i welliannau mewn gwasanaethau a

swyddogaethau. Fe wnaeth yr archwilwyr gyfweld a chyfarfod aelodau etholedig, uwch swyddogion a staff rheng flaen, yn unigol ac yn gyfunol, a chynnal arolygon ar-lein â nhw.

10.17 Roedd canlyniad yr asesiad yn gadarnhaol iawn. Casgliad cyffredinol yr Archwilydd Cyffredinol oedd bod y Cyngor yn datblygu cynlluniau priodol ar gyfer y dyfodol a'i fod mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliant, yn amodol ar alinio swyddogaethau TGCh ac adnoddau dynol â'r rhaglen weddnewid.

10.18 Ers casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol, datblygwyd y Gwasanaeth TGCh i gefnogi agenda gweddnewid y Cyngor. Datblygwyd Strategaeth TGCh ac fe'i cymeradwywyd gan y Cabinet. Mae'r gweddnewid digidol yn brosiect allweddol i alluogi newid yn rhan o raglen weddnewid y Cyngor a rhoddwyd cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar waith er mwyn helpu i fynd i'r afael â phroblemau recriwtio a chadw yn y gwasanaeth TGCh.

10.19 Datblygwyd y gwasanaeth Adnoddau Dynol ymhellach, a chynllunio'r gweithlu yn benodol, fel eu bod yn cefnogi agenda gweddnewid y Cyngor ac yn sicrhau bod ystyriaethau gweithlu wedi eu hymsefydlu mewn cynllunio busnes gwasanaethau.

10.20 Mae'r Cyngor hefyd wedi mynd i'r afael â'r meysydd lle nodwyd gwelliant gan yr Asesiad Corfforaethol, gan gynnwys y ffordd y caiff ei berfformiad ei werthuso a'i gyflwyno, trwy dystiolaeth ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2015-16, adroddiad ar berfformiad i Bwyllgorau Craffu a Chynllun Corfforaethol y Cyngor a Chynlluniau Busnes Cyfarwyddiaethau ar gyfer 2017-18. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal archwiliad dilynol i sicrhau cynnydd tra bod y datganiad hwn yn cael ei baratoi.

10.21 Mae gan y Cyngor fecanweithiau cryf ar waith i ymgysylltu â dinasyddion a phartneriaid i sicrhau bod tryloywder ac atebolrwydd cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, taflen ar y newidiadau i gasglu gwastraff cartref ym mis Mawrth 2017 yn cael ei amgáu gyda'r bil Treth Gyngor blynyddol i bob aelwyd sy'n talu'r Dreth Gyngor. Mae datblygiad presenoldeb cyfryngau cymdeithasol y Cyngor wedi ehangu mecanweithiau cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu'r Cyngor. Mae rhyngweithio cyhoeddus ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys sesiynau cwestiwn ac ateb gyda'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol, wedi cynyddu ymgysylltiad cyhoeddus sydd wedi hysbysu'n uniongyrchol ein Cwestiynau Cyffredin yn ymwneud â'r ddarpariaeth o wasanaethau i'n dinasyddion.

10.22 Cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol adolygiad thematig Llywodraethu yn 2016-17. Diben yr adolygiad oedd rhoi sicrwydd bod trefniadau llywodraethu Cynghorau mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau'r dyfodol, yn ogystal â nodi cyfleoedd i gryfhau trefniadau a dulliau. Byddai'r adolygiad hefyd yn darparu gwybodaeth ac yn hybu gwelliant trwy asesu trefniadau llywodraethu pob un o'r 22 Cyngor o ran newid gwasanaethau, gan gymryd y fframwaith CIPFA diwygiedig, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i ystyriaeth. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar drefniadau llywodraethu Cynghorau ar gyfer penderfynu ar newidiadau i wasanaethau.

10.23 Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad yn ei adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017, bod gan y Cyngor flaenoriaethau eglur sy'n llywio ei benderfyniadau ar newid sylweddol i wasanaethau ac mae'n ceisio dysgu a gwella ei drefniadau, ond ceir lle i wella hygyrchedd rhywfaint o wybodaeth. Gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol dri chynnig ar gyfer gwella:

- Dylai'r Cyngor wella argaeledd a hygyrchedd gwybodaeth yn ymwneud â gwneud penderfyniadau am newid sylweddol i wasanaethau, er enghraifft cyhoeddi Blaenraglen(ni) Gwaith sy'n cynnwys busnes y Cabinet a'r Cyngor.
- Dylai'r Cyngor benderfynu sut y bydd yn ymsefydlu'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y broses o wneud penderfyniadau

- Dylai'r Cyngor nodi'n eglur sut y bydd effaith newidiadau i wasanaethau yn cael ei monitro ar y pwynt penderfynu.

Mae'r Cyngor yn ystyried y cynigion hyn ac yn ymdrechu i wella yn y meysydd hyn.

10.24 Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn adrodd ar bob Cyngor yng Nghymru nifer y cwynion a dderbyniwyd ac a ymchwiliwyd. Derbyniodd y Cyngor ei Lythyr Blynyddol ar gyfer 2015-16 ym mis Gorffennaf 2016. Nododd y llythyr gynnydd i nifer y cwynion a dderbyniwyd, 38 yn 2015-16 o'i gymharu â 33 yn 2014-15. 41 oedd y ffigur cymharol ar gyfer cyfartaledd awdurdodau lleol ar gyfer 2015-16 (42 ar gyfer 2014-15). Cychwynnwyd un ymchwiliad gan yr Ombwdsmon yn 2015-16. Nododd y Llythyr Blynyddol bod Cynllunio a Rheoli Adeiladau yn parhau fel y prif faes unigol o gwynion, ac yna Ffyrdd a Thrafnidiaeth a Gwasanaethau i Blant yr oedd cynnydd o 60% o'r llynedd ar gyfer y ddau. Ni chyflwynwyd unrhyw adroddiadau a "gadarnhawyd" a dim ond un Setliad Ateb Sydyn neu Wirfoddol a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn.

10.25 Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn faes gwasanaeth a reoleiddir a cheir rhaglen flynyddol o arolygiadau a gynhelir gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Hefyd, mae'r Cyfarwyddwr a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn cael cyfarfodydd adolygu perfformiad tri misol gydag AGGCC sy'n sicrhau bod gofynion rheoleiddio yn cael eu bodloni a bod datblygiadau gwasanaeth arwyddocaol, heriau, y gweithlu, perfformiad a gweithgarwch ymgynghori'n cael eu trafod. Cwblhaodd AGGCC adolygiad o drefniadau diogelu oedolion ac adolygiad o ofalwyr yn ystod 2016-17. Roedd yr adborth llafar yn dilyn yr adolygiadau hyn yn gadarnhaol.

10.26 Cafwyd arolygiad o ofal cymdeithasol plant yn ystod Ionawr/Chwefror 2017. Canolbwyntiodd yr arolygiad ar sut y caiff plant a theuluoedd eu grymuso i gael gafael ar help a gwasanaethau gofal a chymorth ac ar ansawdd canlyniadau a sicrhawyd i blant sydd angen help, gofal a chymorth a/neu eu hamddiffyn, gan gynnwys plant sydd wedi dechrau derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn ddiweddar. Gwerthuswyd ansawdd trefniadau arwain, rheoli a llywodraethu a oedd ar waith i ddatblygu a chynorthwyo darpariaeth y gwasanaeth gan yr arolygiad hefyd. Rydym yn dal i ddisgwyl am adborth ffurfiol i hyn a bydd cynllun gweithredu i fwrw ymlaen â'r argymhellion yn cael ei ddatblygu; bwriedir y bydd hwn yn adrodd i'r system Graffu ym mis Gorffennaf 2017. Bydd y camau perthnasol sy'n deillio o'r arolygiad hwn yn cael eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol 2016-17 Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sydd wrthi'n cael ei gwblhau.

10.27 Mae'r meysydd gwasanaeth a reoleiddir hefyd yn destun arolygiad blynyddol ac mae hyn yn cynnwys y 4 cartref gofal preswyl ar gyfer pobl hŷn, yr amgylcheddau byw â chymorth, y tri Chartref Plant a'r gwasanaeth Maethu.

10.28 Cyflwynwyd adroddiad blynyddol 2015-16 Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol i AGGCC. Cadarnhaodd mai'r prif flaenoriaethau i'r Gyfarwyddiaeth yn ystod 2015-16 oedd bwrw ymlaen ag amcanion Cynllun Busnes y Gyfarwyddiaeth a hefyd cyfrannu at y blaenoriaethau corfforaethol newydd ar gyfer 2016-17; i gyfrannu at y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig; i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) newydd 2014 a hefyd gweithredu System Gwybodaeth Gofal Cymunedol newydd Cymru – a fyddai'n golygu mai Pen-y-bont ar Ogwr fyddai'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i wneud hynny.

10.29 Cadarnhaodd AGGCC yn eu cyfarfod adolygu perfformiad dilynol gyda'r Cyfarwyddwr a dau Bennaeth Gwasanaeth eu bod yn fodlon bod yr adroddiad blynyddol yn adlewyrchu'r gwaith a wnaed mewn meysydd allweddol, gan gynnwys ein llwyddiannau a chynlluniau ar gyfer y Gyfarwyddiaeth yn y dyfodol.

10.30 Mae'r Bwrdd Gofal Cymdeithasol i Oedolion wedi ei ailfodelu yn parhau. Mae'r rhaglen weddnewid allweddol yn parhau i fod yn sylfaen ganolog ar gyfer cryfhau'r ffrydiau gwaith ailfodelu ac yn arwain at agenda atal a llesiant ledled Pen-y-bont ar Ogwr, ac yn rhanbarthol ar draws Menter Gydweithredol Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin. Mae meysydd allweddol ar gyfer ailfodelu yn y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn cynnwys ymsefydlu'r ffyrdd newydd o weithio fel y nodwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), er enghraifft y ddarpariaeth o wybodaeth, cyngor a chymorth. Gwnaed cynnydd hefyd tuag at weithredu'r model gofal ychwanegol, ailfodelu Gofal Cartref, gwasanaethau Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl, yn ogystal â datblygiad parhaus pwynt mynediad cyffredin wedi'i leoli yn Nhrem y Môr.

10.31 Roedd y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2016-17 yn cynnwys cynigion arbedion o £7.477 miliwn (3.55% o gyllidebau gwasanaeth net). Fodd bynnag, fel yr oedd hi ar ôl chwarter 3, mae £1.845 miliwn o'r cynigion hyn mewn perygl o beidio â chael eu gwireddu, ond mae'r gwariant sy'n gysylltiedig â nhw wedi cael ei fantoli mewn rhai achosion gan reoli swyddi gwag ac arbedion eraill mewn rhannau eraill o'r gyllideb. Effaith hyn yw bod pwysau ailadroddus yn parhau ar gyllidebau 2017-18 y bydd angen mynd i'r afael â nhw trwy weithredu'r cynigion neu nodi a darparu dewisiadau amgen. Bydd adroddiadau monitro yn y dyfodol yn adolygiad cyflawniad yn erbyn y targedau hyn yn ogystal â gostyngiadau i gyllideb y flwyddyn gyfredol.

## 11. Materion Llywodraethu Arwyddocaol

11.1 Ar draws y Deyrnas Unedig gyfan, mae cynghorau lleol yn wynebu heriau na wynebwyd o'r blaen yn dilyn llai o gyllid gan y Llywodraeth a galw cynyddol am wasanaethau hanfodol. Rhwng 2016-17 a 2019-20, mae'r Cyngor yn disgwyl gorfod gwneud gostyngiad o £35.5 miliwn i'r gyllideb. Mae toriadau i'r gyllideb ar y raddfa hon yn cyflwyno her sylweddol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud llawer o benderfyniadau anodd am ba wasanaethau y gellir eu cadw a pha rai na ellir eu cadw. Bydd yn golygu na fydd "busnes fel arfer" yn ddigon, waeth pa mor dda y mae'n cael ei reoli. Yr her fydd ystyried modelau darparu amgen ar gyfer gwasanaethau ar draws y Cyngor a bydd hyn yn hanfodol i liniaru effaith toriadau ac yn cynorthwyo i barhau i ddarparu gwasanaethau o flaenoriaeth. Wrth i'r Cyngor barhau i dderbyn llai o adnoddau, a gweld galw cynyddol am wasanaethau a ffurfiau newydd ac arloesol o ddarparu, mae angen sicrhau bod yr amgylchedd reolaeth, gan gynnwys llywodraethu a rheoli risg, yn parhau'n gadarn, yn gymesur ac mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

11.2 Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ddiwyro yn ei ymrwymiad i wella a dod o hyd i ffyrdd o ddarparu gwasanaethau lleol, gan ddarparu gwell canlyniadau i drigolion a chyflawni arbedion a fydd yn sicrhau y gall ddarparu cyfres o gyllidebau wedi'i mantoli.

11.3 Yn seiliedig ar y gwaith archwilio mewnol a wnaed ar gyfer y flwyddyn 2016-17, daeth y Pennaeth Archwilio mewnol i'r casgliad yr ystyrir bod fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor yn foddhaol ac na nodwyd unrhyw wendidau rheolaeth fewnol trawsbynciol arwyddocaol a fyddai'n effeithio ar Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor. Mae'r gwendidau a nodwyd yn benodol i wasanaethau a derbyniwyd yr argymhellion a wnaed i wella'r amgylchedd rheolaeth cyffredinol ac maent / byddant yn cael eu gweithredu.

**Cynllun Gweithredu**

1. Adolygu'r Fframwaith Rheoli Perfformiad i gynnwys gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

2. Hyrwyddo'r Cod Llywodraethu Corfforaethol newydd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i sicrhau eu bod yn sail i bopeth y mae'r Cyngor yn ei wneud.

3. Mae'r Gwasanaethau Democrataidd yn diweddaru Blaenraglen Waith y Cabinet a bydd yn ei chyhoeddi ar y wefan i wella tryloywder a mynediad at y cyhoedd. Bydd y cynllun dirprwyo hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor hefyd.

4. Bydd y gweithgor a sefydlwyd i lunio datganiad llywodraethu eleni ac i adolygu Cod Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor i adlewyrchu egwyddorion newydd 2016 CIPFA yn parhau i weithio gyda'i gilydd i hyrwyddo egwyddorion 2016 newydd CIPFA a gwella'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

5. Bydd y Cyngor yn rhoi mesurau ar waith i ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad Cydnerthedd Ariannol ac yn sicrhau bod trefniadau cynllunio ariannol yn cael eu cryfhau gyda chynlluniau darparu arbedion ac amserlenni gweithredu mwy cadarn.

## 12. Ardystiad o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Bydd camau i roi sylw i'r materion y cyfeirir atynt yn adran 11 uchod a'u lliniaru yn cael eu cymryd i wella ein trefniadau llywodraethu.

Mae'r datganiad hwn yn dangos lefel y sicrwydd y gall trefniadau llywodraethu'r Cyngor ei darparu a bod y trefniadau'n dal i gael eu hystyried yn addas i'r diben.

**Llofnodion:**

| | | |
|---|---|---|
| **Swyddog Adran 151:** | ________________________________ | **28 Medi 2017** |
| | **Randal Hemmingway** | |
| **Prif Swyddog Gweithredol:** | ________________________________ | **28 Medi 2017** |
| | **Darren Mepham** | |
| **Arweinydd y Cyngor:** | ________________________________ | **28 Medi 2017** |
| | **Y Cynghorydd Huw David** | |

# Datganiad o Bolisïau Cyfrifo

## 1. Egwyddorion Cyffredinol

Mae’r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17 a’i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn, sef 31 Mawrth 2017. Mae’n ofynnol i’r Cyngor baratoi Datganiad o Gyfrifon blynyddol yn ôl Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, yn unol ag arferion cyfrifo priodol. Mae’r arferion hyn yn cynnwys *Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y Cod) 2016-17 a *Chod Ymarfer Adrodd y Gwasanaeth* 2016-17 a gefnogir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Y confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad o Gyfrifon yw cost hanesyddol yn bennaf, wedi ei addasu drwy ailbrisio gwerth rhai categorïau penodol o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

## 2. Croniadau incwm a gwariant

Rhoddir cyfrif am weithgarwch ariannol yn y flwyddyn y mae’n digwydd, nid yn unig pan dderbynnir neu pan wneir taliadau arian parod. Yn benodol:

- Caiff refeniw o werthu nwyddau ei gydnabod pan fydd y Cyngor yn trosglwyddo risgiau a manteision sylweddol perchnogaeth i’r prynwr a’i bod yn debygol y bydd y Cyngor yn elwa o fanteision ariannol y trosglwyddiad neu’r posibiliadau y mae’n ei gynnig o ran gwasanaethau.
- Caiff refeniw o ddarparu gwasanaethau ei gydnabod pan gall y Cyngor fesur yn ddibynadwy y canran o’r trosglwyddiad sydd wedi ei gwblhau a’i bod yn debygol y bydd y Cyngor yn elwa o fanteision ariannol y trosglwyddiad neu’r posibiliadau y mae’n ei gynnig o ran gwasanaethau.
- Caiff cyflenwadau eu cofnodi fel gwariant pan gânt eu defnyddio – os oes bwlch rhwng dyddiad derbyn a dyddiad defnyddio’r cyflenwadau, fe’u nodir fel stociau ar y Fantolen.
- Caiff treuliau sy’n gysylltiedig â derbyn gwasanaethau (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan gyflogwyr) eu cofnodi fel gwariant pan dderbynnir y gwasanaethau yn hytrach na phan wneir taliadau.
- Caiff llog a dderbynnir ar fuddsoddiadau ac sy’n daladwy ar fenthyciadau ei gyfrifo fel naill ai incwm neu wariant ar sail y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol priodol yn hytrach nag ar y llif arian sydd wedi ei bennu neu ei sefydlu gan y cytundeb.
- Pan gydnabyddir bod refeniw a gwariant wedi digwydd ond nad oes arian wedi ei dalu neu ei dderbyn, nodir y dyledwr neu’r credydwr am y swm priodol ar y Fantolen. Os na thelir dyledion, nodir balans y dyledwyr a chodir tal i wneud iawn am yr incwm na ddaw o bosib i’r coffrau.

## 3. Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol

<u>Darpariaethau</u>

Os cynhelir digwyddiad gwneir darpariaeth sy’n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu ffurfiannol ar y Cyngor sydd yn ôl pob tebyg yn gofyn am setliad drwy drosglwyddiad sydd o fudd economaidd neu yn cynnig posibiliadau o ran gwasanaethau, a gellir gwneud amcangyfrif rhesymol am gyfanswm y rhwymedigaeth. Er enghraifft, gallai’r Cyngor fod yn rhan o achos llys a allai arwain yn y pen draw at setliad neu at dalu iawndal.

Codir tâl am ddarpariaethau fel traul ar y llinell gwasanaeth priodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw’r Cyngor yn ymwybodol o’r rhwymedigaeth. Mesurir y rhain yn unol â’r amcangyfrif gorau ar ddyddiad y fantolen o’r gwariant sy’n ofynnol i setlo’r rhwymedigaeth, gan ystyried unrhyw risg ac ansicrwydd perthnasol.

Pan wneir taliadau yn y pen draw, fe'u codir ar y ddarpariaeth a nodir ar y Fantolen. Caiff taliadau sydd wedi eu hamcangyfrif eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, ac os yw'n annhebygol y bydd angen gwneud trosglwyddiad buddiannau economaidd (neu fod y setliad yn is na'r disgwyl) caiff y ddarpariaeth ei gwyrdroi a'i chredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Os disgwylir y caiff cyfran neu'r cyfan o'r taliad sydd ei angen ar gyfer darpariaeth ei adhawlio gan barti arall (e.e. o hawliad yswiriant), caiff hyn ei gydnabod fel incwm ar gyfer y gwasanaeth perthnasol dim ond os oes sicrwydd pendant y derbynnir ad-daliad os yw'r Cyngor yn talu'r ddyled.

Rhwymedigaethau Digwyddiadol

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn bodoli os cynhaliwyd digwyddiad sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl ar y Cyngor y caiff ei fodolaeth ei gadarnhau dim ond yn achos neu yn niffyg achos digwyddiadau yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr dan reolaeth y Cyngor. Mae Rhwymedigaethau Digwyddiadol hefyd yn bodoli mewn amgylchiadau lle y gwneid darpariaeth fel arall ond ei bod naill ai'n annhebygol y bydd angen defnyddio llawer o adnoddau neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Ni chaiff rhwymedigaethau digwyddiadol eu cydnabod ar y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn yn y cyfrifon.

Asedau Digwyddiadol

Mae ased digwyddiadol yn bodoli os cynhaliwyd digwyddiad sy'n rhoi ased posibl i'r Cyngor y caiff ei fodolaeth ei gadarnhau dim ond yn achos neu yn niffyg achos digwyddiadau yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr dan reolaeth y Cyngor.

Ni chaiff asedau digwyddiadol eu cydnabod ar y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn yn y cyfrifon os yw'n debygol y daw manteision economaidd neu bosibiliadau o ran gwasanaethau i ran y Cyngor.

**4. Cronfeydd Wrth Gefn**

Mae'r Cyngor yn neilltuo symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn at ddibenion polisïau'r dyfodol neu oherwydd digwyddiadau annisgwyl. Caiff cronfeydd wrth gefn eu creu drwy briodoli symiau o Weddill Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd. Os cyfyd gwariant sydd i'w dalu o gronfa wrth gefn, fe'i codir ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i'w nodi yn erbyn y Gweddill neu'r Diffyg yn gysylltiedig â'r Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff y gronfa wrth gefn ei phriodoli wedyn yn ôl i Weddill Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd fel nad oes unrhyw daliadau net yn erbyn y dreth gyngor ar gyfer y gwariant.

Cedwir rhai cronfeydd wrth gefn i reoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol, buddiannau gweithwyr ac ymddeoliad. Mae'r rhain yn gronfeydd 'na ellir eu defnyddio' fel y disgrifir yn Nodyn 28 y cyfrifon.

**5. Grantiau a chyfraniadau'r Llywodraeth**

Boed grantiau llywodraeth a chyfraniadau trydydd parti yn cael eu talu ar gyfrif, mewn rhandaliadau neu ôl-daliadau, cânt eu cydnabod fel dyledion i'r Cyngor os oes sicrwydd rhesymol:

- y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm â'r taliadau, ac
- y derbynnir y grant / cyfraniad.

Ni chaiff symiau y cydnabyddir eu bod yn ddyledus i'r Cyngor eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr nes y bodlonir yr amodau sy'n gysylltiedig â'r grant neu'r cyfraniad. Mae'r amodau yn dynodi bod yn rhaid i'r manteision economaidd yn y dyfodol neu'r posibiliadau o ran gwasanaethau sydd ynghlwm â'r ased a brynir gyda'r grant neu'r cyfraniad gael eu defnyddio gan y sawl sy'n ei dderbyn fel y nodwyd, neu bydd yn rhaid dychwelyd y manteision economaidd neu'r posibiliadau o ran gwasanaethau i'r rhoddwr.

Os rhoddwyd arian fel grant neu gyfraniad ac nas bodlonwyd yr amodau ar gyfer hynny, yna nodir hyn fel credydwyr ar y Fantolen. Os bodlonir yr amodau, caiff y grant neu'r cyfraniad ei gredydu i'r llinell gwasanaeth perthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw wedi eu priodoli) neu i Incwm Grant Amhenodol a Threthiant (grantiau refeniw heb eu clustnodi a phob grant cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Os caiff grantiau cyfalaf eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwyrdroi o Weddill Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd. Os nad yw'r grant wedi ei ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei symud i'r Gronfa Grantiau Cyfalaf Anghymwys. Caiff symiau yn y Gronfa Grantiau Cyfalaf Anghymwys eu trosglwyddo i'r Cyfrif Cymhwyso Cyfalaf ar ôl eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

**6. Manteision gweithwyr**

Buddion sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr i weithwyr yw'r rheini sydd angen eu talu o fewn 12 mis o ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis enillion a chyflogau, gwyliau blynyddol â thâl, tâl absenoldeb salwch a bonysau ar gyfer gweithwyr presennol. Fe'u cydnabyddir fel gwariant ar wasanaethau yn y flwyddyn y mae gweithwyr yn rhoi gwasanaeth i'r Cyngor. Os nad yw gweithiwr wedi defnyddio'r gwyliau sy'n ddyledus iddo cyn diwedd y flwyddyn, mae modd cronni'r gwyliau a'u dwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Codir y croniad ar y llinell Cost Gwasanaeth priodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yna caiff ei wyrdroi o Weddill Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd fel y codir buddion gwyliau ar y refeniw yn y flwyddyn ariannol lle bu'r absenoldeb gwyliau.

Buddion Terfynu

Buddion terfynu yw'r symiau sy'n daladwy oherwydd penderfyniad y Cyngor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn ymddeoliad gwirfoddol. Fe'u codir ar sail croniadau ar y llinell Cost Gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fo'r Cyngor yn amlwg wedi ymrwymo i ddiddymu cyflogaeth swyddog neu grŵp o swyddogion neu yn gwneud cynnig i annog diswyddiadau gwirfoddol.

Os yw buddion terfynu yn cynnwys cynyddu pensiynau, mae darpariaeth statudol yn gofyn bod angen codi ar Weddill Cronfa'r Cyngor y swm sy'n ddyledus gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu'r pensiynwr yn y flwyddyn honno, nid y swm y cyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd, mae angen gwneud dyraniadau i'r Gronfa Bensiwn ac oddi wrthi er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau tybiannol ar gyfer buddion terfynu sy'n cynnwys cynyddu pensiwn a'u disodli gan ddebydau am yr arian a delir i'r gronfa bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau cyffelyb sy'n daladwy ond heb eto eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn gwahanol. Mae'r ddau gynllun yn cynnig buddion penodol i aelodau (cyfandaliadau ymddeol a phensiynau), a enillwyd pan oedd y gweithwyr yn gweithio i'r Cyngor.

- Y *Cynllun Pensiwn Athrawon*, a weinyddir gan Bensiynau Athrawon ar ran yr Adran Addysg. Mae trefniadau'r cynllun hwn yn golygu nad oes modd fel arfer dynodi cyfrifoldebau ar gyfer buddion yn benodol i'r Cyngor. Felly, caiff y cynllun ei gyfrif yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac ni chydnabyddir unrhyw gyfrifoldeb am dalu buddion yn y dyfodol ar y Fantolen. Caiff cyfraniadau'r cyflogwr at Bensiynau Athrawon yn y flwyddyn eu codi ar y llinell Addysg a Theulu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

- *Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol* – mae hawl gan weithwyr eraill i fod yn aelodau o Gronfa Pensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Cyfrifir Cynllun yr Awdurdod Lleol fel cynllun budd diffiniedig:-

- Caiff ymrwymiadau'r cynllun pensiwn a briodolir i'r Cyngor eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio dull unedol arfaethedig h.y. asesiad o daliadau a wneir yn y dyfodol mewn cysylltiad â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan weithwyr. Mae hyn yn seiliedig ar dybiaethau ynglŷn â chyfraddau marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr ac ati, ac amcanestyniadau enillion arfaethedig ar gyfer gweithwyr presennol.

- Caiff yr ymrwymiadau eu gostwng i'w gwerth i gyfateb i brisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt.

- Caiff asedau'r gronfa bensiwn a briodolir i'r Cyngor eu cynnwys ar y Fantolen yn unol â'u gwerth teg:-
  i. Gwarannau wedi eu dyfynnu – pris cynnig cyfredol
  ii. Gwarannau heb eu dyfynnu – rhagamcan proffesiynol
  iii. Eiddo – gwerth y farchnad

- Caiff y newid yn yr ymrwymiad pensiwn net ei ddadansoddi i'r cydrannau canlynol:-

  iv. Cost gwasanaeth presennol – y cynnydd mewn ymrwymiadau oherwydd nifer y blynyddoedd y byddid wedi eu gweithio eleni - wedi eu dynodi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau y bu'r gweithwyr yn gweithio iddynt.
  v. Cost gwasanaeth yn y gorffennol – y cynnydd mewn ymrwymiadau oherwydd addasu neu gwtogi'r cynllun mewn modd sy'n berthnasol i nifer y blynyddoedd a weithiwyd yn y gorffennol – nodir fel debyd i'r Gwasanaethau Canolog yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
  vi. Y llog net ar yr ymrwymiad budd net diffiniedig (ased), h.y. y draul llog net ar gyfer y Cyngor - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad budd net diffiniedig (ased) sy'n deillio o dreigl amser ac a godir ar y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Cyfrifir hyn drwy ddefnyddio'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir i fesur y rhwymedigaeth budd diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod i'r ymrwymiad budd diffiniedig net (ased) - gan ystyried unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad budd diffiniedig net (ased) yn ystod y cyfnod oherwydd cyfraniadau a thaliadau buddion.
  vii. Adfesuriadau yn cynnwys:-

- Yr enillion yn deillio o asedau'r cynllun – ac eithrio symiau wedi eu cynnwys yn y llog net a geir ar y ddyled budd diffiniedig (ased) – a godir ar y Gronfa Bensiwn ac ar yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

- Enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau yn yr ymrwymiadau pensiwn net oherwydd ni ddigwyddodd pethau fel y rhagdybiwyd wrth lunio'r prisiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwarïaid wedi diweddaru eu rhagdybiaethau - a godir ar y Gronfa Bensiwn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall:-

viii. Cyfraniadau i'r gronfa bensiwn - arian a delir fel cyfraniad y cyflogwr i'r gronfa bensiwn i setlo ymrwymiadau - ni chyfrifir hyn fel traul.

- O ran buddion ymddeol, mae darpariaeth statudol yn gofyn bod y swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu yn uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn yn cael ei godi ar weddill Cronfa'r Cyngor, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd, golyga hyn fod trosglwyddiadau i'r Gronfa Bensiwn ac ohoni er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau tybiannol ar gyfer buddion terfynu cynnydd pensiwn a'u disodli gyda debydau am yr arian a delir i'r gronfa bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau cyffelyb sy'n daladwy ond eto heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae gweddill negyddol y Gronfa Bensiwn felly yn mesur yr effaith lesol ar Gronfa'r Cyngor o fod angen cyfrifo buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na fel buddion a enillwyd gan y gweithwyr.

- Mae gan y Cyngor hefyd rymoedd cyfyngedig i ddyfarnu buddion ymddeol dewisol yn achos ymddeoliad cynnar. Caiff unrhyw ymrwymiadau a ragwelir oherwydd dyfarniad i unrhyw aelod o staff (gan gynnwys athrawon) eu cronni yn y flwyddyn y penderfynwyd gwneud y dyfarniad a'u cyfrifo gan ddefnyddio'r un polisïau sy'n berthnasol i Gronfa Bensiwn yr Awdurdod Lleol.

### 7. TAW

Caiff TAW sy'n daladwy ei gynnwys fel traul dim ond i'r graddau nad oes modd ei adhawlio gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Caiff TAW y mae modd ei dderbyn ei eithrio o'r incwm.

### 8. Gorbenion a Gwasanaethau Cefnogi

Yn unol â newidiadau yn y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol (Y Cod) ar gyfer 2016-17, dangosir gorbenion a gwasanaethau cefnogi yn y gwasanaeth perthnasol lle gwnaethant darddu ac ni chant eu hailgodi ar feysydd cefnogi gwasanaethau. Caiff unrhyw incwm mewnol a ddaw yn sgil trosglwyddiadau rhwng adrannau ei ddangos yn y llinell darparu gwasanaeth a dangosir y tâl cyfatebol yn y llinell derbyn gwasanaeth. Mae hyn yn wahanol i 2015-16 pan ail-godwyd costau cefnogi yn unol â Chod Ymarfer Adrodd y Gwasanaeth.

### 9. Asedau Anniriaethol

Mae'r Cyngor yn cyfrifo meddalwedd yn asedau anniriaethol i'r graddau nad yw'r feddalwedd yn rhan greiddiol o system TG benodol ac y caiff ei chyfrifo fel rhan o eitem caledwedd Eiddo, Offer a Chyfarpar. Mae asedau anniriaethol yn berthnasol i gostau trwydded a datblygu meddalwedd System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru

Rhoddir terfyn oes defnyddiol i bob meddalwedd, yn seiliedig ar asesiadau o'r cyfnod y mae disgwyl y bydd y feddalwedd o ddefnydd i'r Cyngor. Y ffigur oes ddefnyddiol mae Cyngor System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn ei ddefnyddio yw 8 mlynedd. Caiff yr ased anniriaethol ei amorteiddio ar sail llinell syth dros gyfnod yr oes ddefnyddiol ac fe'i codir ar y llinell Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

### 10. Eiddo, Offer a Chyfarpar

Caiff asedau sydd â sylwedd materol ac a gedwir i'w defnyddio i gynhyrchu neu ddarparu nwyddau neu wasanaethau, i'w llogi i eraill neu at ddibenion gwleidyddol, ac y mae disgwyl eu defnyddio yn ystod mwy nac un flwyddyn ariannol, eu cyfrif yn Eiddo, Offer a Chyfarpar. Caiff asedau sydd wrthi'n cael eu creu ar ddiwedd y flwyddyn, ac nad ydynt eto mewn cyflwr y mae modd eu defnyddio, eu cyfrif yn Asedau dan Wneuthuriad.

**Cydnabyddiaeth**

Caiff arian a werir ar brynu, creu neu wella Eiddo, Offer neu Gyfarpar ei gyfalafu ar sail groniadol, cyn belled â'i bod yn debygol y bydd y Cyngor yn elwa o'r buddion economaidd neu'r posibiliadau o ran gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r eitem, a bod modd mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Caiff gwariant o lai na £40,000 ar asedau ei gydnabod fel ased ond fe'i trinnir fel gwariant anghynyddol a chaiff y gwerth ei leihau yn llawn ar unwaith.  Caiff gwariant sy'n cynnal ond nad yw'n ychwanegu at botensial ased i ddarparu buddion economaidd neu botensial o ran gwasanaethau (h.y. gwaith trwsio a chynnal a chadw) ei godi fel traul pan werir yr arian.

**Mesur**

Fel man cychwyn caiff asedau eu mesur o ran eu cost, gan gynnwys:

- Y pris prynu
- Unrhyw gostau yn gysylltiedig â chael yr eitem i'r lleoliad a'r cyflwr angenrheidiol fel ei fod yn gallu gweithio yn ôl bwriad y rheolwyr

Tybir mai cost asedau y mae'r Cyngor yn eu caffael mewn dulliau eraill yn hytrach na'u prynu yw eu pris teg, oni bai nad oes sylwedd masnachol i'r caffaeliad (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian y Cyngor). Yn yr achos olaf, os caiff yr ased ei gaffael drwy ei gyfnewid, cost y caffael yw swm yr ased mae'r Cyngor yn ei ildio.

Caiff asedau eu nodi ar y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- asedau cymunedol ac isadeiledd – cost dibrisiant hanesyddol
- asedau dros ben – gwerth teg, yn seiliedig ar y defnydd 'mwyaf a gorau' yn unol ag IFRS13
- asedau a ddelir ar gyfer eu gwerthu – yn is na gwerth teg a gwerth y farchnad llai cost y gwerthiant
- pob ased arall – gwerth teg, a bennir fel y gwerth a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei gyflwr presennol (gwerth defnydd presennol).

Os nad oes tystiolaeth yn seiliedig ar y farchnad o bris teg oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir cost cyfnewid dibrisiedig fel amcan o'r gwerth teg.

Os oes bywyd defnyddiol byr neu werth isel gan asedau di-eiddo (neu'r ddau) defnyddir cost dibrisiant hanesyddol fel procsi ar gyfer gwerth teg.

Caiff asedau a gynhwysir ar y Fantolen yn unol â'u gwerth teg eu hailbrisio mor gyson ag sydd ei angen i sicrhau nad yw eu gwerth a ddygir ymlaen yn wahanol i'w gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn, ond fel isafswm bob pum mlynedd. Bydd unrhyw gynnydd mewn gwerth yn cyfateb i gredydau i'r Gronfa Ailbrisio i gydnabod unrhyw gynnydd nas gwireddwyd.

Os nodir gostyngiad mewn gwerth, cyfrifir hynny fel a ganlyn:

- os oes cydbwysedd o enillion ailbrisio ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio, caiff swm yr ased a ddygir ymlaen ei nodi yn erbyn y gweddill (hyd at swm yr enillion cronedig)
- os nad oes gweddill yn y Gronfa Ailbrisio neu weddill annigonol, caiff swm yr ased a ddygir ymlaen ei nodi yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Ailbrisio yn cynnwys enillion ailbrisio a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, sef y dyddiad gweithredu ffurfiol. Mae enillion a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi eu cyfuno yn y Gronfa Cymhwyso Cyfalaf

**Diffygiant**

Caiff asedau eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn i weld a oes unrhyw arwydd o ddiffygiant. Os oes, ac yr amcangyfrifir bod unrhyw wahaniaethau posibl yn rhai materol, amcangyfrifir swm adferadwy'r ased. Os yw hyn yn llai na swm yr ased a ddygir ymlaen, cydnabyddir bod colled diffygiant yn rhan o'r diffyg.

Pan nodir colledion diffygiant, fe'u cyfrifir fel a ganlyn:

- os oes gweddill o enillion ailbrisio ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn, nodir swm yr ased a ddygir ymlaen yn erbyn y gweddill (hyd at swm yr enillion cronedig)
- os nad oes gweddill yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn neu weddill annigonol caiff swm yr ased a ddygir ymlaen ei nodi yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan gaiff colled diffygiant ei wyrdroi maes o law, caiff hyn ei gredydu i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, hyd at swm y golled wreiddiol, wedi ei addasu ar gyfer y dibrisiant y byddid wedi ei godi pe na sylwyd ar y golled.

**Dibrisiant**

Darperir ar gyfer dibrisiant ar asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar drwy fynd ati'n systematig i ddyrannu eu symiau dibrisiant dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb hyd oes defnyddiol pendant (h.y. tir ar les ac Asedau Cymunedol penodol) ac asedau nad ydynt ar gael i'w defnyddio eto (h.y. asedau sy'n cael eu cynhyrchu).

Caiff dibrisiant ei gyfrifo ar y seiliau canlynol:

- **adeiladau** – Cânt eu dibrisio ar sail llinell-syth yn unol ag amcan oes ased (yn amrywio o un flwyddyn i 79 mlynedd) yn seiliedig ar y gwerth ar ddechrau'r flwyddyn, oni bai am dir, na chaiff ei ddibrisio.
- **cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar** – Cânt eu dibrisio ar sail llinell-syth yn unol ag amcan oes yr ased (yn amrywio o 3 blynedd i 10 mlynedd).
- **isadeiledd** - Caiff ei ddibrisio ar sail llinell-syth dros gyfnod o 30 mlynedd ar gyfer Pontydd, 15 mlynedd ar gyfer Ffyrdd ac asedau isadeiledd eraill yn dibynnu ar amcan oes yr ased (yn amrywio o un flwyddyn i 30 mlynedd).

Oes oes gan eitem o ased Eiddo, Offer a Chyfarpar gydrannau sylweddol y mae eu cost yn sylweddol mewn cysylltiad â chyfanswm cost yr eitem, caiff y cydrannau eu dibrisio yn unigol yn unol â'r oes sy'n weddill.

Caiff enillion ailbrisio eu dibrisio hefyd, gyda swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng y gwerth dibrisiant presennol a godir ar asedau a'r dibrisiant y byddid wedi ei godi yn seiliedig ar drosglwyddo'u cost hanesyddol bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

**Gwaredu ac Asedau Anghyfredol a Ddelir i'w Gwerthu**

Os yw hi'n debygol y caiff y swm ased a ddygir ymlaen ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na pharhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu fel Ased a Ddelir i'w Werthu. Caiff yr ased ei

ailbrisio'n syth cyn ei ailddosbarthu yn unol ag IFRS13 yn seiliedig ar Werth Teg, sef y gwerth y tybir y gellid gwerthu'r ased amdano mewn gwerthiant marchnad trefnus. Os yw'r gwerth teg llai'r costau gwerthu maes o law yn lleihau, caiff y golled ei nodi yn y llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff enillion mewn gwerth teg eu cydnabod dim ond hyd at swm unrhyw golledion blaenorol a gydnabyddir yn y (Gwarged) neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau. Ni chodir Dibrisiant ar Asedau a Ddelir i'w Gwerthu.

Os nad yw asedau bellach yn bodloni'r meini prawf i'w dynodi'n Asedau a Ddelir i'w Gwerthu, cânt eu hailddosbarthu'n asedau anghyfredol a'u prisio ar sail isaf eu gwerth a ddygwyd ymlaen cyn y cawsant eu dosbarthu'n asedau a ddelir i'w gwerthu (wedi eu haddasu ar gyfer dibrisiad, amorteiddio neu ailbrisio y byddid wedi eu cydnabod pe na baent wedi eu dosbarthu fel asedau a ddelir i'w gwerthu) a'u swm adenilladwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio â'u gwerthu.

Ni chaiff asedau sy'n mynd i gael eu gwaredu eu hailddosbarthu'n Asedau a Ddelir i'w Gwerthu.

Pan gaiff ased ei waredu neu ei ddigomisiynu, caiff swm yr ased a ddygir ymlaen sydd ar y Fantolen ei ddileu (boed yn Eiddo, Offer a Chyfarpar neu yn Asedau a Ddelir i'w Werthu) i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn rhan o'r enillion neu'r colledion pan gaiff ei waredu. Caiff unrhyw dderbyniadau o'r gwaredu (os o gwbl) eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd yn rhan o'r fantais neu'r golled o'r gwaredu (h.y eu debydu yn erbyn gwerth yr ased a ddygir ymlaen ar adeg y gwaredu). Caiff unrhyw enillion a geir o ailbrisio ac a gronnir yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn eu trosglwyddo i'r Cyfrif Cymhwyso Cyfalaf.

Caiff symiau o fwy na £10,000 a dderbynnir am waredu ased eu dynodi'n dderbyniadau cyfalaf. Mae angen credydu'r derbyniadau i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf, ac ni ellir ond eu defnyddio wedyn ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf newydd neu eu rhoi o'r neilltu i leihau angen sylfaenol y Cyngor i fenthyg (y gofyniad ariannu cyfalaf). Priodolir derbyniadau i'r Gronfa o Weddill Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd.

Nid chaiff y gwerth a ddilëir pan waredir ar asedau ei godi yn erbyn y dreth gyngor, oherwydd mae costau asedau sefydlog wedi eu darparu'n llwyr ar eu cyfer yn unol â threfniadau ar wahân ar gyfer ariannu cyfalaf. Priodolir y symiau i'r Gronfa Cymhwyso Cyfalaf o Weddill Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd.

### 11. Asedau Treftadaeth

Asedau Treftadaeth yw'r asedau hynny y bwriedir eu diogelu mewn ymddiriedaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwylliannol, amgylcheddol neu hanesyddol. Caiff Asedau Treftadaeth eu cydnabod a'u mesur (gan gynnwys trin enillion a cholledion ailbrisio) yn unol â pholisïau cyfrifyddu'r Cyngor ar eiddo, offer a chyfarpar. Mae'r Cyngor yn cyfrif ei addurndlysau dinesig fel Ased Treftadaeth, a nodir yr eitemau hyn ar y Fantolen yn unol â'r gwerth yswiriol sy'n seiliedig ar werth y farchnad. Mae'r Cyngor hefyd yn berchen ar nifer o luniau mewn gwahanol adeiladau a rhai darnau o gelfyddyd gyhoeddus. Fodd bynnag, ni nodir eu gwerth ar y fantolen oherwydd nid yw ffyrdd confensiynol o brisio yn ddigon dibynadwy i'w cynnwys.

Caiff y symiau a ddygir ymlaen ar asedau treftadaeth eu hadolygu os oes tystiolaeth o ddiffygiant, e.e. os yw eitem wedi dirywio'n faterol neu wedi torri neu os oes amheuon ynghylch ei ddilysrwydd. Caiff unrhyw ddiffygiant ei gydnabod a'i fesur un unol â pholisïau cyffredinol y Cyngor ynghylch diffygiant. Os yw'r Cyngor yn cael gwared ag ased treftadaeth, caiff yr enillion eu cyfrifo yn unol â darpariaethau cyffredinol y cyngor ynghylch gwaredu ar eiddo, offer a chyfarpar. Caiff enillion a geir o waredu eu datgelu ar wahân yn nodiadau'r datganiadau ariannol a'u cyfrifo yn unol â'r gofynion cyfrifyddu statudol sy'n berthnasol i wariant ac enillion cyfalaf.

## 12. Codi refeniw am asedau anghyfredol

Caiff gwasanaethau eu debydu gyda'r symiau canlynol i gofnodi gwir gost dal asedau sefydlog dros y flwyddyn:

- Dibrisiant a briodolir i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol
- Colledion ailbrisio a diffygiant asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth os nad oes enillion cronedig yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn y mae modd dileu'r ddyled yn eu herbyn.

Nid oes angen i'r Cyngor godi treth gyngor i ariannu dibrisiant, ailbrisio, colledion diffygiant neu amorteiddio. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddo wneud darpariaeth flynyddol ddarbodus o'r refeniw i gyfrannu at y lleihad yn ei anghenion benthyca cyffredinol. Manylir ar hyn yn Natganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw Blynyddol y Cyngor. Mae'n gwahaniaethu rhwng gwariant cyfalaf a gefnogir, gwariant cyfalaf nas cefnogir a Phrydlesi Ariannol / PFI. Caiff dibrisiant, ailbrisio a cholledion diffygiant ac amorteiddio eu disodli felly gan yr *Isafswm Darpariaeth Refeniw* hwn ar ffurf trosglwyddiad cymhwyso gyda'r Cyfrif Cymhwyso Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

## 13. Gwariant Refeniw a Ariennir o Adnoddau Cyfalaf dan Statud (REFCUS)

Caiff arian a wariwyd yn ystod y flwyddyn ac y mae modd ei gyfalafu dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n arwain at greu asedau anghyfredol ei godi fel gwariant ar y gwasanaeth penodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn honno. Mae enghreifftiau o wariant o'r fath yn cynnwys grantiau gwella cartrefi, grantiau gwella trefi, dymchwel adeiladau ac astudiaethau dichonoldeb tir. Os yw'r Cyngor wedi penderfynu talu costau'r rhain o adnoddau cyfalaf sy'n bodoli eisoes neu drwy fenthyg, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd o Weddill Cronfa'r Cyngor i'r Gronfa Cymhwyso Cyfalaf yn gwyrdroi'r symiau a godir fel nad oes effaith ar lefel y dreth gyngor. Os yw'r gwariant hwn wedi ei ariannu gan grantiau neu gyfraniadau, priodolir hyn i'r maes gwasanaeth perthnasol lle codwyd y gwariant.

## 14. Lesoedd

Caiff lesoedd eu cyfrif yn lesoedd cyllid os yw telerau'r les yn trosglwyddo bron iawn pob un o'r peryglon a'r manteision sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth yr eiddo, offer neu gyfarpar, o'r lesydd i'r lesddeiliad. Caiff pob les arall eu cyfrif yn lesoedd gweithredol.

Os yw les yn ymwneud â thir ac adeiladau, caiff yr elfennau tir ac adeiladau eu hystyried ar wahân ar gyfer dosbarthiad.

Caiff trefniadau nad oes ganddynt statws cyfreithiol les, ond sy'n cydnabod hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am dâl, eu cyfrifo yn unol â'r polisi hwn os yw cyflawni'r cytundeb yn ddibynnol ar ddefnyddio asedau penodol.

### Y Cyngor fel Lesddeiliad

<u>Lesoedd Cyllid</u>

Caiff eiddo, offer a chyfarpar a ddelir dan lesoedd cyllid eu nodi ar y Fantolen ar ddechrau'r les yn ôl eu gwerth teg a fesurir ar ddechrau'r les (neu werth presennol yr isafswm taliadau les, os yw'n llai). Caiff yr ased a gydnabyddir ei baru ag ymrwymiad i'r rhwymedigaeth i dalu'r lesoedd. Caiff y costau uniongyrchol cychwynnol eu hychwanegu at swm yr ased a ddygir ymlaen. Caiff unrhyw bremiwm a delir wrth lofnodi les ei ddefnyddio i ddibrisio ymrwymiad y les. Caiff rhenti annisgwyl eu codi fel treuliau yn y cyfnodau y maent yn berthnasol:

Caiff taliadau les eu rhannu rhwng:

- tâl am gaffael y llog yn yr eiddo, offer neu gyfarpar – a ddefnyddir i ddibrisio ymrwymiad y les.
- tâl cyllid (a gaiff ei ddebydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Caiff Eiddo, Offer a Chyfarpar a ddynodir dan lesoedd cyllid eu cyfrifo gan ddefnyddio'r polisïau a gymhwysir yn gyffredinol i asedau o'r fath, a chodir am y dibrisiant dros gyfnod y les os yw hyn yn fyrrach nag amcan oes ddefnyddiol yr ased (os nad yw perchnogaeth yr ased yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd cyfnod y les).

Nid oes angen i'r Cyngor godi treth gyngor i ariannu dibrisiant neu ailbrisio a cholledion diffygiant sy'n deillio o asedau ar les. Yn hytrach, mae'n rhaid iddo wneud cyfraniad blynyddol darbodus o'r cronfeydd refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig yn unol â gofynion statudol. Caiff dibrisiant a cholledion ailbrisio a diffygiant eu disodli felly gan gyfraniad Refeniw yng Ngweddill Cronfa'r Cyngor, ar ffurf trosglwyddiad cymhwyso gyda'r Cyfrif Cymhwyso Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

Lesoedd Gweithredol

Caiff rhenti a delir dan lesoedd gweithredol eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel traul o'r gwasanaethau sy'n elwa o ddefnyddio'r eiddo, offer neu gyfarpar sydd ar les. Codir ar sail llinell syth dros oes y les, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyfateb i batrwm y taliadau (e.e. os oes cyfnod di-rent ar ddechrau'r les).

**Y Cyngor fel Lesydd**

Lesoedd Gweithredol

Pan fo'r Cyngor yn rhoi les weithredol ar eiddo neu ar eitem o offer neu gyfarpar, caiff yr ased ei chadw ar y Fantolen. Caiff yr incwm rhent ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Gwneir credydau ar sail llinell syth dros oes y les hyd yn oed os nad yw'n cyfateb i batrwm y taliadau (e.e. y telir premiwm ar ddechrau'r les). Ychwanegir y costau cychwynnol uniongyrchol sy'n deillio o drafod a threfnu'r les at swm yr ased perthnasol a ddygir ymlaen ac fe'i codir fel traul dros gyfnod y les ar yr un sail ag incwm rhent.

**15. Ymrwymiadau Ariannol**

Caiff ymrwymiadau ariannol eu mesur yn y lle cyntaf ar sail eu gwerth teg ac fe'u dygir ymlaen ar eu cost amorteidddig. Caiff taliadau blynyddol a godir ar Adran Ariannu a Buddsoddi Incwm a Gwariant y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog sy'n daladwy ei seilio ar swm yr ymrwymiad a ddygir ymlaen, wedi ei luosogi â chyfradd wirioneddol y llog ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r benthyciadau sydd gan y Cyngor, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir ar y Fantolen yw'r prifswm sy'n weddill y mae angen ei ad-dalu ynghyd ag unrhyw log cronnus a llog wedi ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn yn unol â chytundeb y les.

Mae gan y Cyngor dri dewis o fenthyciad Dewis y Benthyciwr Dewis y Benthycai (*Lender's Option Borrower's Option* -'LOBOs' ) gyda gwahanol raddau o gyfraddau llog. Defnyddiwyd cyfradd incwm gwirioneddol ar gyfer y rhain fel eu bod yn symiau wedi eu hail-fesur ar gyfer y benthyciadau LOBOs ar y Fantolen.

## 16. Asedau Ariannol

Mae Benthyciadau a Symiau i'w Derbyn yn asedau sydd â thaliadau sefydlog neu bendant ond ni chânt eu rhestru mewn marchnad weithredol. Cânt eu mesur yn y lle cyntaf yn unol â'u gwerth teg ac fe'u dygir ymlaen ar eu cost amorteiddedig. Mae credydau blynyddol i'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer llog sydd i'w dderbyn yn seiliedig ar swm yr ased a ddygir ymlaen wedi ei luosogi â'r gyfradd llog gwirioneddol ar gyfer yr offeryn.

## 17. Rhestrau Eiddo a Chytundebau Hir Dymor

Caiff rhestrau eiddo eu cynnwys ar y Fantolen yn ôl y gost isaf a'r gwerth net sylweddoladwy. Bydd gwaith sydd ar y gweill yn destun prisiad interim ar ddiwedd y flwyddyn a chaiff ei gofnodi ar y Fantolen ar sail y gost ac unrhyw elw y mae modd ei briodoli'n rhesymol i'r gwaith.

Caiff cytundebau hirdymor eu cyfrifo ar sail codi gwerth y gwaith a'r gwasanaethau a dderbynnir dan y cytundeb yn ystod y flwyddyn ariannol ar y Gwarged neu'r Diffyg.

## 18. Mentrau Cyllid Preifat (PFI)

Contractau a chytundebau i dderbyn gwasanaethau yw Mentrau Cyllid Preifat, lle caiff y cyfrifoldeb o sicrhau bod yr eiddo, offer a chyfarpar sydd ei angen i ddarparu'r gwasanaethau yn cael ei drosglwyddo i gontractwr y Mentrau Cyllid Preifat. Oherwydd y tybir mai'r Cyngor sy'n rheoli'r gwasanaethau a ddarperir dan Fenter y Mentrau Cyllid Preifat, ac oherwydd y trosglwyddir perchnogaeth yr eiddo, offer a chyfarpar i'r Cyngor heb dâl ychwanegol ar ddiwedd y cytundebau, caiff yr asedau a ddefnyddir dan y cytundebau eu dwyn ymlaen gan y Cyngor ar ei Fantolen yn rhan o Eiddo, Offer a Chyfarpar.

Cafodd cydnabyddiaeth wreiddiol yr asedau hyn ei chydbwyso gan y gydnabyddiaeth o ymrwymiad am y symiau sy'n daladwy i weithredwr y cynllun er mwyn talu am y buddsoddiad cyfalaf.

Caiff Asedau Anghyfredol ar y Fantolen eu hailbrisio a'u dibrisio yn yr un modd ag eiddo, offer â chyfarpar sydd ym mherchnogaeth y Cyngor.

Caiff y symiau sy'n daladwy i weithredwyr y Mentrau Cyllid Preifat bob blwyddyn eu dadansoddi fel a ganlyn:-

- gwerth teg y gwasanaethau a dderbynnir yn ystod y flwyddyn – wedi eu debydu i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- cost cyllido – tâl llog ar yr ymrwymiad sy'n weddill ar y Fantolen, wedi ei ddebydu i'r adran Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi ar y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
- taliad tuag at yr ymrwymiad – er mwyn lleihau'r ymrwymiad ar y Fantolen sy'n ddyledus i weithredwr y Mentrau Cyllid Preifat

Mae asedau Mentrau Cyllid Preifat yn dibynnu ar Ddarpariaeth Isafswm Refeniw. Mae Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw Blynyddol y Cyngor yn ystyried bod y tâl hwn yn gyfystyr ag ymrwymiad y les gyllid a gaiff ei lleihau ar gyfer y flwyddyn.

<u>Credydau Mentrau Cyllid Preifat</u>
Caiff grantiau Llywodraeth a dderbynnir ar gyfer cynlluniau Mentrau Cyllid Preifat, y tu hwnt i lefelau gwariant presennol, eu dwyn ymlaen fel cronfa wrth gefn wedi ei chlustnodi er mwyn ariannu gwariant yn y dyfodol.

## 19. Trefniadau ar y Cyd

Yn ystod y flwyddyn roedd gan y Cyngor gyfrifoldebau gweinyddol am Gyflenwadau'r Fwrdeistref Sirol (County Borough Supplies) a beidiodd â masnachu ar 31 Mawrth 2016. Cytunodd y Cyngor ar y gweddill terfynol gyda'i awdurdodau partner ac archwiliwyd y cyfrifon terfynol yn 2016-17. Mae'r Cyngor yn parhau i fod â chyfrifoldebau gweinyddol dros Amlosga Llangrallo a pharheir i greu ac adolygu datganiadau ariannol annibynnol ar gyfer y cydbwyllgor hwn. Caiff y gweithgarwch sy'n ffrwyth y cyd-drefniadau hyn ei eithrio o'r datganiadau ariannol endid sengl ar sail materoldeb yr asedau a'r boblogaeth.

## 20. Incwm Treth Gyngor

Caiff yr holl incwm o'r Dreth Gyngor ei ddangos yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Cyngor gydag archebiannau'r prif gyrff (yn bennaf Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru) yn cael eu cynnwys fel gwariant.

## 21. Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau mewn Polisïau Cyfrifyddu ac Amcangyfrifon a Chamgymeriadau

Mae'n bosibl y cyfyd addasiadau cyfnod blaenorol o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifyddu neu i gywiro gwall sylweddol. Caiff newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu eu cyfrifo ar sail arfaethedig, h.y. yn y presennol ac yn y blynyddoedd i ddod y mae'r newid yn effeithio arnynt ac nid ydynt yn esgor ar addasiad cyfnod blaenorol.

Caiff gwallau sylweddol a ddarganfyddir mewn ffigurau cyfnod blaenorol eu cywiro ar ôl eu darganfod drwy addasu'r balansau agoriadol a'r symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

Ni newidir polisïau cyfrifyddu oni bai fod hynny'n ofynnol gan arferion cyfrifo priodol neu os yw'r newid yn cynnig gwybodaeth fwy dibynadwy neu briodol ynglŷn ag effaith y trosglwyddiadau, digwyddiadau ac amgylchiadau eraill ar sefyllfa neu berfformiad ariannol y Cyngor. Os gwneir newid, gwneir hynny yn ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) drwy addasu'r balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi bod yn berthnasol erioed.

## 22. Arian Parod a Buddsoddiadau Cyfwerth ag Arian Parod

Caiff arian parod ei gynrychioli gan arian mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol y mae modd eu had-dalu heb hysbysiad cosb o ddim mwy na 24 awr. Mae buddsoddiadau cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau sy'n aeddfedu mewn dim mwy na mis nau lai o'r dyddiad caffael ac y mae'n hawdd eu trosi i symiau gwybyddus o arian parod heb lawer o berygl o newid mewn gwerth.

Yn y Datganiad Llif Arian, caiff arian parod a buddsoddiadau cyfwerth ag arian parod eu dangos llai na gorddrafftiau banc y maent i'w had-dalu ar gais. Maent yn ffurfio rhan greiddiol o reolaeth ariannol y Cyngor.

## 23. Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau ffafriol neu anffafriol hynny sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad lle rhoddir awdurdod i ryddhau'r Datganiad o Gyfrifon. Mae dau fath o ddigwyddiad:

- digwyddiad sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o Gyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiad o'r fath

- digwyddiad sy'n arwydd o amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o Gyfrifon ei addasu i adlewyrchu newidiadau o'r fath, ond pe bai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith sylweddol, datgelir natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol tybiedig yn y nodiadau.

Ni chaiff digwyddiadau ar ôl dyddiad yr awdurdodi eu hadlewyrchu yn y Datganiad o Gyfrifon.

**24. Eiddo wedi ei Fuddsoddi**

Eiddo wedi ei fuddsoddi yw eiddo a ddefnyddir yn benodol i ennill rhent a/neu ar gyfer cynnydd yng ngwerth cyfalaf. Ni fodlonir y diffiniad os caiff yr eiddo ei ddefnyddio mewn unrhyw fodd i hwyluso darpariaeth gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os yw'r eiddo yn cael ei ddal ar gyfer ei werthu. Caiff eiddo buddsoddi eu mesur yn y lle cyntaf ar sail eu cost ac yna ar sail eu gwerth teg, yn seiliedig ar y swm y gellid trosglwyddo'r ased rhwng partïon ymwybodol sy'n gweithredu hyd braich. Ni chaiff eiddo eu dibrisio ond eu hailbrisio bob blwyddyn yn seiliedig ar amgylchiadau'r farchnad ar ddiwedd y flwyddyn. Caiff enillion a cholledion o ran ailbrisio eu nodi yn y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Chyllido ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff enillion a cholledion eu trin yn yr un modd wrth waredu eiddo.

Gofynnodd y Cyngor i'r priswyr allanol Cooke & Arkwright ddarparu prisiad ar bopeth ym mhortffolio buddsoddi'r Cyngor yn unol ag IFRS13 fel roedd y sefyllfa ar 31 Rhagfyr. Os nad yw hi'n bosibl mesur gwerth teg Eiddo Buddsoddi, Asedau Dros Ben ac Asedau a Ddelir i'w Gwerthu yn seiliedig ar ddyfynbrisiau mewn marchnadoedd gweithredol, (hynny yw mewnbynnau **Lefel 1**), mesurir eu gwerth teg gan ddefnyddio'r technegau prisio canlynol:

**Mewnbynnau lefel 2**: dyfynbrisiau ar gyfer asedau neu ymrwymiadau tebyg mewn marchnadoedd gweithredol ar ddyddiad y prisio.

**Mewnbynnau lefel 3**: prisiadau yn seiliedig ar brisiadau diweddaraf, wedi eu haddasu i'r pris presennol gan ddefnyddio adolygiad mynegeio a diffygiant.

Prisiwyd y rhan fwyaf o'r eiddo buddsoddi gan ddefnyddio mewnbynnau Lefel 2 gyda nifer wedi eu prisio gan ddefnyddio mewnbynnau Lefel 3.

Caiff y rhenti a dderbynnir mewn cysylltiad ag eiddo buddsoddi eu credydu i'r llinell Incwm Ariannu a Buddsoddi ac maent yn arwain at gynnydd yng Ngweddill Cronfa'r Cyngor. Fodd bynnag, yn ôl trefniadau statudol ni chaniateir i enillion a cholledion ailbrisio a gwaredu effeithio ar Weddill Cronfa'r Cyngor. Caiff yr enillion a'r colledion felly eu gwyrdroi o Weddill Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd a'u nodi yn y Gronfa Cymhwyso Cyfalaf ac (ar gyfer unrhyw enillion gwerthiant o fwy na £10,000) yn y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf.

**25. Lwfansau Ymrwymiad Lleihau Carbon**

Mae'n rhaid i'r Cyngor gyfrannu at Gynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon. Mae'n rhaid i'r Cyngor brynu ac ildio lwfansau, ar hyn ô bryd yn ôl-weithredol, ar sail allyriadau h.y. y carbon deuocsid a gynhyrchir wrth ddefnyddio ynni. Wrth ryddhau carbon deuocsid (h.y. wrth ddefnyddio ynni), cydnabyddir bod ymrwymiad a thraul. Caiff yr ymrwymiad ei ryddhau drwy ildio lwfansau. Mesurir yr ymrwymiad yn unol â'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i fodloni'r gofyn, fel arfer ar bris presennol y farchnad o ran nifer y lwfansau sydd eu hangen i gyflawni'r ymrwymiad ar ddyddiad yr adroddiad. Caiff y gost i'r Cyngor ei hadnabod a'i hadrodd yng nghostau'r gwasanaethau ac fe'i priodolir i wasanaethau ar sail defnydd ynni.

## 26. Ysgolion yr Awdurdod Lleol

Mae'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn cadarnhau bod y cydbwysedd grym ar gyfer ysgolion lleol sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor (h.y. y categorïau hynny o ysgolion a ddynodir yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, fel y'i diwygiwyd) yn gorwedd gyda'r Cyngor. Mae'r Cod hefyd yn gosod amod y caiff asedau, dyledion a llif arian yr ysgolion hynny eu cydnabod yn natganiadau ariannol y Cyngor (ac nid yn y Cyfrifon Grŵp). Felly, caiff trafodion, llif arian a gweddill ysgolion eu dynodi ym mhob un o'r datganiadau ariannol fel petaent yn rhai a wnaed gan y Cyngor.

# Datganiadau Ariannol

# Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

| 2015-16 wedi'l ailddatgan | | | | 2016-17 | | | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £'000 | Incwm Gros £'000 | Gwariant Net £'000 | | Gwariant Gros £'000 | Incwm Gros £'000 | Gwariant Net £'000 | |
| 159,619 | (47,695) | 111,924 | Addysg a Chymorth I Deuluoedd | 160,168 | (44,483) | 115,685 | |
| 77,972 | (19,122) | 58,850 | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 85,871 | (21,133) | 64,738 | |
| 64,904 | (26,798) | 38,106 | Cymunedau | 63,758 | (23,942) | 39,816 | |
| 28,157 | (12,395) | 15,762 | Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethau | 28,001 | (12,882) | 15,119 | |
| 55,721 | (52,326) | 3,395 | Prif Weithredwyr a Chyllid | 54,702 | (51,173) | 3,529 | |
| 23,099 | (857) | 22,242 | Gwasaneathau Canalog | 17,879 | (5,717) | 12,162 | |
| **409,472** | **(159,193)** | **250,279** | **Cost Gwasanaethau** | **410,379** | **(159,330)** | **251,049** | |
| | | | **Gwariant Gweithredu Arall** | | | | |
| 11,944 | - | 11,944 | Taliadau Praeseptau | 12,700 | | 12,700 | 5 |
| 6,823 | - | 6,823 | Ardollau Taladwy | 6,881 | | 6,881 | 5 |
| 2,181 | | 2,181 | (Enillion)/colled ar waredu asedau (sefydlog) anghyfredol | 1,050 | | 1,050 | |
| **20,948** | **-** | **20,948** | **Gwariant Gweithredu Arall** | **20,631** | **-** | **20,631** | |
| | | | **Gwariant ac Incwm Cyllido a Buddsoddi** | | | | |
| 4,546 | - | 4,546 | Llog sy'n daladwy ar ddyled | 4,576 | | 4,576 | |
| 69 | - | 69 | Elfen y llog mewn prydlesau cyllid (prydlesai) | 65 | | 65 | |
| 1,434 | - | 1,434 | Llog sy'n daladwy at daliadau unedol PFI | 1,395 | | 1,395 | 11 |
| 8,450 | - | 8,450 | llog net ar Rwymedigaeth Buddion Diffiniedig Net | 8,050 | | 8,050 | 29 |
| - | (903) | (903) | Llog Buddsoddiadua a Llog Arall sy'n Dderbyniadwy | | (942) | (942) | |
| - | (1,082) | (1,082) | Newidiadau yng ngwerth teg eiddo buddsoddi | | | - | |
| **14,499** | **(1,985)** | **12,514** | **Gwariant ac Incwm Cyllido a Buddsoddi** | **14,086** | **(942)** | **13,144** | |
| | | | **Incwm Trethiant a Grantiau Amhenodol** | | | | |
| | (148,002) | (148,002) | Grant Cynnal Refeniw | | (145,233) | (145,233) | 6 |
| | (40,274) | (40,274) | Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | | (42,142) | (42,142) | 9 |
| | (77,487) | (77,487) | Y Dreth Cyngor | | (81,049) | (81,049) | 8 |
| | (13,622) | (13,622) | Grantiau a chyfraniadau cyfalaf a gydnabuwyd | | (6,486) | (6,486) | 7 |
| | (1,400) | (1,400) | Grantiau'r llywodraeth heb gysylltiad â gwasanaethau | | - | - | 7 |
| **-** | **(280,785)** | **(280,785)** | **Incwm Trethiant a Grantiau Amhenodol** | **-** | **(274,910)** | **(274,910)** | |
| | | | | | | | |
| **444,919** | **(441,963)** | **2,956** | **(Gwarged) neu ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **445,096** | **(435,182)** | **9,914** | |
| | (19,595) | (19,595) | (Gwarged) neu ddiffyg ar ailbrisio Eiddo, Peiriannau ac Offer | | (8,705) | (8,705) | |
| 3,614 | | 3,614 | Colledion amhariad ar asedau anghyfredol a godwyd ar y Gronfa Ailbrisio | 3,941 | | 3,941 | |
| | (34,330) | (34,330) | (Enillion)/colledion Actiwaraidd ar rwymedigaethau pensiwn | | (1,960) | (1,960) | 29 |
| | | **(50,311)** | **(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | **(6,724)** | |
| | | | | | | | |
| | | **(47,355)** | **Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr** | | | **3,190** | |

# Datganiad Gwariant a Chyllid

| 2015-16 | | | | 2016-17 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Net Taladwy i Gronfa'r Cyngor | Addasiadau rhwng Sail Ariannu a Sail Cyfrifyddu, a throsglwyddiadau i Gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd (Nodyn 18) | Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | Gwariant Net Taladwy i Gronfa'r Cyngor | Addasiadau rhwng Sail Ariannu a Sail Cyfrifyddu, a throsglwyddiadau i Gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd (Nodyn 18) | Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr |
| £'000 | £'000 | £'000 | | £'000 | £'000 | £'000 |
| 106,248 | (5,677) | 111,925 | Addysg a Chymorth i Deuluoedd | 107,653 | (8,032) | 115,685 |
| 59,998 | 1,148 | 58,850 | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 62,560 | (2,178) | 64,738 |
| 24,978 | (13,127) | 38,105 | Cymunedau | 24,517 | (15,299) | 39,816 |
| 13,629 | (2,133) | 15,762 | Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriad | 13,238 | (1,881) | 15,119 |
| 3,432 | 37 | 3,395 | Prif Weithredwyr | 3,467 | (62) | 3,529 |
| 36,315 | 14,073 | 22,242 | Gwasanaethau Canolog | 33,428 | 21,266 | 12,162 |
| **244,600** | **(5,679)** | **250,279** | **Cost Gwasanaethau** | **244,863** | **(6,186)** | **251,049** |
| (244,754) | 2,569 | (247,323) | Incwm a Gwariant eraill | (245,219) | (4,084) | (241,135) |
| **(154)** | **(3,110)** | **2,956** | **Gwarged neu Ddiffyg** | **(356)** | **(10,270)** | **9,914** |
| 7,450 | | | Balans Agoriadol Cronfa'r Cyngor | 7,604 | | |
| 154 | | | Gwarged neu (Ddiffyg) ar Gronfa'r Cyngor ar gyfer blwyddyn | 356 | | |
| **7,604** | | | **Balans Cronfa Gyffredinol wrth gau ar 31 Mawrth** | **7,960** | | |

# Datganiad ar gyfer y Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn

| | Balans Cronfa'r Cyngor £'000 | Cronfeydd a Glustnodwyd £'000 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Derbyniadau Cyfalaf heb eu Defnyddio £'000 | Cyfanswm y Cronfeydd Defnydd-iadwy £'000 | Cyfanswm y Cronfeydd Annefynydd-iadwy £'000 | Cyfanswm Cronfeydd yr Awdurdod £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2015 a gariwyd ymlaen** | **7,450** | **41,454** | **14,534** | **153** | **63,591** | **31,109** | **94,700** |
| **Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn 2015-16** | | | | | | | |
| Cyfanswm Incwm a (Gwariant) Cynhwysfawr | (2,956) | | | | (2,956) | 50,309 | 47,353 |
| Addasiadau rhwng y sil gyfrifydda a'r sail ariannu o dan y rheoliadua (Nodyn 4) | 6,569 | | 3,818 | 30 | 10,417 | (10,417) | - |
| Trosglwyddiadau I Gronfeydd a Glustnodwyd (Nodyn 27) | (3,459) | 3,459 | - | - | - | - | - |
| **Cynnydd (Gostyngaid) yn 2015-16** | **154** | **3,459** | **3,818** | **30** | **7,461** | **39,892** | **47,353** |
| | | | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2016 a gariwyd ymlaen** | **7,604** | **44,913** | **18,352** | **183** | **71,052** | **71,001** | **142,053** |

| | Balans Cronfa'r Cyngor £'000 | Cronfeydd a Glustnodwyd £'000 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Derbyniadau Cyfalaf heb eu Defnyddio £'000 | Cyfanswm y Cronfeydd Defnydd-iadwy £'000 | Cyfanswm y Cronfeydd Annefynydd-iadwy £'000 | Cyfanswm Cronfeydd yr Awdurdod £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2016 a gariwyd ymlaen** | **7,604** | **44,913** | **18,352** | **183** | **71,052** | **71,001** | **142,053** |
| **Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn 2016-17** | | | | | | | |
| Cyfanswm Incwm a (Gwariant) Cynhwysfawr | (9,914) | | | | (9,914) | 6,724 | (3,190) |
| Addasiadau rhwng y sil gyfrifydda a'r sail ariannu o dan y rheoliadua (Nodyn 4) | 16,516 | | 3,012 | - | 19,528 | (19,528) | - |
| Trosglwyddiadau I Gronfeydd a Glustnodwyd (Nodyn 27) | (6,246) | 6,246 | - | - | - | - | - |
| **Cynnydd (Gostyngaid) yn 2016-17** | **356** | **6,246** | **3,012** | **-** | **9,614** | **(12,804)** | **(3,190)** |
| | | | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017 a gariwyd ymlaen** | **7,960** | **51,159** | **21,364** | **183** | **80,666** | **58,197** | **138,863** |

# Mantolen

| 31 Mawrth 2016 wedi'i ailddatgan £'000 | | 31 Mawrth 2017 £'000 | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| | **Eiddo, Peiriannau ac Offer** | | **20c** |
| 377,815 | Tir ac adeiladau eraill | 379,014 | |
| 5,198 | Cerbydau, peiriannau, celfi ac offer | 4,605 | |
| 77,261 | Seilwaith | 70,047 | |
| 4,808 | Asedau cymunedol | 5,015 | |
| 6,299 | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | 4,067 | |
| 8,256 | Asedua gormodol nad ydynt yn cae eu cadw I'w gwerthu | 8,237 | |
| 73 | **Asedau Treftadaeth - Regalia Dinesig** | 73 | |
| 5,185 | **Eiddo Buddsoddi** | 5,060 | **21** |
| 5,000 | **Ased anniriaethol** | 4,375 | **20d** |
| 2,007 | **Buddsoddiadau Hirdymor** | 4,003 | **30** |
| | **Dyledwyr Hirdymor** | | |
| 12 | Blaensymiau Tai | 8 | |
| 133 | Finance Leases | - | |
| **492,047** | **Asedau Hirdymor** | **484,504** | |
| | | | |
| 14,543 | Buddsoddiadau Byrdymor | 26,572 | **30** |
| 4,035 | Asedau sy'n cael eu cadw i'w gwerthu | 1,730 | **23** |
| 419 | Stocrestrau | 513 | |
| 27,346 | Dyledwyr Byrdymor | 29,467 | **22** |
| 7,182 | Arian parod a Gwerthoedd Cyfwerth ag Arian Parod | 1,664 | **30** |
| | | | |
| **53,525** | **Asedau Cyfredol** | **59,946** | |
| | | | |
| (960) | Benthyciadau Byrdymor | (952) | **30** |
| (32,772) | Credydwyr Byrdymor | (27,310) | **24** |
| (1,118) | Darpariaethau sy'n ddyledus mewn 1 flwyddyn | (1,214) | |
| | | | |
| **(34,850)** | **Rhwymedigaethau Cyfredol** | **(29,476)** | |
| | | | |
| (2,362) | Darpariaethau | (2,451) | **25** |
| (97,434) | Benthyciadau Hirdymor | (97,432) | **30** |
| | **Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill** | | |
| (21,759) | PFI a Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill | (21,064) | **26** |
| (245,270) | Rhwymedigaeth Bensiynau Net | (252,450) | **29** |
| (1,844) | Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd o flaen llaw | (2,714) | **20h** |
| | | | |
| **(368,669)** | **Rhwymedigaethau Hirdymor** | **(376,111)** | |
| | | | |
| **142,053** | **Asedau Net** | **138,863** | |
| | **Cronfeydd Defnyddiadwy** | | **27** |
| 7,604 | Cronfa'r Cyngor | 7,960 | |
| 44,913 | Cronfeydd a Glustnodwyd | 51,159 | **27b** |
| 18,352 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf | 21,364 | **27a** |
| 183 | Grantiau Cyfalaf heb eu Defnyddio | 183 | |
| | **Cronfeydd Annefnyddiadwy** | | **28** |
| 127,291 | Cronfa Ailbrisio | 124,703 | **28a** |
| (245,270) | Cronfa Bensiynau | (252,450) | **28b** |
| 192,078 | Cyfrif Addasu Cyfalaf | 189,468 | **28c** |
| (739) | Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol | (731) | **28d** |
| (2,359) | Cyfrif Absenoldebau Iawndaledig Cronnol Byrdymor | (2,793) | **28e** |
| | | | |
| **142,053** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn** | **138,863** | |

# Datganiad Llif Arian Parod

| 2015-16 £'000 | | 2016-17 £'000 | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| 2,956 | (Gwarged) / diffyg Net ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau | 9,914 | |
| (28,969) | Addasiadau i'r diffyg net ar y ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer symudiadau gwerthoedd heb fod yn arian parod | (31,442) | 33 |
| 17,582 | Addasiadau ar gyfer eitemau a gynhwyswyd yn y diffyg net ar y ddarpariaeth gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi a chyllido | 11,778 | |
| **(8,431)** | **Llifoedd Arian Parod Net p Weithgareddau Gweithredu** | **(9,750)** | 34 |
| 23,081 | Gweithgareddau Buddsoddi | 22,614 | 35 |
| (15,259) | Gweithgareddau Cyllido | (7,346) | 36 |
| **(609)** | **Cynnydd Net mewn Arian Parod a Gwerthoedd Cyfwerth ag Arian Parod** | **5,518** | |
| (6,573) | Arian Parod a Gwerthoedd Cyfwerth ag Arian Parod ar ddechrau'r Cyfnod Adrodd | (7,182) | |
| **(7,182)** | **Arian Parod a Gwerthoedd Cyfwerth ag Arian Parod ar ddiwedd y Cyfnod Adrodd** | **(1,664)** | |

Mae Datganiad Llif Arian Parod yn dangos y newidiadau mewn arian parod ac arian parod cyfatebol y Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad hwn yn dangos sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu ac yn defnyddio'r arian a chyfwerthoedd arian parod drwy ddosbarthu llif arian yn weithgareddau gweithredol, buddsoddi ac ariannu.

# Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

# Cynnwys y Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol


| Nodyn | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Safonau Cyfrifyddu sydd wedi'u Cyflwyno ond heb eu Mabwysiadu eto | 71 |
| 2 | Dyfarniadau Critigol wrth Gymhwyso Polisïau Cyfrifyddu | 71 |
| 3 | Rhagdybiaethau a wnaed ynghylch y dyfodol a ffynonellau mawr eraill o ansicrwydd a amcangyfrifir | 71 |
| | **Nodiadau i'r Datganiad ar gyfer y Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn** | |
| 4 | Addasiadau rhwng Sail Cyfrifyddu a Sail Ariannu o dan y Rheoliadau | 73 |
| | **Nodiadau i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | |
| 5 | Praeseptau ac ardollau | 76 |
| 6 | Grant Cynnal Refeniw | 76 |
| 7 | Grantiau'r Llywodraeth | 77 |
| 8 | Y Dreth Gyngor | 77 |
| 9 | Ardollau Annomestig Cenedlaethol (NNDR) | 78 |
| 10 | Lesoedd | 78 |
| 11 | Y Fenter Cyllid Preifat (PFI) | 79 |
| 12 | Trefniadau Cronfeydd Cyfun o dan Adran 33 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 | 80 |
| 13 | Cydnabyddiaeth Ariannol Swyddogion | 81 |
| 14 | Lwfansau'r Aelodau | 83 |
| 15 | Costau Archwilio Allanol | 83 |
| 16 | Cymdeithion, Is-gwmnïau, Cyd-fentrau a Gweithrediadau ar y Cyd | 83 |
| 17 | Trafodiadau Partïon Cysylltiedig | 85 |
| 18 | Nodiadau i'r Dadansoddiad gwariant a Chyllido | 87 |
| 19 | Gwariant ac incwm wedi'i ddadansoddi yn ôl eu natur | 89 |
| | **Nodiadau i'r Fantolen** | |
| 20 | Asedau anghyfredol | 90 |
| 21 | Eiddo Buddsoddi | 95 |
| 22 | Dyledwyr Byrdymor | 95 |
| 23 | Asedau a ddelir i'w Gwerthu | 95 |
| 24 | Credydwyr Byrdymor | 96 |
| 25 | Darpariaethau | 96 |
| 26 | PFI a Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill | 97 |
| 27 | Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy | 97 |
| 28 | Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy | 102 |
| 29 | Rhwymedigaethau Pensiynau, datgeliadau IAS 19 | 105 |
| 30 | Datgeliadau Offerynnau Ariannol | 112 |
| 31 | Digwyddiadau ar ôl y Fantolen | 122 |
| 32 | Rhwymedigaethau Wrth Gefn | 122 |
| | **Nodiadau i'r Llif Arian Parod** | |
| 33 | Datganiad Llif Arian Parod - Addasiadau ar gyfer Symudiadau heblaw Arian Parod | 123 |
| 34 | Datganiad Arian Parod – Gweithgareddau Gweithredu | 123 |
| 35 | Datganiad Arian Parod – Gweithgareddau Buddsoddi | 123 |
| 36 | Datganiad Arian Parod – Gweithgareddau Ariannu | 124 |

## 1. Safonau Cyfrifyddu sydd wedi'u Cyflwyno ond heb eu Mabwysiadu eto

O dan God Ymarfer ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17 (y Cod) mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag effaith ddisgwyliedig newid cyfrifyddu a fydd yn ofynnol yn ôl safon newydd sydd wedi'i chyflwyno ond sydd heb eu mabwysiadu eto. Mae'r gofyniad hwn yn ymwneud â mabwysiadu'r safonau newydd neu ddiwygiedig a ganlyn yng Nghod 2016-17:

- IAS 139 – Diwygiad i'r adroddiadau ar gostau trafodion cynllun y gronfa bensiwn
- IAS 140 - Diwygiad i'r adroddiadau ar grynodiad y buddsoddiad

Gweithredir y rhain ar ôl Ebrill 2017 ac felly ni fyddant yn cael unrhyw effaith ar Ddatganiadau 2016/17.

## 2. Dyfarniadau Critigol wrth Gymhwyso Polisïau Cyfrifyddu

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu uchod, bu'n rhaid i'r Cyngor wneud dyraniadau penodol ynghylch trafodion cymhleth neu'r rhai a oedd yn cynnwys ansicrwydd ynghylch digwyddiadau yn y dyfodol. Dyma'r dyfarniadau critigol a wnaed yn y Datganiad Cyfrifon:

Ceir llawer o ansicrwydd ynghylch lefelau cyllid llywodraeth leol yn y dyfodol. Er hynny, mae'r Cyngor wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd yn ddigonol eto i fod yn arwydd o amharu ar asedau'r Cyngor o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau a lleihau lefelau'r ddarpariaeth gwasanaethau.

Bernir mai'r Cyngor sy'n rheoli'r gwasanaethau a ddarperir dan y cytundeb allanol ynglŷn â darparu Ysgol Gyfun ym Maesteg a hefyd yn rheoli gwerth gweddilliol yr ysgol ar ddiwedd y cytundeb. Mae'r polisïau cyfrifyddu ar gyfer cynlluniau PFI a chontractau tebyg wedi'u cymhwyso at y trefniant ac mae'r ysgol (a brisiwyd yn £24.1 miliwn) wedi'i chydnabod fel Eiddo, Offer a Chyfarpar ar Fantolen y Cyngor.

Mae gan y Cyngor nifer o fuddiannau mewn endidau eraill. Er hynny, nid yw'r trefniadau'n ddigon sylweddol i haeddu llunio datganiadau ariannol wedi'u cydgrynhoi wrth adolygu gwybodaeth feintiol ac ansoddol. Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r Cod, mae ystod o ddatgeliadau naratif wedi'u gwneud mewn adrannau eraill o'r cyfrifon.

## 3. Rhagdybiaethau a wnaed ynghylch y dyfodol a ffynonellau mawr eraill o ansicrwydd a amcangyfrifir

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigurau wedi'u hamcangyfrif sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan y Cyngor ynghylch y dyfodol neu sydd fel arall yn ansicr. Mae amcangyfrifon yn cael eu gwneud gan gymryd i ystyriaeth brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Er hynny, am nad oes modd pennu'r balansau'n sicr, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

I ddilyn, mae'r eitemau ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2017 y ceir risg arwyddocaol o addasiad sylweddol ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

**Eiddo, Offer a Chyfarpar**
Caiff asedau'r Cyngor eu hailbrisio ar raglen dreigl 3 blynedd. Mae gwerth yr asedau hyn wedi'i seilio ar gyfrifiadau a thechnegau amcangyfrif gan ddilyn canllawiau Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), ac yn unol â'r IFRS. Mae ailbrisio yn ystyried gwerth a chyflwr yr ased, cydrannau perthnasol a hefyd ddileu cydnabyddiaeth lle bo hynny'n briodol.

**Dibrisiant Eiddo, Offer a Chyfarpar**
Mae asedau'n cael eu dibrisio dros oes ddefnyddiol sy'n dibynnu ar ragdybiaethau ynghylch lefel y gwaith trwsio a chynnal a chadw a geir ar gyfer yr asedau unigol. Gallai'r hinsawdd economaidd gyfredol arwain at orfod gwario llai ar waith trwsio a chynnal a chadw, gan godi amheuon ynghylch yr oes ddefnyddiol a ddyrannwyd i asedau. Os caiff oes ddefnyddiol asedau ei chwtogi, mae dibrisiant yn cynyddu a bydd swm cario'r asedau'n gostwng.

**Eiddo Buddsoddi, Asedau Gormodol ac Asedau a Gedwir i'w Gwerthu**

Amcangyfrifon gwerth teg
Rhoddodd y Cyngor gyfarwyddiadau i'r priswyr allanol Cooke & Arkwright ddarparu prisiadau ar 31 Rhagfyr 2016 ar gyfer holl bortffolio buddsoddi'r Cyngor. Cafodd y rhain eu prisio yn unol â'r IFRS13.

Pan nad oes modd i werthoedd teg Eiddo Buddsoddi, Asedau Gormodol ac Asedau a Gedwir i'w Gwerthu gael eu mesur ar sail prisiau a ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithredol (**mewnbynnau Lefel 1**), mae eu gwerth teg yn cael ei fesur gan ddefnyddio'r technegau prisio a ganlyn:

**Mewnbynnau Lefel 2:** prisiau a ddyfynnir ar gyfer asedau neu rwymedigaethau tebyg mewn marchnadoedd gweithredol ar ddyddiad y Fantolen;
**Mewnbynnau Lefel 3:** prisiadau wedi'u seilio ar y prisiadau mwyaf diweddar, wedi'u haddasu i'r prisiad cyfredol drwy ddefnyddio mynegeiad ac adolygiad o amhariadau.

Os oes modd, mae'r mewnbynnau yn y technegau prisio hyn yn cael eu seilio ar y data sydd ar gael i'w weld, ond pan nad yw hyn yn bosibl, rhaid gwneud dyfarniad a mesur er mwyn sefydlu gwerthoedd teg. Mae'r dyfarniadau hyn fel rheol yn cynnwys ystyriaethau fel ansicrwydd a risg. Gallai newid yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir effeithio ar y gwerth teg. Defnyddiodd y priswyr allanol y technegau prisio mwyaf priodol i bennu'r gwerth teg.

**Rhwymedigaeth Pensiynau**

Mae'r amcangyfrifon o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau'n dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth ynglŷn â'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir, ar ba gyfradd y darogenir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau i oedran ymddeol, cyfraddau marwolaeth a'r enillion a ddisgwylir ar asedau cronfeydd pensiwn. Mae ffyrm o actiwarïaid ymgynghorol yn cael ei defnyddio i roi cyngor arbenigol i'r Cyngor am y rhagdybiaethau i'w defnyddio.

# Nodiadau i'r Datganiad ar gyfer y Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn

## 4. Addasiadau rhwng Sail Cyfrifyddu a Sail Ariannu o dan y Rheoliadau

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wnaed yng nghyfanswm yr Incwm a'r Gwariant Cynhwysfawr a gydnabuwyd gan y Cyngor yn y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol ar gyfer yr adnoddau y mae darpariaethau statudol yn pennu eu bod ar gael i'r Cyngor i dalu gwariant refeniw a chyfalaf yn y dyfodol.

Mae'r canlynol yn disgrifio'r cronfeydd wrth gefn y gwnaed yr addasiadau ar eu cyfer.

**Balans Cronfa'r Cyngor**

Dyma'r gronfa statudol y mae'n ofynnol i holl dderbyniadau'r Cyngor gael eu talu iddi ac y mae holl rwymedigaethau'r Cyngor i'w talu ohoni, ac eithrio i'r graddau y gall rheolau statudol ddarparu'n wahanol. Mae'r rheolau hyn hefyd yn cael pennu ym mha flwyddyn ariannol y dylai rhwymedigaethau a thaliadau effeithio ar Falans Cronfa'r Cyngor, heb gyd-fynd o reidrwydd â'r arferion cyfrifyddu priodol. Gan hynny, mae Balans Cronfa'r Cyngor yn crynhoi'r adnoddau y mae gan y Cyngor bŵer statudol i'w gwario ar ei wasanaethau neu ar fuddsoddiadau cyfalaf (neu'r diffyg neu'r adnoddau y mae'n ofynnol i'r Cyngor eu hadennill) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf**

Mae'r Gronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf yn cadw'r enillion yn sgil gwaredu tir neu asedau eraill, y mae'r statud yn eu cyfyngu rhag cael eu defnyddio heblaw i ariannu gwariant cyfalaf newydd neu i'w neilltuo i ariannu gwariant cyfalaf hanesyddol. Mae balans y gronfa'n dangos yr adnoddau sydd heb eu defnyddio at y dibenion hyn eto ar ddiwedd y flwyddyn.

**Grantiau Cyfalaf heb eu Defnyddio**

Mae'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf heb eu Defnyddio yn cadw'r grantiau a'r cyfraniadau a gafwyd tuag at brosiectau cyfalaf y mae'r Cyngor wedi bodloni'r amodau ar eu cyfer a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r arian gael ei ad-dalu fel arall, ond sydd heb eu defnyddio eto i dalu am wariant. Mae'r balans yn cael ei gyfyngu gan delerau'r grantiau ynglŷn â'r gwariant cyfalaf y gellir ei ddefnyddio ar ei gyfer a/neu ynglŷn â'r flwyddyn ariannol y caniateir hynny ynddi.

Mae'r tablau isod yn manylu ar yr addasiadau ar gyfer 2015-16 at ddibenion cymharu â'r addasiadau ar gyfer 2016-17.

**Cronfeydd wrth Gefn Annefnyddiadwy**

Mae hyn yn cynnwys y Gronfa wrth Gefn Ailbrisio sy'n cadw'r enillion a wnaed gan y Cyngor yn sgil cynnydd yng ngwerth ei Eiddo, ei Beiriannau a'i Offer; y Gronfa Bensiynau wrth Gefn sy'n amsugno'r gwahaniaethau mewn amser sy'n codi yn sgil y gwahanol drefniadau cyfrifyddu ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth ac ar gyfer buddion cyllid a hynny yn unol â'r darpariaethau statudol; y Cyfrif Addasu Cyfalaf sy'n amsugno'r gwahaniaeth mewn amser sy'n codi yn sgil y gwahanol drefniadau cyfrifyddu ar gyfer defnyddio asedau anghyfredol ac ar gyfer ariannu'r broses o gaffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny o dan ddarpariaethau statudol; y Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol sy'n amsugno'r gwahaniaeth mewn amser sy'n codi yn sgil y gwahanol drefniadau cyfrifyddu ar gyfer incwm a gwariant yn ymwneud ag offerynnau ariannol penodol ac ar gyfer dwyn colledion neu elwa ar enillion yn unol â darpariaethau statudol; a'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig Byrdymor sy'n amsugno gwahaniaethau a fyddai'n codi fel arall ar Falans Cronfa'r Cyngor drwy gronni absenoldebau iawndaledig a enillwyd ond nas cymerwyd yn ystod y flwyddyn.

| 2015-16 | Cronfeydd Defnyddiadwy | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Balans Cronfa'r Cyngor £'000 | Cronfa wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio £'000 | Cronfeydd wrth gefn Annefnyddiadwy £'000 |
| **Addasiad i Adnoddau Refeniw** | | | | |
| ***Symiau y mae incwm a gwariant, sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, yn wahanol i'r refeniw am y flwyddyn a gyfrifwyd gyda nhw, yn unol â'r gofynion statudol:*** | | | | |
| Costau pensiynau (wedi eu trosglwyddo i'r Gronfa Pensiynau, neu ganddi) | 6,590 | | | (6,590) |
| Offerynnau Ariannol (wedi eu trosglwydd o Gyfrif Addasu yr Offerynnau Ariannol) | (2,893) | | | 2,893 |
| Tâl gwyliau (wedi'i drosglwyddo i Gronfa wrth gefn Absenoldebau wedi eu Croni) | (1,865) | | | 1,865 |
| Dirymu cofnodion wedi eu cynnwys yn y Gwarged neu'r Diffyg o'r Darpariaeth Gwasanaethau mewn cysylltiad a gwariant cyfalaf (codir yr eitemau hyn ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf) | 32,093 | | 14 | (32,107) |
| **Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw** | **33,925** | **-** | **14** | **(33,939)** |
| **Addasiadau rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf** | | | | |
| Trosglwyddo derbyniadau o refeniw o werthiant asedau nad ydynt yn gyfredol i'r Gronfa wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf | (3,959) | 3,959 | | |
| Darpariaeth statudol ar gyfer ad-dalu dyled (trosglwyddo o'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf) | (8,513) | | | 8,513 |
| Gwariant cyfalaf wedi'i ariannu gan falansau refeniw (trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf) | (1,262) | | | 1,262 |
| **Cyfanswm Addasiadau rhwng Addasiadau Refeniw a Chyfalaf** | **(13,734)** | **3,959** | **-** | **9,775** |
| **Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf** | | | | |
| Defnydd o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | | (146) | | 146 |
| Defnydd o grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | (13,606) | | | 13,606 |
| Taliadau arian parod mewn cysylltiad â derbyniadau cyfalaf gohiriedig | (16) | | 16 | |
| Symiau eraill (gan gynnwys taliadau morgeisi) | | 5 | | (5) |
| **Cyfanswm addasiadau i Gronfeydd Cyfalaf** | **(13,622)** | **(141)** | **16** | **13,747** |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **6,569** | **3,818** | **30** | **(10,417)** |

| 2016-17 | Cronfeydd Defnyddiadwy | | | Cronfeydd wrth gefn Annefnyddiadwy |
|---|---|---|---|---|
| | Balans Cronfa'r Cyngor<br>£'000 | Cronfa wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf<br>£'000 | Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio<br>£'000 | £'000 |
| **Addasiad i Adnoddau Refeniw** | | | | |
| ***Symiau y mae incwm a gwariant, sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, yn wahanol i'r refeniw am y flwyddyn a gyfrifwyd gyda nhw, yn unol â'r gofynion statudol:*** | | | | |
| Costau pensiynau (wedi eu trosglwyddo i'r Gronfa Pensiynau, neu ganddi) | 9,140 | | | (9,140) |
| Offerynnau Ariannol (wedi eu trosglwydd o Gyfrif Addasu yr Offerynnau Ariannol) | (8) | | | 8 |
| Tâl gwyliau (wedi'i drosglwyddo i Gronfa wrth gefn Absenoldebau wedi eu Croni) | 435 | | | (435) |
| Dirymu cofnodion wedi eu cynnwys yn y Gwarged neu'r Diffyg o'r Darpariaeth Gwasanaethau mewn cysylltiad a gwariant cyfalaf (codir yr eitemau hyn ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf) | 31,134 | | | (31,134) |
| **Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw** | **40,701** | **-** | **-** | **(40,701)** |
| **Addasiadau rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf** | | | | |
| Trosglwyddo derbyniadau o refeniw o werthiant asedau nad ydynt yn gyfredol i'r Gronfa wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf | (5,293) | 5,293 | | |
| Darpariaeth statudol ar gyfer ad-dalu dyled (trosglwyddo o'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf) | (10,301) | | | 10,301 |
| Gwariant cyfalaf wedi'i ariannu gan falansau refeniw (trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf) | (2,105) | | | 2,105 |
| **Cyfanswm Addasiadau rhwng Addasiadau Refeniw a Chyfalaf** | **(17,699)** | **5,293** | **-** | **12,406** |
| **Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf** | | | | |
| Defnydd o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | | (2,285) | | 2,285 |
| Defnydd o grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | (6,486) | | | 6,486 |
| Taliadau arian parod mewn cysylltiad â derbyniadau cyfalaf gohiriedig | | | | |
| Symiau eraill (gan gynnwys taliadau morgeisi) | | 4 | | (4) |
| **Cyfanswm addasiadau i Gronfeydd Cyfalaf** | **(6,486)** | **(2,281)** | **-** | **8,767** |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **16,516** | **3,012** | **-** | **(19,528)** |

# Nodiadau i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

## 5. Praeseptau ac ardollau

Praeseptau yw'r symiau sy'n cael eu talu i awdurdodau nad ydynt yn bilio (e.e. cynghorau cymuned) er mwyn iddyn nhw dalu eu costau. Ardollau yw'r symiau sy'n daladwy pan fydd gwasanaethau'n gweithio ar draws ardaloedd sy'n cynnwys mwy nag un Cyngor, naill ai ar sail gwasanaeth ar y cyd, lle mae un Cyngor yn gweinyddu'r gwasanaeth a'r Cynghorau eraill yn cyfrannu at y costau, neu gan gyrff allanol sy'n codi ardoll ar y Cynghorau priodol. Roedd y symiau a dalwyd fel a ganlyn:

| 2015-16 £'000 | | 2016-17 £'000 |
|---:|---|---:|
| | **Praeseptau** | |
| 10,207 | Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru | 10,791 |
| 1,737 | Cynghorau cymuned | 1,909 |
| **11,944** | **Is-gyfanswm** | **12,700** |
| | **Ardollau** | |
| 6,484 | Awdurdod Tân ac Achub De Cymru | 6,542 |
| 223 | Gwasanaeth y Crwner | 226 |
| 96 | Gwasanaeth Archifau | 93 |
| 1 | Cyd-bwyllgor Amlosgfa Margam | 0 |
| 19 | Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe | 20 |
| **6,823** | **Is-gyfanswm** | **6,881** |
| **18,767** | **Cyfanswm** | **19,581** |

## 6. Grant Cynnal Refeniw (RSG)

Dyma brif ffynhonnell cyllid tuag at wariant refeniw oddi wrth Lywodraeth Cymru ac mae'r swm sydd i'w dderbyn yn cael ei bennu ar ddechrau pob blwyddyn ariannol. Y swm a ddaeth i law yn 2016-17 oedd £145.2 miliwn (£148.0 miliwn ar gyfer 2015-16).

## 7. Grantiau'r Llywodraeth

Ar ben y Grant Cynnal Refeniw, cafodd y Cyngor y grantiau penodol a ganlyn gan y Llywodraeth:

| 2015-16<br>£'000 | Grantiau Penedol wedi'u credydu I Wasanaethau | 2016-17<br>£'000 |
|---|---|---|
| (49,536) | Cymhorthdal Budd-dal Tai | (48,571) |
| (6,502) | Grant Ôl-16 DCELLS | (6,331) |
| (5,213) | Grant Gwella Addysg | (4,951) |
| (5,672) | Addysg a Chymorth I Deuluoedd Arall | (6,823) |
| (1,687) | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Arall | (1,704) |
| (4,845) | Eraill | (5,013) |
| (5,816) | Cefnogi Pobl | (5,816) |
| (401) | Chwaraeon, Chwarae a Lles Egnïol | (405) |
| (2,973) | Grant Gostyngiadau Teithio | (2,996) |
| (3,178) | Dechrau'n Deg | (3,287) |
| (2,796) | Grant Gwastraff Cynaliadwy | (2,777) |
| (708) | Gweinyddu Budd-dal Tai/Budd-dal Treth Gyngor | (595) |
| (1,478) | Cymunedau yn Gyntaf | (1,550) |
| (1,898) | Teuluoedd yn Gyntaf | (1,740) |
| **(92,703)** | **Cyfanswm** | **(92,559)** |

| 2015-16<br>£'000 | Grantiau Eraill y Llywodraeth a gredydwyd i Drethiant ac Incwm Grant Amhenodol | 2016-17<br>£'000 |
|---|---|---|
| (13,622) | Grant Cytundeb Gwelliannau | (6,486) |
| (1,400) | Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf | - |
| **(15,022)** | **Cyfanswm** | **(6,486)** |

| | | |
|---|---|---|
| **(107,725)** | **Cyfanswm** | **(99,045)** |

Cynhwysir incwm grant yn y golofn incwm gros gyda gwasanaethau ac eithrio'r Grant Cytundeb Gwella a Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf.

## 8. Y Dreth Gyngor

Mae Incwm y Dreth Gyngor yn deillio o'r taliadau sy'n cael eu codi yn ôl gwerth eiddo preswyl, sydd wedi'i ddosbarthu'n ddeg band prisio sy'n amcangyfrif gwerthoedd 1 Ebrill 2005 at y diben penodol hwn. Mae'r taliadau'n cael eu cyfrifo drwy ddefnyddio swm yr incwm y mae ei angen ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, pob Cyngor Cymuned ac Awdurdod Heddlu De Cymru a rhannu hynny â sail y Dreth Gyngor. Sail y Dreth Gyngor yw cyfanswm nifer yr anheddau ym mhob band wedi'i addasu yn ôl cyfran er mwyn troi'r rhif yn rhif sy'n cyfateb i Fand D a'i addasu ar gyfer disgowntiau – 51,916.19 o anheddau ar gyfer 2016-17 (51,071.48 yn 2015-16). £1,542.40 yw swm cyfartalog eiddo ym Mand D yn 2016-17 (£1,482.94 yn 2015-16 ar gyfartaledd) ac mae hyn yn cael ei luosi â'r gyfran a bennir ar gyfer y band penodol i roi'r swm unigol sy'n ddyledus.

Cafodd biliau'r Dreth Gyngor eu seilio ar y lluosyddion a ganlyn ar gyfer bandiau A* i I ac roedd nifer yr anheddau ym mhob band fel a ganlyn:

| Band | A* | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llusydd | 5/9 | 6/9 | 7/9 | 8/9 | 9/9 | 11/9 | 13/9 | 15/9 | 18/9 | 21/9 |
| Anheddau trethadwy | 25 | 10,055 | 14,759 | 13,921 | 9,947 | 7,208 | 4,058 | 1,383 | 282 | 88 |

Dyma ddadansoddiad o'r enillion net o'r Dreth Gyngor:

| 2015-16 £'000 | | 2016-17 £'000 |
|---|---|---|
| (77,487) | Treth Gyngor Gasgladwy | (81,049) |
| | Llai: | |
| 1,737 | Taladwy i Gynghorau Cymuned | 1,909 |
| 10,207 | Taladwy i Heddlu De Cymru | 10,791 |
| (386) | Darpariaeth ar gyfer peidio â thalu'r Dreth Gyngor (Cynnydd) / Gostyngiad | (1,084) |
| **(65,929)** | **Enillion Net o'r Dreth Gyngor** | **(69,433)** |

## 9. Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)

Trefnir yr NNDR ar sail genedlaethol. Bydd Llywodraeth Cymru yn pennu'r gyfradd yn bunt sydd i'w chodi ac, yn unol ag effeithiau trefniadau pontio, bydd busnesau lleol yn talu ardrethi sy'n cael eu cyfrifo drwy luosi eu gwerth trethiannol â'r gyfradd yn y bunt. 48.6c oedd hyn yn 2016-17 (48.2c yn 2015-16). Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gasglu'r ardrethi sy'n ddyledus oddi wrth y trethdalwyr yn ei ardal ond mae'n talu'r enillion i gronfa'r NNDR sy'n cael ei gweinyddu gan Lywodraeth Cymru. Wedyn mae Llywodraeth Cymru yn ailddosbarthu'r symiau taladwy yn ôl i'r awdurdodau ar sail swm penodedig am bob pen o'r boblogaeth.

Mae'r Cyngor yn cael cyfraniad yn uniongyrchol o gronfa'r NNDR. Dylai'r incwm hwn gael ei adlewyrchu ar wahân yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. £42.142 miliwn oedd y swm hwn yn 2016-17 (£40.274 miliwn yn 2015-16).

## 10. Lesoedd

Y Cyngor fel Lesddeiliad

Lesoedd Gweithredol

Dyma isafswm y taliadau sy'n ddyledus yn y dyfodol ar lesoedd nad oes modd ei ddileu:

| 31 Mawrth 2016 £'000 | | 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---|---|
| (787) | Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | (768) |
| (2,021) | Hwyrach na blwyddyn | (1,943) |
| (7,583) | Hwyrach a phum mlynedd | (7,026) |
| **(10,391)** | **Cyfanswm** | **(9,737)** |

Y gwariant a godwyd yn y flwyddyn ar y meysydd gwasanaeth oedd £0.843 miliwn a oedd yn cynnwys isafswm taliadau ar lesoedd o £0.299 miliwn a £0.545 miliwn ar gyfer rhenti digwyddiadol (£0.851 miliwn yn 2015-16 a oedd yn cynnwys £0.404 miliwn o isafswm taliadau les a £0.447 miliwn o renti digwyddiadol).

Y Cyngor fel Lesydd

Lesoedd Gweithredol
Mae'r Cyngor yn lesio eiddo at ddibenion economaidd i ddarparu llety fforddiadwy i fusnesau lleol. Dyma'r rhenti a dderbynnir yn y dyfodol o dan lesoedd gweithredol:-

| 31 Mawrth 2016 £'000 | | 31 March 2017 £'000 |
|---|---|---|
| 48 | Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 88 |
| 120 | Hwyrach na blwyddyn | 139 |
| 800 | Hwyrach a phum mlynedd | 875 |
| **968** | **Cyfanswm** | **1,102** |

**11. Y Fenter Cyllid Preifat (PFI)**

Yn ystod blwyddyn ariannol 2008-09, dechreuodd y Cyngor dalu, o dan drefniant y Fenter Cyllid Preifat (PFI), am ddarparu ysgol uwchradd ym Maesteg, sef trefniant a wnaed yn 2007-08 ac a fydd yn rhedeg tan fis Awst 2033. Ceir ymrwymiad o £30.5 miliwn (Gwerth Presennol Net) dros oes y contract, sydd i'w ariannu drwy gyfuniad o Gredydau PFI, y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru, ac adnoddau'r Cyngor/adnoddau dirprwyedig Ysgolion.

Rhennir cyfanswm y taliad unedol yn elfen tâl gwasanaeth, elfen ar gyfer ad-dalu'r rhwymedigaeth ac elfen ar gyfer llogau. Dangosir y taliadau isod:-

| 2015-16 £'000 | Tâl Unedol | 2016-17 £'000 |
|---|---|---|
| 636 | Elfen Tâl Gwasanaeth | 638 |
| 1,434 | Elfen Llog | 1,395 |
| 513 | Rhwymedigaeth Prydles Ariannol | 552 |
| **2,583** | **Cyfanswm** | **2,585** |

Gwneir y taliadau hyn dros oes y contract PFI ac mae'r amcangyfrifon ar gyfer y blynyddoedd dilynol i'w gweld isod yn ôl y prisiau cyfredol:-

| Tâl Unedol | 2017-18 £'000 | 2018-19 i 2022-23 £'000 | 2023-24 i 2027-28 £'000 | 2028-29 i 2032-33 £'000 | 2033-34 i 2033-34 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Elfen Tâl Gwasanaeth | 502 | 2,511 | 2,511 | 2,511 | 495 |
| Elfen Llog | 1,352 | 5,997 | 4,313 | 1,872 | 14 |
| Rhwymedigaeth Prydles Ariannol | 595 | 3,737 | 5,421 | 7,862 | 620 |
| **Cyfanswm** | **2,449** | **12,245** | **12,245** | **12,245** | **1,129** |

Mae'r Cyngor yn talu costau'r Taliad Unedol o'i adnoddau ei hun ac o gyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae proffil yr arian gan Lywodraeth Cymru yn gostwng bob blwyddyn nes y daw cyfnod y contract i ben. Mae'r taliad unedol sydd i'w dalu gan y Cyngor yn cynyddu bob blwyddyn dros yr un cyfnod. Mae hyn yn arwain at adnoddau "dros ben" ar gyfer PFI o'i gymharu â thaliadau yng nghyfnod cychwynnol y contract. Mae'r cyfrifon gormodol hyn yn cael eu neilltuo mewn cronfa a glustnodwyd i ariannu rhan olaf cyfnod y contract pan fo'r taliadau blynyddol yn fwy na'r adnoddau blynyddol.

Ar 31 Mawrth 2017, balans y gronfa a glustnodwyd ar gyfer cydraddoli'r PFI oedd £3.949 miliwn (£3.706 miliwn ar 31 Mawrth 2016).

### 12. Trefniadau Cronfeydd Cyfun o dan Adran 33 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006

Mae rhywfaint o drefniadau ffurfiol ar gyfer cyfuno cyllidebau rhwng y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg o dan Adran 33 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 a hefyd drefniad ar gyfer cyllid cyfun rhwng 3 Chyngor am y ddarpariaeth o Wasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd o dan Adrannau 166-169 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cychwynnodd y trefniad cyfun ar gyfer Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd ym mis Awst 2016.

| 2015-16 | | | | | 2016-17 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Incwm gros y bartneriaeth £'000 | Gwariant gros y bartneriaeth £'000 | Cyfraniad yr awdurdod £'000 | Partner | Diben y bartneriaeth | Incwm gros y bartneriaeth £'000 | Gwariant gros y bartneriaeth £'000 | Cyfraniad yr awdurdod £'000 |
| (615) | 615 | 328 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro-Morgannwg | Darpariaeth Gwasanaethau Integredig yn defnyddio Cronfa Gyffredin. Darparu cyfleoedd dydd i bobl sy'n ymadfer ar ôl problemau iechyd meddwl. | (596) | 596 | 318 |
| (2,654) | 2,625 | 569 | CBS Rhondda Cynon Taf CBS Merthyr Tudful BILI Cwm Taf Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro-Morgannwg | Comisiynu integredig o gronfa gyffredin i gaffael offer cymunedol penodol i bobl gymwys yn ardal weinyddol y bartneriaeth. Rhondda Cynon Taf yw'r partner arweiniol. | (2,645) | 2,574 | 629 |
| (4,414) | 4,414 | 2,346 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro-Morgannwg | Darpariaeth gwasanaethau integredig yn defnyddio cronfa gyffredin i ddarparu gwasanaethau cymorth cymunedol | (4,595) | 4,595 | 2,473 |
| | | | CBS Castell-nedd Port Talbot, Dinas a Sir Abertawe | Darparu Gwasanaeth Integredig Cymorth I Deuluoedd | (825) | 825 | 275 |

## 13. Tâl y Swyddogion

Mae angen pedwar datgeliad gwahanol er mwyn sicrhau y cydymffurfir â naill ai Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, neu God CIPFA.

**Datgeliad 1 – Cymhareb Tâl y Prif Weithredwr i dâl canolrifol holl weithwyr y corff**

Yn achos Pen-y-bont ar Ogwr, y gymhareb yw 6.64 (2015-16: 6.64) a'r cyflog canolrifol yw £19,939 (2105-16: £19,749), hynny yw, mae tâl y Prif Weithredwr 6.64 gwaith yn fwy na thâl canolrifol gweithwyr y Cyngor.

**Datgeliad 2 : Tabl Tâl Swyddogion dros £60k**

Mae nifer y gweithwyr (gan gynnwys athrawon) yr oedd eu tâl, heb gynnwys cyfraniadau pensiwn, yn £60,000 neu ragor am y flwyddyn, fel a ganlyn:

| 2015-16 gan gynnwys Costau Dileu Swyddi | Band Tâl | Nifer y gweithwyr | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Symudiad yn y Bandiau | 2015-16 gan gynnwys Costau Dileu Swyddi | 2015-16 heb gynnwys Costau Dileu Swyddi | Nifer yr Athrawon yn y Ffigurau heb gynnwys Dileu Swyddi | Nifer y Swyddogion heblaw Athrawon yn y Ffigurau heb gynnwys Dileu Swyddi |
| 23 | £60,000 - £64,999 | (4) | **19** | 17 | 16 | 1 |
| 19 | £65,000 - £69,999 | (6) | **13** | 12 | 12 | - |
| 5 | £70,000 - £74,999 | 1 | **6** | 4 | 4 | - |
| 7 | £75,000 - £79,999 | 1 | **8** | 6 | 1 | 5 |
| 9 | £80,000 - £84,999 | (3) | **6** | 5 | 3 | 2 |
| 2 | £85,000 - £89,999 | (1) | **1** | 1 | 1 | - |
| 4 | £90,000 - £94,999 | (3) | **1** | - | - | - |
| 1 | £95,000 - £99,999 | 1 | **2** | 1 | 1 | - |
| 8 | £100,000 - £104,999 | (6) | **2** | 1 | - | 1 |
| - | £105,000 - £109,999 | 6 | **6** | 4 | 1 | 3 |
| 1 | £110,000 - £114,999 | (1) | **-** | - | - | - |
| 2 | £115,000 - £119,999 | (1) | **1** | 1 | 1 | - |
| - | £120,000 - £124,999 | 1 | **1** | - | - | - |
| - | £125,000 - £129,999 | - | **-** | - | - | - |
| 1 | £130,000 - £134,999 | - | **1** | 1 | - | 1 |
| - | £135,000 - £139,999 | 1 | **1** | - | - | - |
| 1 | £160,000 - £164,999 | (1) | **-** | - | - | - |
| **83** | | **(15)** | **68** | **53** | **40** | **13** |

**Nodyn 1**: Mae hyn yn cadarnhau bod 53 o unigolion sydd â thâl o £60,000 neu ragor, gan gynnwys:-

a) 40 o Benaethiaid a Dirprwy Benaethiaid, a
b) 13 o Uwch-reolwyr y Cyngor, gan gynnwys yr Uwch-swyddogion a dangosir yn Natgeliad 3 isod, a Phenaethiaid Gwasanaeth.

**Datgeliad 3 : Tabl Tâl Uwch-swyddogion (gan gynnwys Cyfraniadau Pensiwn)**

| Teitl Swydd | Cyflog | | Cyfraniadau Pensiwn | | Cyfanswm y Tal gan gynnwys Cyfraniadau | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd wrth Gefn y Cyfarwyddiaethau:** | | | |
| Strategaeth Parcio Ceir* | 623 | (152) | 471 |
| Materion Cyfarwyddiaethau* | 1,367 | (36) | 1,331 |
| **Cydraddoli a Chronfeydd wrth gefn Grantiau** | | | |
| Cronfa Adfywio Arbennig* | 313 | 36 | 349 |
| Gorfodi Parcio Sifil* | - | 152 | 152 |
| **Cyfanswm Cronfa wrth Gefn Cydraddoli** | **2,303** | **-** | **2,303** |

**Cronfa'r Cyngor**

Trosglwyddwyd £0.356 miliwn i Gronfa'r Cyngor ar gyfer 2016-17. Cynyddodd hyn y balans ar y Gronfa i £7.960 miliwn ar 31 Mawrth 2017 (£7.604 miliwn ar 31 Mawrth 2016).

**Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd eraill**

Trosglwyddwyd i Falansau a Glustnodwyd ac eithrio Balans Cronfa'r Cyngor £6.246 miliwn yn 2016-17 (trosglwyddwyd balansau o £3.459 miliwn yn 2015-16). Roedd hyn yn cynnwys ychwanegiadau at gronfeydd wrth gefn gwerth £12.509 miliwn gan Gyllidebau Corfforaethol a £1.488 miliwn o ychwanegiadau gan Gyllidebau'r Cyfarwyddiaethau a chyfanswm o £7.751 a drosglwyddwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i gyfateb i wariant yn y flwyddyn. Ceir esboniad o bob cronfa wrth gefn a glustnodwyd isod:-

**Cronfeydd wrth Gefn Corfforaethol**

Cynllun Rheoli Asedau
Sefydlwyd y cynllun hwn i dalu costau parhaus arolygon cyflwr ac mae'n ategu'r rhaglen o ddymchwel asedau.

Cronfa wrth Gefn Cynnal Adeiladau
Mae'r gronfa hon ar gael ar gyfer gwariant cynlluniedig ar gynnal adeiladau'r Cyngor.

Cronfa Dichonoldeb Cyfalaf
Mae'r gronfa hon wedi'i sefydlu i ariannu astudiaethau ynghylch prosiectau cyfalaf arfaethedig.

Cyfraniad at Raglenni Cyfalaf
Sefydlwyd y gronfa hon sydd wedi'i chlustnodi fel cyfraniad refeniw at y rhaglen gyfalaf, er mwyn galluogi cynlluniau i symud ymlaen yn gynt er mwyn lleihau'r pwysau ar y gyllideb refeniw gan gyflymu gwaith i wireddu derbyniadau cyfalaf.

Rheoli Newid
Bydd y gronfa hon yn talu costau posibl sy'n gysylltiedig â gofynion capasiti corfforaethol i hwyluso a bwrw ymlaen â datblygiadau arfaethedig sy'n gysylltiedig â sicrhau gostyngiadau yn y gyllideb yr y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ac yn Rhaglen Newid Pen-y-bont.

Gwaith Brys/Atal yn ymwneud â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd
Bwriad y gronfa hon sydd wedi'i chlustnodi yw talu costau gwaith brys mewn ysgolion ac ariannu swydd dros dro am gyfnod o 2 flynedd i sicrhau bod Asesiadau Risg o Dân yn cael eu diweddaru a'u cynnal mewn ysgolion.

Cronfeydd wrth Gefn TGCh a Thrawsnewid Digidol
Bydd y ddwy gronfa wrth gefn hyn yn ariannu Trawsnewidiad Digidol y Cyngor gan helpu i symud sianeli ynghyd â chefnogi costau datblygiadau yn y system sydd ar y gweill o 2017-18 i 2018-19. Mae'n cynnwys datblygiadau sy'n cynnwys cyflwyno'r system arlwyo heb arian parod.

Cronfa wrth Gefn ar gyfer Yswiriant
Mae'r gronfa wrth gefn hon wedi'i seilio ar yr asesiad ynglŷn â rhwymedigaethau posibl yn y dyfodol gan gynnwys unrhyw daliadau sydd ar ôl mewn cysylltiad â Municipal Mutual Insurance Limited.

Cronfa a Glustnodwyd ar gyfer Hawliadau Mawr
Mae'r gronfa hon wedi'i chreu yn bennaf i dalu'r diffyg ar y gronfa bensiwn a hawliau o dan gontractau cyfalaf mawr, ac i liniaru hawliadau posibl eraill yn erbyn y Cyngor.

Cyllideb wrth Gefn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
Yn unol ag Egwyddor 12 y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, sefydlwyd cronfa wrth gefn a glustnodwyd i ddarparu capasiti ychwanegol i'w ddefnyddio yn ôl disgresiwn y Prif Swyddog Cyllid, ar gyfer rheoli problemau na ellir eu hosgoi wrth gyflawni arbedion y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Strategaeth Gwaredu Eiddo
Bydd y gronfa hon yn talu costau cyfreithiol, costau syrfewyr a chostau marchnata sy'n gysylltiedig â chynlluniau i waredu eiddo er mwyn creu derbyniadau cyfalaf i'r Cyngor

Cronfa wrth Gefn Tir y Cyhoedd
Defnyddir y gronfa wrth gefn hon ar gyfer gwaith ar briffyrdd a gweithgareddau cynnal a chadw ar dir y cyhoedd neu er enghraifft gwaith adnewyddu meysydd chwarae.

Costau Ad-drefnu Gwasanaethau / Diswyddo
Sefydlwyd y gronfa hon i dalu costau posibl yn ymwneud ag ailfodelu gwasanaethau a chostau diswyddo o ganlyniad i hynny yn ogystal ag ad-drefnu gwasanaethau megis y ddarpariaeth Gofal Ychwanegol fel y'i hamlinellwyd yn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2016-17.

Contract Rheoli Gwastraff
Bwriad y gronfa hon sydd wedi'i chlustnodi yw hwyluso'r contract casglu gwastraff nesaf gan fod y contract cyfredol yn dod i ben yn 2017. Defnyddir y balans bach yn llwyr yn 2017-18.

Y Bil Diwygio Lles
Sefydlwyd y gronfa hon i ariannu effaith bosibl cynnydd yn y galw am wasanaethau a fydd yn codi o'r Bil Diwygio Lles.

**Cronfeydd wrth Gefn y Cyfarwyddiaethau**

Strategaeth Meysydd Parcio
Mae'r gronfa hon wedi'i sefydlu ar gyfer y costau cychwynnol sy'n gysylltiedig â mentrau newydd i gynhyrchu incwm neu i leihau costau meysydd parcio.

Cronfa wrth Gefn ar gyfer Diogelwch Cymunedol
Cafodd y gronfa wrth gefn hon ei chreu ag arian a gafwyd gan sefydliadau partner ac fe'i defnyddir i dalu am wariant ar fentrau Diogelwch Cymunedol.

Materion y Cyfarwyddiaethau

Mae’r gronfa wrth gefn hon yn berthnasol i faterion penodol y Cyfarwyddiaethau a ragwelir yn 2017-18, ynghyd â rhai symiau a gafodd eu dwyn ymlaen o 2016-17. Er enghraifft gwella ceginau ysgol a system reoli gwybodaeth ar gyfer Arlwyo, swyddog i gynorthwyo’r broses o gyflwyno eGaffael yn y Cyngor a chymorth ar gyfer y Gwasanaeth Eiriolaeth i Blant.

Cronfeydd Rhoddion
Mae’r gronfa hon wedi’i sefydlu ar sail amryw o roddion dros nifer o flynyddoedd ac fe’i defnyddir ar gyfer gwariant yn y dyfodol yn unol â’r bwriadau gwreiddiol.

Cronfa wrth Gefn Adnoddau Dynol
Nod y gronfa wrth gefn hon yw cyflenwi’r costau ar gyfer modiwl newydd ar y System Cyflogres a’r broses o sganio’r cofnodion presennol.

System TG ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol
Pwrpas y gronfa wrth gefn hon yw prynu meddalwedd arbenigol i’w ddefnyddio i grynhoi ystadegau poblogaeth i lywio darpariaeth tai a chaniatau mynediad gwell ar gyfer y cyhoedd er mwyn crynhoi sylwadau ar gyfer yr adolygiad o’r Cynllun Datblygu Lleol sydd i ddod.

Cronfa Plant yn Derbyn Gofal
Mae’r gronfa hon wedi’i sefydlu i ddarparu ar gyfer y pwysau parhaus dros gyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyllideb Plant sy’n Derbyn Gofal yn y Gwasanaethau Cymorth i deuluoedd ac Addysg.

Cronfa Partneriaeth
Defnyddir y gronfa hon yn 2017-18 ar gyfer gwaith partneriaeth yn y Cyngor.

Adfywio Porthcawl
Mae’r gronfa hon wedi’i sefydlu i ariannu’r costau refeniw cychwynnol sy’n gysylltiedig ag adfywio arfaethedig Porthcawl.

Cronfa wrth Gefn Llwybrau Diogel i’r Ysgol
Mae’r gronfa wrth gefn hon wedi’i chreu i sicrhau bod llwybrau diogel i ysgolion ar gael yn dilyn newidiadau yn y Cludiant i Ddysgwyr.

Cronfa Prosiectau Ysgolion
Mae’r gronfa hon yn talu am wariant ar brosiectau ysgolion yn y dyfodol a’r costau cyllido a fydd yn gysylltiedig ag unrhyw fenthyciadau cyfalaf.

Cronfa wrth Gefn Craff am Wastraff
Mae’r gronfa wrth gefn hon yn darparu cyllid er mwyn hyrwyddo’r newidiadau i’r contract rheoli gwastraff ac i roi cymorth i’r canolfan gyswllt â chwsmeriaid.

Cronfa Gweddarlledu
Defnyddir hon i barhau â’r rhaglen o ddarlledu Cyfarfodydd Pwyllgor penodol ar wefan y Cyngor.

Prosiectau Llesiant
Sefydlwyd y gronfa hon i ganiatáu chwistrelliadau unigol o adnoddau ariannol i feysydd gwasanaeth i hwyluso newidiadau/datblygiadau sy’n gysylltiedig â’r Gwasanaeth Iechyd.

**Balansau Dirprwyedig Ysgolion**

Mae'r balansau hyn yn cynrychioli effaith gronnol gorwario a thanwario ar gyllidebau dirprwyedig yr ysgolion nad ydynt ar gael i'r Cyngor.

Dadansoddiad o Falans Dirprwyedig Ysgolion

| 2015-16 Cydbwysedd Cau £'000 | Mathau o Ysgolion | Niferoedd yn y categori | 2016-17 Cyllideb £'000 | 2016-17 Gwariant £'000 | 2016-17 Cydbwysedd Cau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1,532 | Ysgolion Cynradd | 50 | 45,369 | 44,903 | 466 |
| 162 | Ysgolion Uwchradd | 9 | 41,776 | 41,927 | (151) |
| 460 | Ysgolion Arbennig | 2 | 8,285 | 7,735 | 550 |
| **2,154** | **Cyfanswm** | **61** | **95,430** | **94,565** | **865** |

*Mae Balans Cau 2015-16 wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2016-17. Mae'r arfer cyfrifyddu hwn o gynnwys balans cau y flwyddyn flaenorol yng nghyllideb y flwyddyn bresennol yn berthnasol i ysgolion yn unig ac nid yw'n berthnasol i unrhyw faes arall o'r cyfrifon.*

**Cydraddoli a Grantiau wrth Gefn**

Grantiau Cyfrifyddu wrth Gefn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol
O dan arferion cyfrifyddu priodol, dylid dadansoddi pob grant a chyfraniad i wirio a oes unrhyw amodau penodol wedi eu hatodi iddynt. Pan fo'r amodau wedi eu bodloni, credydir y grant i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, ni waeth a yw'r gwariant gwirioneddol wedi ei ysgwyddo ai peidio. Yn yr achosion hyn, gall y Cyngor benderfynu trosglwyddo arian grant i gronfa wrth gefn a glustnodwyd i gyllido gwariant yn y dyfodol. Yn 2016-17, trosglwyddwyd £841,000 o grantiau newydd y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i sicrhau bod y cyllid wedi'i ddiogelu yn unol â thelerau ac amodau gwreiddiol y grant neu'r cyfraniad. Yn yr un modd, rhoddwyd arian o symiau a gymudwyd mewn Cronfa wrth Gefn ar gyfer Priffyrdd a bellach mae incwm o Orfodi Parcio Sifil yn gronfa wrth gefn a glustnodwyd benodol hefyd.

Cronfeydd wrth Gefn Cydraddoli Gwariant
Mae'r cronfeydd hyn yn sicrhau bod gwariant a ysgwyddir mewn blwyddyn benodol yn y dyfodol yn cael ei lyfnhau dros gyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Mae'r gwariant hwn yn cynnwys cost etholiadau, y Gronfa Adfywio Arbennig, paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Cronfeydd a Glustnodwyd ar gyfer Rheoli Adeiladu.

Cronfa wrth Gefn Cydraddoli PFI Ysgol Maesteg
Fel yr amlinellwyd yn nodyn 11 uchod, mae angen Cronfa Gydraddoli ar gyfer y Taliadau Unedol a geir oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer PFI Ysgol Maesteg.

**28. Cronfeydd wrth Gefn Annefnyddiadwy**

Mae'r nodiadau a ganlyn yn rhoi manylion Cronfeydd wrth Gefn Annefnyddiadwy'r Cyngor:-

**a) Cronfa Ailbrisio wrth Gefn (RR)**

Mae'r gronfa hon yn cadw'r enillion cronedig ar asedau sefydlog sydd gan y Cyngor yn sgil cynnydd mewn gwerth o ganlyniad i chwyddiant neu ffactorau eraill.

| 2015-16 | | | 2016-17 | |
|---|---|---|---|---|
| **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** |
| | 115,916 | **Balans ar 1 Ebrill** | | 127,291 |
| 19,280 | | Ailbrisio Asedau i fyny | 8,705 | |
| (3,299) | | Ailbrisio Asedau i lawr ac Amhariadau Colledion nas codwyd ar y Gwarged/Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau | (3,942) | |
| | **15,981** | **Gwarged neu ddiffyg ar ailbrisio asedau anghyfredol nas gosodwyd ar y Gwarged neu'r Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau** | | **4,763** |
| (2,464) | | Y gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth teg a dibrisiant cost hanesyddol | (3,341) | |
| (2,142) | | Enillion cronedig ar asedau a werthwyd neu a sgrapiwyd | (4,010) | |
| | (4,606) | Swm a ysgrifennwyd i ffwrdd i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf | | (7,351) |
| | **127,291** | **Balans ar 31 Mawrth** | | **124,703** |

### b) Y Gronfa Pensiynau wrth Gefn

Mae'r Gronfa Bensiynau Wrth Gefn yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n codi yn sgil y gwahanol drefniadau cyfrifyddu ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth ac ar gyfer buddion cyllid a hynny yn unol â'r darpariaethau statudol. Mae'r Cyngor yn cyfrif buddion ôl-gyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wrth i'r buddion gael eu hennill gan y gweithwyr sy'n cronni blynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddaru'r rhwymedigaethau a gydnabyddir er mwyn adlewyrchu chwyddiant, newid yn y rhagdybiaethau a'r enillion buddsoddi ar unrhyw adnoddau a neilltuwyd i dalu'r costau. Er hynny, mae'r trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r buddion a enillir gael eu hariannu wrth i'r Cyngor wneud cyfraniadau cyflogwr at y cronfeydd pensiwn neu wrth iddo dalu unrhyw bensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt yn y pen draw. Gan hynny mae'r balans debyd ar y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn yn dangos cryn ddiffyg yn y buddion a enillwyd gan weithwyr y gorffennol a'r presennol a'r adnoddau y mae'r Cyngor wedi'u neilltuo i'w talu. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau bod cyllid wedi'i neilltuo erbyn y bydd y buddion i'w talu.

| 2015-16 £'000 | | 2016-17 £'000 |
|---|---|---|
| (273,010) | **Balans ar 1 Ebrill** | (245,270) |
| 34,330 | Enillion neu golledion actiwaraidd ar asedau a rhwymedigaethau pensiwn | 1,960 |
| (26,600) | Gwrthdroad eitemau yn ymwneud â Buddion Ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Gwarged neu'r Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant | (26,140) |
| 20,010 | Cyfraniadau Pensiwn y Cyflogwr a Thaliadau Uniongyrchol i Bensiynwyr yn Daladwy yn y Flwyddyn | 17,000 |
| **(245,270)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(252,450)** |

### c) Cyfrif Addasu Cyfalaf (CAA)

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaeth amseru sy'n codi yn sgil y gwahanol drefniadau cyfrifyddu ar gyfer defnyddio asedau anghyfredol ac ar gyfer ariannu'r broses o gaffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny o dan ddarpariaethau statudol. Mae'r cyfrif yn cael ei ddebydu am gost caffael, adeiladu neu wella wrth i ddibrisiant, colledion amharu ac amorteiddiadau gael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gan gysoni o'r Gronfa Ailbrisio er mwyn trosi ffigurau gwerth teg i sail cost hanesyddol). Mae'r cyfrif yn cael ei gredydu â'r symiau a neilltuwyd gan yr Awdurdod fel cyllid ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella.

Mae'r cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi er nad oedd addasiadau perthnasol yn 2016-17.

Mae'r cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisio a gronnwyd ar Eiddo, Offer a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y cafodd y Gronfa Ailbrisio ei chreu i gadw enillion o'r fath.

| 2015-16 | | | 2016-17 | |
|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | | £'000 | £'000 |
| | **196,059** | **Balans ar 1 Ebrill** | | **192,078** |
| | | **Gwrthdroad eitemau yn ymwneud â gwariant cyfalaf a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Gwarged neu'r Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Cynhwysfawr:** | | |
| (23,087) | | Taliadau am ddibrisiant ac amhariad asedau anghyfredol | (22,945) | |
| (3,259) | | Colledion ailbrisio ar Eiddo, Peiriannau ac Offer | (1,064) | |
| (710) | | Gwariant Refeniw a Ariannwyd o Gyfalaf o dan Statud | (782) | |
| (5) | | Symiau eraill gan gynnwys Taliadau Morgais | (4) | |
| (3,998) | | Symiau'r asedau anghyfredol a ysgrifennwyd i ffwrdd wrth eu gwaredu neu eu gwerthu fel rhan o'r enilliad/colled wrth eu gwaredu i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant | (2,333) | |
| | (31,059) | | | (27,128) |
| | 2,464 | Symiau addasu a ysgrifennwyd allan i'r Gronfa Ailbrisio | | 3,341 |
| | **(28,595)** | **Swm net a ysgrifennwyd allan o gost yr asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn** | | **(23,787)** |
| | | **Cyllid cyfalaf a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn:** | | |
| 146 | | Defnydd y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf | 2,285 | |
| 13,610 | | Grantiau a chyfraniadau cyfalaf a gredydwyd i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant a ddefnyddiwyd ar gyfer cyllid cyfalaf | 6,486 | |
| 8,514 | | Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddi cyfalaf a godwyd yn erbyn Cronfa'r Cyngor | 10,301 | |
| 1,262 | | Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn Cronfa'r Cyngor | 2,105 | |
| | **23,532** | | | **21,177** |
| | 1,082 | Symudiad yng ngwerth marchnad Eiddo Buddsoddi a gredydwyd i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant | | - |
| | **192,078** | **Balans ar 31 Mawrth** | | **189,468** |

### ch) Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol (FIAA)

Mae hwn yn cadw'r gwahaniaeth rhwng y symiau sy'n cael eu codi ar incwm a gwariant yn unol â'r Cod ynglŷn â chymhwyso costau trafodion ac asesu cost deg dyledion ar fenthyciadau a buddsoddiadau a'r symiau sy'n cael eu codi ar Falans Cronfa'r Cyngor yn unol â'r statud. Cafodd y balans llawn a oedd ar ôl ar y cyfrif ar gyfer Premiymau ei dalu yn ystod 2015-16. Gan hynny, mae'r balans sy'n parhau ar y cyfrif hwn yn ymwneud a benthyciadau Opsiwn Rhoddwr Benthyciadau Opsiwn Cymerwr Benthyciadau (LOBO).

| 2015-16 £'000 | | 2016-17 £'000 |
|---|---|---|
| (3,632) | **Balans ar 1 Ebrill** | (739) |
| 76 | Addasiadau Premiymau / Disgowntiau | - |
| 7 | Addasiadau Benthyciadau / Buddsoddiadau | 8 |
| 2,810 | Premiymau a Dalwyd | - |
| **(739)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(731)** |

**d) Cyfrif Absenoldebau Cronedig Byrdymor**

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn amsugno gwahaniaethau a fyddai'n codi fel arall ar Falans Cronfa'r Cyngor drwy gronni absenoldebau iawndaledig a enillwyd ond nas cymerwyd yn ystod y flwyddyn, e.e. hawliau i gael gwyliau blynyddol a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth. Mae'r trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor gael ei niwtraleiddio drwy drosglwyddiadau i'r Cyfrif neu o'r Cyfrif.

| 2015-16 | | | 2016-17 | |
|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | | £'000 | £'000 |
| | (4,224) | **Balans ar 1 Ebrill** | | (2,359) |
| 4,224 | | Setliad neu ddileadau croniadau a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol | 2,359 | |
| (2,359) | | Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol | (2,793) | |
| | 1,865 | Swm y gwahaniaeth rhwng tâl swyddogion a godir ar y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant ar sail croniadau a'r tâl sy'n daladwy yn y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | | (434) |
| | **(2,359)** | **Balans ar 31 Mawrth** | | **(2,793)** |

## 29. Rhwymedigaethau pensiynau, datgeliadau IAS 19

Yn rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Cyngor yn cyfrannu at gost buddion ar ôl ymddeol. Er na fydd y buddion hyn yn daladwy nes bod y gweithwyr yn ymddeol, mae gan y Cyngor ymrwymiad i wneud y taliadau (ar gyfer y buddion hyn) a'u datgelu ar yr adeg y mae'r gweithwyr yn ennill eu hawl yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor hwn yn cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sy'n cael ei gweinyddu o dan y Rheoliadau sy'n llywodraethu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Cynllun buddion diffiniedig yw hwn, sy'n golygu bod y Cyngor a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, yn ôl cyfradd a bennir gan Actiwari'r Gronfa ar sail prisiadau actiwaraidd bob tair blynedd, gan anelu at gydbwyso 100% o'r rhwymedigaethau pensiwn ag asedau buddsoddi.

Ceir rhagor o wybodaeth yn Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sydd ar gael drwy wneud cais i'r Cyfarwyddwr Cyllid, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Bronwydd, Porth, Rhondda, Rhondda Cynon Taf.

http://www.rctpensions.org.uk

Trefniant budd diffiniedig heb ei gyllido yw unrhyw ddyfarniad buddion ar ôl ymddeol dewisol, ac o dan y trefniant hwn mae rhwymedigaethau'n cael eu cydnabod pan wneir y dyfarniad. Nid oes asedau buddsoddi'n cael eu cronni i dalu'r rhwymedigaethau pensiwn hyn, ac mae'n rhaid cynhyrchu arian

parod i dalu'r taliadau pensiwn eu hunain pan fo'r rheiny'n ddyledus. Prif risgiau'r cynllun i'r Cyngor yw'r rhagdybiaethau ynghylch hirhoedledd, newidiadau statudol yn y cynllun, newidiadau strwythurol yn y cynllun (hynny yw tynnu'n ôl o'r cynllun ar raddfa fawr), newidiadau mewn chwyddiant, enillion bondiau, a pherfformiad y buddsoddiadau ecwiti sydd gan y cynllun. Mae'r rhain yn cael eu lleddfu i raddau gan y gofynion statudol bod rhaid codi'r symiau sy'n ofynnol o dan y statud o'r Gronfa yn unol â'r disgrifiad yn y nodyn ar y polisïau cyfrifyddu.

Mae'r Datgeliadau sy'n angenrheidiol ar gyfer 2016-17 yn cynnwys gwybodaeth a roddwyd gan weinyddwyr y pensiwn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac Aon Hewitt Associates Limited fel actiwari'r pensiwn.

**Trafodiadau ynglŷn â Buddion ar ôl Ymddeol**

Mae cost buddion ymddeol yn cael ei chydnabod yn y gost a gofnodir ar gyfer gwasanaethau pan gânt eu hennill gan y gweithwyr, yn hytrach na phan delir y buddion yn y pen draw ar ffurf pensiynau. Er hynny, mae'r taliad y mae'n ofynnol ei godi yn erbyn y Dreth Gyngor yn cael ei seilio ar yr arian parod sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly mae cost wirioneddol buddion ar ôl ymddeol yn cael ei gwrth-droi allan o Gronfa'r Cyngor drwy'r Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion a ganlyn wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ac ym Malans Cronfa'r Cyngor drwy'r Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn:-

| Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £m 2015-16 | Buddion LGPS heb eu Cyllido £m 2015-16 | Buddion Athrawon heb eu Cyllido £m 2015-16 | Cyfanswm £m 2015-16 | Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £m 2016-17 | Buddion LGPS heb eu Cyllido £m 2016-17 | Buddion Athrawon heb eu Cyllido £m 2016-17 | Cyfanswm £m 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Cost y Gwasanaethau:** | | | | |
| | | | | **Cost y gwasanaethau'n cynnwys:** | | | | |
| 17.56 | 0.00 | 0.00 | **17.56** | Cost y gwasanaeth cyfredol | 17.59 | 0.00 | 0.00 | **17.59** |
| 0.59 | 0.00 | 0.00 | **0.59** | Cost y gwasanaeth yn y gorffennol | 0.50 | 0.00 | 0.00 | **0.50** |
| 0.00 | 0.00 | 0.00 | **0.00** | (enilliad)/colled o setliadau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | **0.00** |
| | | | | **Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi:-** | | | | |
| 8.05 | 0.25 | 0.15 | **8.45** | Cost net y llogau | 7.65 | 0.25 | 0.15 | **8.05** |
| **26.20** | **0.25** | **0.15** | **26.60** | **Cyfanswm Taliadau Buddion Ôl-gyflogaeth i'r Gwarged neu'r Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **25.74** | **0.25** | **0.15** | **26.14** |
| | | | | **Other Post Employment Benefit Charged to the Comprehensive Income & Expenditure Statement** | | | | |
| | | | | *Ailfesuriadau'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig net yn cynnwys:* | | | | |
| (1.54) | 0.00 | 0.00 | **(1.54)** | Enillion ar asedau'r cynllun (heb gynnwys y swm a gynhwyswyd yng nghost net y llogau) | (62.39) | 0.00 | 0.00 | **(62.39)** |
| (26.08) | (0.26) | (0.15) | **(26.49)** | (Enillion)/colledion actiwaraidd oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | 138.41 | 0.67 | 0.38 | **139.46** |
| 0.00 | 0.00 | 0.00 | **0.00** | (Enillion)/colledion actiwaraidd oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig | (28.69) | (0.20) | (0.12) | **(29.01)** |
| (6.08) | (0.14) | (0.08) | **(6.30)** | (Enillion)/colledion actiwaraidd oherwydd rhwymedigaethau | (49.93) | (0.06) | (0.03) | **(50.02)** |
| **(33.70)** | **(0.40)** | **(0.23)** | **(34.33)** | **Cyfanswm taliadau'r Buddion Ôl-gyflogaeth i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant** | **(2.60)** | **0.41** | **0.23** | **(1.96)** |
| | | | | **Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd:-** | | | | |
| (26.20) | (0.25) | (0.15) | **(26.60)** | Gwrthdroad y taliadau net a wnaed am fuddion ymddeol yn unol ag IAS 19 | (25.74) | (0.25) | (0.15) | **(26.14)** |
| | | | | **Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor am bensiynau yn y flwyddyn:-** | | | | |
| 19.09 | 0.49 | 0.43 | **20.01** | Cyfraniadau'r Cyflogwr yn daladwy i'r cynllun | 16.12 | 0.48 | 0.40 | **17.00** |
| (21.98) | (0.49) | (0.43) | **(22.90)** | Buddion Ymddeol a dalwyd allan | (22.03) | (0.48) | (0.40) | **(22.91)** |

**Asedau Pensiynau a Rhwymedigaethau a Gydnabyddir yn y Fantolen**

Mae’r symiau a gynhwysir yn y Fantolen sy’n codi o rwymedigaeth y Cyngor mewn perthynas â’i gynllun buddion diffiniedig fel a ganlyn:-

| Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £m 2015-16 | Buddion LGPS heb eu Cyllido £m 2015-16 | Buddion Athrawon heb eu Cyllido £m 2015-16 | Cyfanswm £m 2015-16 | | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £m 2016-17 | Buddion LGPS heb eu Cyllido £m 2016-17 | Buddion Athrawon heb eu Cyllido £m 2016-17 | Cyfanswm £m 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 689.16 | 7.63 | 4.56 | **701.35** | Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig | 772.59 | 7.81 | 4.54 | **784.94** |
| (456.08) | 0.00 | 0.00 | **(456.08)** | Gwerth teg Asedau’r Cynllun | (532.49) | 0.00 | 0.00 | **(532.49)** |
| **233.08** | **7.63** | **4.56** | **245.27** | **Rhwymedigaeth net sy’n codi o’r rhwymedigaeth buddion diffiniedig** | **240.10** | **7.81** | **4.54** | **252.45** |

**Cysoni’r Symudiadau yng Ngwerth Teg Asedau’r Cynllun**

| £m 2015-16 | | £m 2016-17 |
|---|---|---|
| 438.85 | **Gwerth teg agoriadol asedau’r cynllun** | 456.08 |
| 14.03 | Incwm o logau ar yr asedau | 15.49 |
| | Enilliad/(colled) ailfesuriadau: | |
| 1.54 | Yr enillion ar asedau’r cynllun, heb gynnwys y swm a gynhwyswyd yng nghost net y llogau | 62.39 |
| 19.09 | Cyfraniadau gan y Cyflogwr | 16.12 |
| 4.55 | Cyfraniadau gan yr Aelodau | 4.44 |
| (21.98) | Buddion Net a dalwyd allan | (22.03) |
| **456.08** | **Balans ar 31 Mawrth** | **532.49** |

**Cysoni Gwerth Presennol Rhwymedigaethau'r Cynllun (Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig)**

| Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £m 2015-16 | Buddion LGPS heb eu Cyllido £m 2015-16 | Buddion Athrawon heb eu Cyllido £m 2015-16 | Cyfanswm £m 2015-16 | | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £m 2016-17 | Buddion LGPS heb eu Cyllido £m 2016-17 | Buddion Athrawon heb eu Cyllido £m 2016-17 | Cyfanswm £m 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 698.52 | 8.27 | 5.07 | 711.86 | **Balans agoriadol ar 1 Ebrill** | 689.16 | 7.63 | 4.56 | 701.35 |
| 17.56 | 0.00 | 0.00 | 17.56 | Cost Bresennol y Gwasanaeth | 17.59 | 0.00 | 0.00 | 17.59 |
| 22.08 | 0.25 | 0.15 | 22.48 | Cost Llogau | 23.14 | 0.25 | 0.15 | 23.54 |
| 4.55 | 0.00 | 0.00 | 4.55 | Cyfraniadau gan aelodau'r cynllun | 4.44 | 0.00 | 0.00 | 4.44 |
| 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | (Enillion) a cholledion ailfesuriadau: | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| (26.08) | (0.26) | (0.15) | -26.49 | Enillion/colledion actiwaraidd yn codi o newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | 138.41 | 0.67 | 0.38 | 139.46 |
| 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Enillion/colledion actiwaraidd yn codi o newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig | (28.69) | (0.20) | (0.12) | -29.01 |
| (6.08) | (0.14) | (0.08) | -6.30 | (Enillion)/colledion actiwaraidd oherwydd rhwymedigaethau | (49.93) | (0.06) | (0.03) | -50.02 |
| 0.59 | 0.00 | 0.00 | 0.59 | Cost y Gwasanaeth yn y Gorffennol | 0.50 | 0.00 | 0.00 | 0.50 |
| (21.98) | (0.49) | (0.43) | -22.90 | Buddion a dalwyd | (22.03) | (0.48) | (0.40) | -22.91 |
| 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Rhwymedigaethau a ddilëwyd ar setliadau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| **689.16** | **7.63** | **4.56** | **701.35** | **Balans ar 31 Mawrth** | **772.59** | **7.81** | **4.54** | **784.94** |

**Asedau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:**

| Gwerth Teg Asedau'r Cynllum 2015-16 £m | Rhaniad Asedau 2015-16 % | | Gwerth Teg Asedau'r Cynllum 2016-17 £m | Rhaniad Asedau 2016-17 % |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **15.826** | **3.47** | **Arian Parod a Gwerthoedd Cyfwerth ag Arian Parod** | **11.036** | **2.07** |
| | | **<u>Offerynnau Ecwiti:</u>** | | |
| | | *Yn ôl y math o ddiwydiant (Sector FTSE)* | | |
| 8.483 | 1.86 | Olew a Nwy | 9.928 | 1.86 |
| 6.111 | 1.34 | Deunyddiau Sylfaenol | 13.559 | 2.55 |
| 37.034 | 8.12 | Diwydiannol | 49.307 | 9.26 |
| 38.539 | 8.45 | Nwyddau Defnyddwyr | 50.380 | 9.46 |
| 25.586 | 5.61 | Gofal Iechyd | 31.902 | 5.99 |
| 49.393 | 10.83 | Gwasanaethau Iechyd | 49.669 | 9.33 |
| 2.052 | 0.45 | Telathrebu | 1.615 | 0.30 |
| 4.834 | 1.06 | Cyfleustodau | 2.916 | 0.55 |
| 58.013 | 12.72 | Cyllid | 64.845 | 12.18 |
| 31.060 | 6.81 | Technoleg | 50.835 | 9.55 |
| 0.000 | 0.00 | Eiddo tiriog | 0.608 | 0.11 |
| 54.047 | 11.85 | Cyfryngau Buddsoddi Ecwiti Cyffredin | 64.564 | 12.12 |
| **315.152** | **69.10** | **Is-gyfanswm ecwiti** | **390.128** | **73.26** |
| | | **Bondiau:** | | |
| | | *Yn ôl sector* | | |
| 50.351 | 11.04 | Corfforaethol | 53.845 | 10.11 |
| 44.787 | 9.82 | Llywodraeth | 47.223 | 8.87 |
| **95.138** | **20.86** | **Is-gyfanswm bondiau** | **101.068** | **18.98** |
| | | **Eiddo:** | | |
| | | *Yn ôl y math* | | |
| 7.525 | 1.65 | Manwerthu | 7.686 | 1.44 |
| 3.785 | 0.83 | Swyddfeydd | 4.085 | 0.77 |
| 6.932 | 1.52 | Diwydiannol | 6.959 | 1.31 |
| 11.722 | 2.57 | Masnachol Arall | 11.528 | 2.17 |
| **29.964** | **6.57** | **Is-gyfanswm eiddo** | **30.258** | **5.69** |
| | | | | |
| **456.080** | **100.00** | **Cyfanswm yr asedau** | **532.490** | **100.00** |

**Y Sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau**

Mae’r Rhwymedigaethau wedi’u hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio dull amcanestyniad credydau unedol, sy’n amcangyfrif o’r pensiynau a fydd yn daladwy yn y dyfodol, gan ddibynnu ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, lefelau cyflogau etc.
Mae rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a rhwymedigaethau buddion dewisol wedi’u cyfrifo gan Aon Hewitt, cwmni annibynnol o actiwarïaid, yn unol ag IAS 19.
Dyma’r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd gan yr Actiwari:

| 2015-16 % pa | | 2016-17 % pa |
|---|---|---|
| 3.40 | Cyfradd ddisgowntio | 2.60 |
| 1.80 | Cyfradd codiadau pensiwn | 2.00 |
| 3.30 | Cyfradd codiadau cyfloga | 3.25 |
| **Years** | | **Years** |
| | *Rhagdybiaethau marwolaeth:* | |
| | Hirhoedledd yn 65 i'r pensiynwyr presennol:- | |
| 23.10 | Dynion | 22.80 |
| 26.00 | Menywod | 24.90 |
| | Hirhoedledd yn 65 i bensiynwyr y dyfodol:- | |
| 25.30 | Dynion | 25.00 |
| 28.40 | Menywod | 27.20 |

Mae'r amcangyfrif o rwymedigaethau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd a nodir yn y tabl uchod. Mae'r dadansoddiad o'r sensitifrwydd isod wedi'i bennu ar sail y siawns resymol bosibl y bydd y rhagdybiaethau'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gan ragdybio yn achos pob rhagdybiaeth bod y rhagdybiaeth a ddadansoddwyd yn newid tra bydd yr holl ragdybiaethau eraill yn aros yn gyson. Mae'r rhagdybiaethau hirhoedledd, er enghraifft, yn rhagdybio y bydd disgwyliad oes dynion a menywod yn cynyddu neu'n gostwng. Yn ymarferol, nid yw hyn yn debygol o ddigwydd, a gall newidiadau mewn rhai o'r rhagdybiaethau fod yn gysylltiedig â hyn. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad sensitifrwydd wedi dilyn polisïau cyfrifyddu'r cynllun, hynny yw ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio dull amcangyfrif credydau unedol. Nid yw'r dulliau na'r mathau o ragdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd isod yn wahanol i'r rhai a ddefnyddiwyd yn y cyfnod blaenorol.

| Cynnydd yn y rhagdybiaeth 2015-16 | Gostyngiad yn y rhagdybiaeth 2015-16 | | Cynnydd yn y rhagdybiaeth 2016-17 | Gostyngiad yn y rhagdybiaeth 2016-17 |
|---|---|---|---|---|
| £m | £m | | £m | £m |
| (13.17) | 13.42 | Cyfradd ddisgowntio rhwymedigaethau'r cynllun (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | (14.08) | 14.34 |
| 2.89 | (2.86) | Cyfradd cynnydd cyflogau (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | 2.81 | (2.79) |
| 10.51 | (10.33) | Cyfradd cynyddu pensiynau (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | 11.50 | (11.31) |
| 17.51 | (17.55) | Hirhoedledd (cynnydd neu ostyngiad o 1 flwyddyn) | 22.98 | (22.83) |

**Yr effaith ar lifoedd arian y Cyngor**

Mae natur gyllidedig Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyflogwr a'i gyflogeion dalu cyfraniadau i'r gronfa, wedi'u cyfrifo ar lefel y bwriedir iddi gydbwyso'r rhwymedigaethau pensiwn ag asedau buddsoddi. Bydd yr Actiwari'n cynnal y Prisiad Actiwaraidd nesaf ar 31 Mawrth 2019. Yr yr adeg honno bydd cyfradd gyfredol y Cyflogwr i sicrhau lefel gyllid o 100% o rwymedigaethau'r cynllun yn cael ei hadolygu. O ganlyniad, er bod diffyg (rhwymedigaeth) sylweddol rhwng y buddion a enillwyd gan gyflogeion yn y gorffennol a'r presennol a'r adnoddau y mae'r Cyngor wedi'u neilltuo i'w talu, bydd y trefniadau statudol yn sicrhau bod arian wedi'i neilltuo erbyn yr adeg y mae'r buddion i'w talu.

Dyma gyfraniadau disgwyliedig y cyflogwr i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018:-

| | 2017-18<br>£m |
|---|---|
| Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | 29.18 |
| Buddion LGPS heb eu Cyllido | 0.20 |
| Buddion Athrawon heb eu Cyllido | 0.11 |
| **Cyfanswm** | **29.49** |

Hyd cyfartalog pwysoledig y rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar gyfer aelodau'r cynllun yw 18.4 o flynyddoedd, sydd yr un fath ag ar gyfer 2015-16.

Athrawon

Yn 2016-17, talodd y Cyngor £8.1 miliwn (£7.6 miliwn ar gyfer 2015-16) i'r Asiantaeth Pensiynau Athrawon ar gyfer costau pensiynau athrawon. Roedd y cynnydd yn deillio o gyfradd cyfraniadau cyflogwr uwch yn 2015-16. Hefyd, mae'r Cyngor yn gyfrifol am yr holl daliadau pensiwn sy'n ymwneud â blynyddoedd ychwanegol a ddyfernir, ynghyd â'r cynnydd perthynol. Yn 2016-17, daeth y rhain i gyfanswm o £0.451 miliwn (£0.5 miliwn ar gyfer 2015-16).

**30. Datgeliadau Offerynnau Ariannol**

Mae offeryn ariannol yn gontract sy'n arwain at ased ariannol i un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti i endid arall. Nid yw trafodion heb gyfnewidiad, megis y rhai sy'n ymwneud â threthi a Grantiau'r Llywodraeth, yn arwain at offerynnau ariannol.

**Asedau Ariannol**

Mae ased ariannol yn hawl i gael buddion economaidd yn y dyfodol sydd o dan reolaeth y Cyngor ac a gynrychiolir gan arian parod neu offerynnau eraill neu hawl mewn contract i dderbyn arian parod neu ased ariannol arall. Mae'r asedau ariannol sydd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn cael eu dosbarthu fel Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy, sy'n asedau ac iddynt symiau sefydlog neu symiau a all gael eu pennu ond nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn marchnad weithredol. Maent yn cael eu cario yn y Fantolen yn ôl y gost amorteiddiedig. Mae credydau blynyddol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am logau derbyniadwy wedi'u seilio ar swm cario'r ased wedi'i luosi â'r gyfradd log sydd ar waith ar gyfer yr offeryn.

Manylir isod ar Fuddsoddiadau Byrdymor ac Arian Parod a Gwerthoedd Cyfwerth ag Arian Parod (sydd wedi eu cynnwys yn Asedau Cyfredol) yn y Fantolen:

| 31 Mawrth 2016<br>Mantolen<br>£'000 | Buddsoddiadau Byrdymor ac Arian Parod a Gwerthoedd Cyfwerth ag Arian Parod | 31 Mawrth 2017<br>Mantolen<br>£'000 |
|---|---|---|
| 14,543 | Buddsoddiadau (< blwyddyn) | 26,572 |
| **14,543** | **Cyfanswm y Buddsoddiadau Brydymor** | **26,572** |
| 9,502 | Arian Parod a'r Gwerthoedd Cyfwerth ag Arian Parod (Adneuon) | 3,250 |
| (2,320) | Arian mewn Llaw/Gorddrafft | (1,586) |
| **7,182** | **Cyfanswm yr Arian Parod a'r Gwerthoedd Cyfwerth ag Arian Parod** | **1,664** |
| 5,771 | Symiau Masnach Byrdymor Derbyniadwy (Dyledwyr) | 7,713 |
| **27,496** | **Cyfanswm yr Asedau Ariannol Cyfredol** | **35,949** |

*Mae cyfanswm y buddsoddiadau byrdymor yn cynnwys £10,334, sef llog cronedig mewn buddsoddiadau hirdymor ynghyd â llog byrdymor o £62,044. Mae'r ffigur uchod o £7.713 miliwn ar

gyfer symiau masnach byrdymor derbyniadwy (Dyledwyr) yn cyfeirio at nwyddau a gwasanaethau sydd wedi'u rhoi a dangosir dadansoddiad o oedran dyled y dyledwyr hyn yn yr adran ar Risg Credyd. Mae'r ffigur hwn wedi'i gynnwys yn y ffigur Dyledwyr Byrdymor o £29.370 miliwn yn y Fantolen sydd hefyd yn cynnwys dyledwyr nad ydynt yn ateb y diffiniad o rwymedigaeth ariannol ac mae Nodyn 22 yn rhoi gwybodaeth fanylach am ffigur y Cyfanswm Dyledwyr Byrdymor.

O dan Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 13, mae Gwerth Teg ased ariannol yn cael ei ddiffinio bellach fel y pris a geid am werthu ased mewn trafodiad trefnus rhwng aelodau o farchnad ar y dyddiad mesur. Dim ond ar gyfer rhwymedigaethau ariannol hirdymor y mae angen i werthoedd teg gael eu datgelu gan y rhagdybir bod gwerth ein hofferynnau byrdymor, gan gynnwys symiau masnach derbyniadwy yn debyg i'r swm cario ac felly nid oes gwerthoedd teg wedi'u datgelu uchod. Ceir 3 lefel yn hierarchaeth gwerth teg ar gyfer cyfrifiadau, ond oherwydd y math o rwymedigaethau ariannol sydd gennym yr unig lefel sy'n gymwys i'r Cyngor ar 31 Mawrth 2017 yw lefel 2, lle mae'r gwerth teg yn cael ei gyfrifo ar sail mewnbynnau heblaw prisiau a ddyfynwyd sy'n arsylwadwy ar gyfer yr ased – sef y cyfraddau llog neu'r enillion ar gyfer offerynnau tebyg.

Cafwyd dau fuddsoddiad hirdymor newydd yn 2016-17 am 4 blynedd, ar gyfanswm o £4 miliwn. Y ffigurau ar gyfer Buddsoddiadau Hirdymor yn y fantolen yw £4.003 miliwn (£2.007 miliwn ar 31 Mawrth 2016). Y Gwerth Teg (Lefel 2) yw £4.037 miliwn sydd wedi'i gyfrifo drwy ddisgowntio yn ôl cyfradd y farchnad ar gyfer offeryn tebyg sydd â chyfnod cyfatebol cyn aeddfedu ar 31 Mawrth 2017.

| 31 Mawrth 2016 | | | | 31 Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mantolen £'000 | Gwerth Teg £'000 | | Lefel Gwerth Teg | Mantolen £'000 | Gwerth Teg £'000 |
| 2,007 | 2,011 | Long Term Investments | 2 | 4,000 | 4,037 |

**Rhwymedigaethau Ariannol**

Mae rhwymedigaeth ariannol yn rhwymedigaeth i drosglwyddo buddion economaidd a reolir gan y Cyngor a gall gael ei chynrychioli gan rwymedigaeth mewn contract i roi arian parod neu asedau ariannol neu rwymedigaeth i gyfnewid asedau a rhwymedigaeth ariannol gydag endid arall. Mae rhwymedigaethau ariannol yn cael eu mesur i ddechrau yn ôl y gwerth teg a'u cario yn ôl eu cost amorteiddiedig. Mae taliadau blynyddol ar yr adran Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog sy'n daladwy yn cael eu seilio ar swm cario'r offeryn, wedi'i luosi â'r gyfradd log sydd mewn grym ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r Benthyciadau sydd gan y Cyngor, mae hyn yn golygu mai'r swm a welir yn y Fantolen yw'r prifswm sy'n dal ar ôl i'w ad-dalu ynghyd ag unrhyw logau cronedig a llog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am y flwyddyn yn unol â chytundeb y benthyciad.

Mae gan y Cyngor dri benthyciad Opsiwn Rhoddwr Benthyciadau Opsiwn Cymerwr Benthyciadau (LOBOs) gyda chyfraddau llog fesul cam. Cyfradd log weithredol a ddefnyddiwyd ar gyfer y rhain er mwyn i'r rhain fod yn symiau sydd wedi'u hailfesur ar gyfer y LOBOs ar y Fantolen.

Pan fo premiymau a disgowntiau ar ad-daliadau cynnar wedi'u codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae'r rheoliadau'n caniatáu i'r effaith ar Gronfa'r Cyngor gael ei rhannu dros flynyddoedd y dyfodol. Mae cysoniad y symiau sy'n cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr â'r tâl net y mae ei angen yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor yn cael ei reoli drwy drosglwyddiad i mewn neu allan o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Mae rhwymedigaethau ariannol anneilliadol y Cyngor yn cael eu cario yn y Fantolen yn ôl y gost amorteiddiedig wedi'u rhannu rhwng byrdymor a hirdymor. Ceir manylion y Benthyciadau Byrdymor yn y Fantolen isod:

| 31 Mawrth 2016 £'000 | Benthyciadau Brydymor a Rhwymedigaethau Ariannol Byrdymor Erail | 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---|---|
| (278) | Benthyciadau Hirdymor llog cronedig | (272) |
| (57) | Escrow (Bocam Park) Brydymor | (60) |
| (229) | Escrow (Wind Farms) Brydymor | (230) |
| (346) | Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg/Gwasanaethau Cymdiethasol | (340) |
| (50) | Cronfeydd Ymddiriedolaeth Eraill | (50) |
| **(960)** | **Benthyciadau Brydymor** | **(952)** |
| (5,103) | Symiau Masnach Fyrdymor Taladwy (Credydwyr) | (5,245) |
| (1,176) | Rhwymedigaethau Ariannol Byrdymor (Credydwyr) Eraill | (404) |
| **(7,239)** | **Cyfanswm y Rhwymedigaethau Ariannol Cyfredol** | **(6,601)** |

Mae ffigur y Symiau Masnach Fyrdymor Taladwy (Credydwyr), sef £5.245 miliwn, yn ymwneud â symiau taladwy am nwyddau a gwasanaethau a gafwyd. Nid yw 45% o'r ffigur hwn yn ddyledus i'w dalu a bydd 55% yn ddyledus o fewn 6 mis. Mae'r ffigur Rhwymedigaethau Ariannol byrdymor arall o £0.407 miliwn yn cynrychioli arian sydd gan y Cyngor ar ran gwahanol drydydd partïon.

Mae gwerth y rhwymedigaeth fyrdymor sy'n ymwneud â Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill 2016-17, yn cynnwys y canlynol:-

| 31 Mawrth 2016 £'000 | Rhwymedigaeth Fyrdymor yn ymwneud â Rhwymedigaethau Brydymor Eraill | 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---|---|
| (552) | Rhwymedigaeth Prydles PFI Ysgol Maesteg | (595) |
| (55) | Rhwymedigaeth Ariannol y Ganolfan Arloesi | (60) |
| (50) | Contract Gwastraff (MREC) | (50) |
| **(657)** | **Cyfanswm** | **(705)** |

Mae'r £5.245 miliwn, yr £0.407 miliwn a'r £0.705 miliwn a welir yn y ddau dabl uchod i gyd wedi'u cynnwys yn y ffigur ar gyfer Credydwyr Byrdymor yn y Fantolen o £27.213 miliwn sydd hefyd yn cynnwys credydwyr nad oeddent yn cyfateb i'r diffiniad o rwymedigaeth ariannol ac nad oes manylion amdanynt ar gael yma felly. Mae Nodyn 24 yn rhoi gwybodaeth fanylach am ffigur y Cyfanswm Credydwyr Byrdymor.

O dan Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 13 mae gwerth teg rhwymedigaeth ariannol yn cael ei ddiffinio fel y pris a gâi ei dalu er mwyn trosglwyddo rhwymedigaeth mewn trafodiad trefnus rhwng aelodau o farchnad ar y dyddiad mesur. Dim ond ar gyfer rhwymedigaethau ariannol hirdymor y Cyngor y mae angen datgelu'r gwerth teg, gan y rhagdybir bod gwerth teg ein hofferynnau byrdymor, gan gynnwys symiau masnach taladwy yn debyg i'r swm cario, ac felly nid oes gwerthoedd teg wedi'u datgelu uchod. Ceir 3 lefel yn hierarchaeth gwerth teg ar gyfer cyfrifiadau, ond oherwydd y math o rwymedigaethau ariannol sydd gennym yr unig lefel sy'n gymwys i'r Cyngor at 31 Mawrth 2017 yw lefel 2 lle mae'r gwerth yn cael ei gyfrifo ar sail mewnbynnau heblaw prisiau dyfynedig a all gael eu gweld ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth – sef y cyfraddau llog neu'r enillion ar gyfer offerynnau tebyg.

Mae gwerth teg yr offerynnau ariannol hirdymor wedi'u hamcangyfrif drwy gyfrifo gwerth presennol net gweddill y llifoedd arian parod mewn contractau ar 31 Mawrth 2017, sy'n rhoi amcangyfrif o werth taliadau yn y dyfodol yn nhermau'r presennol, gan ddefnyddio'r dulliau a'r rhagdybiaethau a ganlyn:

- Mae gwerth teg benthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) wedi'u disgowntio yn ôl cyfraddau'r farchnad ar gyfer benthyciadau awdurdodau lleol dros yr un cyfnod sydd ar ôl cyn aeddfedu ar 31 Mawrth.

- Mae gwerth benthyciadau "Opsiwn Rhoddwr Benthyciadau Opsiwn Cymerwr Benthyciadau" (LOBO) wedi'i godi yn unol â gwerth yr opsiynau ymgorfforedig. Mae opsiynau rhoddwr y benthyciad o ran cynnig cynnydd yn y gyfradd log ar y benthyciad wedi'u prisio yn ôl model pwrpasol ar gyfer cyfnewidiadau dileadwy Bermuda. Mae pris opsiynau digwyddiadol cymerwr y benthyciad o ran derbyn y gyfradd uwch ynteu ad-dalu'r benthyciad wedi'i osod ar sero, ar y rhagdybiaeth mai dim ond pan fydd cyfraddau'r farchnad wedi codi uwchlaw'r gyfradd log yn y contract y bydd rhoddwyr y benthyciad yn arfer eu hopsiynau.

- Mae gwerth teg rhwymedigaethau ariannol hirdymor eraill wedi'i gyfrifo drwy ddisgowntio'r llifoedd arian parod yn y contract (ac eithrio elfennau ar gyfer tâl gwasanaeth) yn ôl yr enillion ar fond corfforaethol ar y gyfradd AA briodol.

Mae'r ffigur ar gyfer benthyciadau hirdymor yn y fantolen, sef £97.432 miliwn, yn cynnwys y canlynol:

| 31 Mawrth 2016 | | | | | 31 Mawrth 2017 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prifswm heb ei Dalu £'000 | Mantolen £'000 | Gwerth Teg £'000 | Benthyciadau hirdymor | Lefel Gwerth Teg | Prifswm heb ei Dalu £'000 | Mantolen £'000 | Gwerth Teg £'000 |
| (77,617) | (77,617) | (103,678) | PWLB (hirdymor) | 2 | (77,617) | (77,617) | (115,604) |
| **(77,617)** | **(77,617)** | **(103,678)** | **Cyfanswm dyled PWLB** | | **(77,617)** | **(77,617)** | **(115,604)** |
| (19,250) | (19,817) | (29,878) | LOBO's | 2 | (19,250) | (19,815) | (33,208) |
| **(19,250)** | **(19,817)** | **(29,878)** | **Cyfanswm Benthyciadau'r Farchnad** | | **(19,250)** | **(19,815)** | **(33,208)** |
| **(96,867)** | **(97,434)** | **(133,556)** | **Cyfanswm Benthyciadau'r Hirdymor** | | **(96,867)** | **(97,432)** | **(148,812)** |

Ceir manylion ffigur PFI a rhwymedigaethau hirdymor eraill yn y fantolen, sef £21.064 miliwn, isod:

| 31 Mawrth 2016 | | Rhwymedifaethau Hirdymor Eraill | | 31 Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mantolen £'000 | Gwerth Teg £'000 | | Lefel Gwerth Teg | Mantolen £'000 | Gwerth Teg £'000 |
| (18,235) | (26,499) | Rhwymedigaeth Prydles PFI Maesteg | 2 | (17,640) | (26,854) |
| (664) | (961) | Rhwymedigaeth Ariannol y Ganolfan Arloesi | 2 | (604) | (887) |
| (400) | (406) | Contract Gwastraff (MREC) | 2 | (350) | (378) |
| (60) | (60) | Escrow (Clwb Pel-droêd) | Cost | (70) | (70) |
| (2,400) | (2,400) | Llynfi | Cost | (2,400) | (2,400) |
| **(21,759)** | **(30,326)** | **Cyfanswm Rhwymedifaethau Hirdymor Eraill** | | **(21,064)** | **(30,589)** |

Mae gwerth teg rhwymedigaethau ariannol a ddelir ar y gost amorteiddiedig yn uwch na'u swm cario ar y fantolen oherwydd bod portffolio benthyciadau'r Cyngor yn cynnwys nifer o fenthyciadau lle mae'r gyfradd log sy'n daladwy yn uwch na'r cyfraddau cyfredol sydd ar gael ar gyfer benthyciadau tebyg ar ddyddiad y Fantolen.

## Cydbwyso Asedau a Rhwymedigaethau Ariannol

Mae asedau a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cydbwyso yn erbyn ei gilydd os oes gan y Cyngor hawl sy'n orfodadwy yn y gyfraith i gydbwyso a'i fod yn bwriadu naill ai setlo ar sail net, neu wireddu'r ased a setlo'r rhwymedigaeth yr un pryd. Mae'r tabl isod yn dangos yr offerynnau hynny sydd wedi'u cydbwyso ar y fantolen. Nid oedd gan y Cyngor unrhyw asedau na rhwymedigaethau ariannol eraill a oedd yn dod o dan drefniant netio gorfodadwy neu gytundeb tebyg.

| 31 Mawrth 2016 Asedua (Rhwymedig-aethau) Gros | Cydbwyso Asedau a Rhwymedigaethau Ariannol | 31 Mawrth 2017 Asedua (Rhwymedig-aethau) Gros |
|---|---|---|
| 1,974 | Cyfrifon Banc mewn Credyd | 1,920 |
| **1,974** | **Cyfanswm yr Asedau Ariaonnol** | **1,920** |
| (2,229) | Gorddrafftiau Banc | (2,012) |
| **(2,229)** | **Cyfanswm y Rhwymedigaethau Ariannol** | **(2,012)** |
| **(255)** | **Sefyllfa Net ar y Fantolen** | **- 92** |

**Offerynnau Ariannol – Enillion a Cholledion**

Mae'r enillion a'r colledion a gydnabuwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn gysylltiedig ag offerynnau ariannol yn cynnwys y canlynol:

| 31 Mawrth 2016 | | | | 31 Mawrth 2017 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhwymedig-aethau Ariannol Cost wedi'i Amorteiddio £'000 | Asedau Ariannol Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy £'000 | Cyfanswm £'000 | | Rhwymedig-aethau Ariannol Cost wedi'i Amorteiddio £'000 | Asedau Ariannol Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy £'000 | Cyfanswm £'000 |
| 6,049 | - | 6,049 | Costau Llog | 6,036 | - | 6,036 |
| **6,049** | **-** | **6,049** | **Llog Taladwy a thaliadau tebyg** | **6,036** | **-** | **6,036** |
| - | (903) | (903) | Incwm Llog | - | (942) | (942) |
| **-** | **(903)** | **(903)** | **Incwm Llog ac Buddsoddi** | **-** | **(942)** | **(942)** |
| **6,049** | **(903)** | **5,146** | **(Enillion) / colled net am y flwyddyn** | **6,036** | **(942)** | **5,094** |

**Offerynnau Ariannol – Risg**

Mae'r gweithdrefnau ynglŷn â rheoli risg wedi'u nodi drwy fframwaith cyfreithiol a geir yn Neddf Llywodraeth Leol 2003 a'r rheoliadau perthynol. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ynghylch Rheoli'r Drysorfa (a'r diwygiadau canlyniadol) ac mae'n cydymffurfio â'r Cod Materion Ariannol ar gyfer Cyfalaf Cyllid mewn Awdurdodau Lleol (ill dau wedi'u diwygio ym mis Tachwedd 2011).

Fel rhan o fabwysiadu'r Cod Rheoli'r Drysorfa, mae'r Cyngor yn cymeradwyo Strategaeth Rheoli Trysorfa cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r Strategaeth yn nodi'r paramedrau ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag offerynnau ariannol. Mae'r Cyngor hefyd yn llunio Arferion Rheoli Trysorfa sy'n pennu'r trefniadau ymarferol sydd i'w dilyn i reoli'r risgiau hyn. Derbyniodd cyfarfod y Cyngor ar 10 Mawrth 2016 Strategaeth Rheoli Trysorfa 2016-17 a'r Dangosyddion Rheoli Trysorfa a'r Dangosyddion Darbodaeth.

Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorfa yn cynnwys Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol i gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol. Mae'r canllawiau hyn yn pwysleisio bod blaenoriaeth i'w rhoi i sicrwydd a hylifedd yn hytrach nag enillion. Mae Strategaeth Rheoli Trysorfa'r Cyngor wedi'i seilio ar chwilio am y gyfradd enillion uchaf sy'n gyson â lefelau priodol o sicrwydd a hylifedd. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal adolygiad canol blwyddyn o'i bolisïau a'i

arferion a'i weithgareddau rheoli trysorfa polisïau ac unrhyw ddiwygiadau yn y Strategaeth Fuddsoddi i ganiatáu mwy o hyblygrwydd mewn marchnad ariannol sy'n newid drwy'r amser a bydd y cyfleoedd buddsoddi sydd ar gael yn cael eu cymeradwyo gan gyfarfod ffurfiol o'r Cyngor. Ceir adroddiad blynyddol i'r Aelodau hefyd ar y perfformiad gwirioneddol ar ffurf yr Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Drysorfa sy'n cael ei adolygu gan y Pwyllgor Archwilio.

Mae gweithgareddau'r Cyngor yn ei ddatguddio i amrywiaeth o risgiau ariannol. Dyma'r risgiau allweddol:-

- **Risg credyd** – y posibilrwydd y gallai partïon eraill fethu talu symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor;
- **Risg hylifedd** – y posibilrwydd na fydd gan y Cyngor gyllid ar gael i gyflawni ei ymrwymiadau ac i wneud taliadau;
- **Risg marchnad** - y posibilrwydd y gallai colled ariannol godi i'r Cyngor o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau megis symudiadau mewn cyfraddau llog.

**Risg Credyd**

Mae risg credyd yn codi o adneuon gyda banciau a sefydliadau ariannol, yn ogystal â pheryglon credyd ymysg cwsmeriaid y Cyngor. Nid oes adneuon yn cael eu rhoi i fanciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn bodloni gofynion y meini prawf ar fuddsoddi a amlinellir yn y Strategaeth Fuddsoddi a geir yn y Strategaeth Rheoli Trysorfa.

Mae'r Cyngor yn rheoli risg credyd drwy sicrhau mai dim ond gyda sefydliadau y mae ansawdd eu credyd yn uchel y rhoddir buddsoddiadau. Mae'r rhain yn cynnwys endidau sydd ag isafswm cyfradd credyd hirdymor o A- o leiaf, sydd â'u cartref yn y Deyrnas Unedig neu wlad dramor sydd â chyfradd sofran o AA+ o leiaf, llywodraeth y Deyrnas Unedig, awdurdodau lleol eraill, a sefydliadau heb gyfraddau credyd y mae'r Cyngor wedi cael cyngor buddsoddi annibynnol yn eu cylch. Bydd is-gwmnïau tramor i grwpiau bancio tramor yn cael eu hasesu fel rheol yn ôl y wlad sy'n gartref i'r rhiant-sefydliad.

Mae Cod Ymarfer CIPFA ynghylch Rheoli'r Drysorfa yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gynnal adolygiad canol blwyddyn o'i bolisïau, ei arferion a'i weithgareddau rheoli trysorfa. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, barnwyd nad oedd angen i'r Cyngor wneud unrhyw newid mawr i'w Strategaeth Fuddsoddi.

Mae buddsoddiadau nas gwarentir yn agored i'r risg o golli credyd wrth i gredydwyr ysgwyddo dyledion os bydd y rheoleiddiwr yn penderfynu bod y banc yn methu neu'n debyg o fethu, tra bod buddsoddiadau a warentir yn cael eu sicrhau ar asedau'r banc, sy'n cyfyngu'r colledion posibl os digwydd yr annhebygol a bod y banc yn methdalu, ac mae'n golygu eu bod yn esempt rhag i gredydwyr orfod ysgwyddo dyledion. Ni fydd y cyfuniad o fuddsoddiadau a warentir ac nas gwarentir mewn unrhyw un banc yn fwy na'r cyfyngiad arian parod ar gyfer buddsoddiadau a warentir. Mae'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn nodi pa fuddsoddiadau y caiff y Cyngor eu defnyddio er mwyn rheoli ei falansau trysorfa'n ddarbodus yn ystod y flwyddyn ariannol o dan benawdau Buddsoddiadau Penodedig a Buddsoddiadau Amhenodedig.

Mae cyfraddau credyd yn cael eu sicrhau a'u monitro gan gynghorwyr trysorfa'r Cyngor, sy'n rhoi gwybod am newidiadau yn y cyfraddau wrth iddynt ddigwydd. Maent yn defnyddio cyfraddau credyd hirdymor y tair prif asiantaeth asesu statws credyd, sef Fitch Ratings Ltd., Moody's Investors Service a gwasanaethau ariannol Standard & Poor's i asesu'r risg y bydd buddsoddiadau'n methu. Defnyddir y gyfradd gredyd isaf sydd ar gael gan wrth-barti i bennu ansawdd y gyfradd credyd, oni bai bod cyfradd benodol ar gyfer y buddsoddiad ar gael. Mae'r Cyngor yn deall bod cyfraddau credyd yn dda, ond nid yn berffaith, o ran darogan methiannau buddsoddiadau. Gan hynny rhoddir sylw llawn i'r wybodaeth arall sydd ar gael am ansawdd credyd y sefydliadau y mae'n buddsoddi ynddynt, gan gynnwys prisiau cyfnewid diffyg credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth am gymorth posibl gan y llywodraeth ac adroddiadau yn y wasg ariannol safonol.

Prif amcan y Cyngor wrth reoli ei fuddsoddiadau yw blaenoriaethu i sicrwydd a hylifedd ei gronfeydd cyn chwilio am y gyfradd enillion orau. Adolygwyd y cyfyngiadau ar gyfer gwrth-bartïon yn barhaus a phan oedd amodau'r farchnad yn mynnu hynny, gostyngwyd y cyfyngiad. Ni chafodd meini prawf y Cyngor ynghylch gwrth-bartïon eu torri yn ystod 2016-17 ac nid yw'r Cyngor yn disgwyl gweld unrhyw golledion yn sgil diffyg perfformiad gan unrhyw un o'i wrth-bartïon o ran adneuon**.**

Cyfanswm buddsoddiadau'r Cyngor, gan gynnwys y prifsymiau, ar 31 Mawrth 2017 oedd £33.75 miliwn yn unol â'r manylion isod ac fe'i dangosir yn y fantolen fel Buddsoddiadau Hirdymor (£4.003 miliwn), Buddsoddiadau Byrdymor (£26.572 miliwn) a'i gynnwys yn yr Arian Parod a'r Gwerthoedd Cyfwerth ag Arian Parod (£3.250 miliwn). Nid yw'r perygl mwyaf o ran risg credyd ynglŷn â'i fuddsoddiadau mewn banciau a chymdeithasau adeiladu'n gallu cael ei asesu'n gyffredinol gan fod y risg y bydd unrhyw sefydliad yn methu gwneud taliadau llog neu ad-dalu'r prifswm yn benodol i bob sefydliad unigol. Mae'r profiad diweddar wedi dangos mai peth prin yw i endidau o'r fath fethu â thalu eu hymrwymiadau. Ceir risg o fethu ag adennill symiau ynglŷn â holl adneuon y Cyngor, ond doedd dim tystiolaeth ar 31 Mawrth 2017 fod hynny'n debygol o ddigwydd. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r risgiau credyd ym mhortffolio buddsoddiadau'r Cyngor yn ôl cyfraddau credyd (ar sail y gyfradd isaf yn y tymor hir) a'r amser sydd ar ôl i aeddfedu:

| Categori'r Gwrth-barti | Cyfradd Credyd | Cyfrifon Adneuon Mynediad ar unwaith £'000 | Cyfrif Adneuon Isafswm Cyfnod £'000 | Adneuon yn Aeddfedu o fewn 1 Mis £'000 | Adneuon yn Aeddfedu o fewn 2-3 Mis £'000 | Adneuon yn Aeddfedu o fewn 4-6 Mis £'000 | Adneuon yn Aeddfedu o fewn 6 Mis I 1 Flwyddyn £'000 | Adneuon yn Aeddfedu o fewn 3-4 Flwyddyn | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Banc | AA- | 2,250 | | | | | | | **2,250** |
| Banc | A | 1,000 | 2,000 | | 2,000 | 1,000 | | | **6,000** |
| Awdurdodau Lleol | AA | | | | 5,000 | | 2,000 | | **7,000** |
| Awdurdodau Lleol (heb gyfradd) | | | | | 2,000 | 4,500 | 2,000 | 4,000 | **12,500** |
| Cymdeithasau Adeiladu | A | | | 4,000 | | | | | **4,000** |
| Cymdeithasau Adeiladu (heb gyfradd) | | | | 1,000 | 1,000 | | | | **2,000** |
| **Cyfanswm** | | **3,250** | **2,000** | **5,000** | **10,000** | **5,500** | **4,000** | **4,000** | **33,750** |

Ar 31 Mawrth 2016 y peryglon o risg credyd oedd:

| Categori'r Gwrth-barti | Cyfradd Credyd | Cyfrifon Adneuon Mynediad ar unwaith £'000 | Cyfrif Adneuon Isafswm Cyfnod £'000 | Adneuon yn Aeddfedu o fewn 1 Mis £'000 | Adneuon yn Aeddfedu o fewn 2-3 Mis £'000 | Adneuon yn Aeddfedu o fewn 4-6 Mis £'000 | Adneuon yn Aeddfedu o fewn 7 Mis I 1 Flwyddyn £'000 | Adneuon yn Aeddfedu o fewn 1-2 Flwyddyn | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Banc | AA- | 500 | | | | | | | **500** |
| Banc | A | 1,000 | 2,000 | | | | | | **3,000** |
| Awdurdodau Lleol | AA | | | | | | 2,000 | | **2,000** |
| Awdurdodau Lleol (heb gyfradd) | | | | 10,000 | 5,500 | | 2,000 | 2,000 | **19,500** |
| Cymdeithasau Adeiladu | A | | | | | | | | **-** |
| Cymdeithasau Adeiladu (heb gyfradd) | | | | | 1,000 | | | | **1,000** |
| **Total** | | **1,500** | **2,000** | **10,000** | **6,500** | **-** | **4,000** | **2,000** | **26,000** |

At ei gilydd, nid yw'r Cyngor yn caniatáu credyd i'w gwsmeriaid (dyledwyr masnach) ac felly mae'r holl ddyledwyr masnach yn cael eu cydnabod fel dyledwyr byrdymor. Er hynny, mae £4.883 miliwn o'r balans o £7.713 miliwn (a ddangosir uchod yn yr asedau ariannol) wedi mynd heibio i'r dyddiad pan fo'r taliad yn ddyledus. Gall y swm sydd heibio'r dyddiad dyledus, ond sydd heb ei amharu, gael ei ddadansoddi yn ôl oedran fel y gwelir yn y tabl isod:

| 31 Mawrth 2016 £'000 | Dyledwyr Masnach heibio'r dyddiad dyledus ond heb ei amharu | 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---|---|
| 923 | Llai na thri mis | 3,169 |
| 582 | Tri mis I chwech | 679 |
| 343 | Chwe mis I flwyddyn | 279 |
| 541 | Mwy na blwyddyn | 756 |
| **2,389** | **Cyfanswm** | **4,883** |

**Risg Hylifedd**

Mae'r Cyngor yn rheoli ei risg hylifedd drwy reoli ei lifoedd arian er mwyn sicrhau bod arian parod ar gael pan fydd ei angen. Mae cyfrifon adneuo dim rhybudd ar gael yn hwylus, cyfleusterau gorddrafft a benthyciadau o'r Marchnadoedd Arian neu awdurdodau lleol eraill i ymdopi ag unrhyw angen o ran llif arian o ddydd i ddydd ac mae'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) yn darparu mynediad i fenthyciadau ar gyfraddau ffafriol. Mae'r Cyngor yn trefnu benthyciadau a buddsoddiadau am gyfnodau penodedig gydag ystod o ddyddiadau aeddfedu o fewn y fframwaith a'r dangosyddion a gymeradwyir bob blwyddyn. Nid oes risg canfyddedig na fydd y Cyngor yn gallu codi cyllid i dalu ei ymrwymiadau, ond yn hytrach mae'r risg yn ymwneud ag adnewyddu cyfran arwyddocaol o'i fenthyciadau mewn cyfnod o gyfraddau llog anffafriol.

Un paramedr allweddol a ddefnyddir i fynd i'r afael â risg hylifedd y Dangosydd Rheoli'r Drysorfa sy'n cyfyngu ar strwythur aeddfedu benthyciadau cyfradd sefydlog. Dyma swm y benthyciadau arfaethedig ar gyfradd sefydlog sy'n aeddfedu ym mhob cyfnod fel canran o gyfanswm arfaethedig y benthyciadau cyfradd sefydlog. Pennir y dangosydd hwn i reoli'r risg ailariannu sy'n wynebu'r Cyngor ac mae wedi'i bennu er mwyn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd o ailstrwythuro dyledion hirdymor os disgwylir i hynny arwain at arbediad cyffredinol neu ostyngiad yn y risg.

| Strwythur aeddfedrwydd Benthyciadau cyfradd sefydlog | Terfyn Uchaf % 2016-17 | Terfyn Isaf 2016-17 | Gwirioneddol % 31 Mawrth 2017 | Prifswm Heb ei Dalu £'000 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|---|
| Llai na blwyddyn | 50 | - | - | - |
| Rhwng blwyddyn a dwy flynedd | 25 | - | - | - |
| Rhwng dwy flynedd a phump | 50 | - | - | - |
| Rhwng pum mlynedd a deg | 60 | - | 12.47 | 12,079 |
| Mwy na deng mlynedd | 100 | 40 | 67.66 | 65,538 |
| Dyddiad ansicr* | - | - | 19.87 | 19,250 |
| **Cyfanswm** | | | **100.00** | **96,867** |

Er bod y gweithdrefnau llif arian parod uchod yn cael eu hystyried yn erbyn y gweithdrefnau risg ailariannu, mae risg i'r Cyngor dros dymor hirach yn ymwneud â rheoli'r perygl o adnewyddu'r holl offerynnau ariannol gan gynnwys Rhwymedigaethau Ariannol mwy hirdymor wrth i'r rheiny aeddfedu. Mae'r tabl a ganlyn yn manylu ar aeddfedrwydd holl rwymedigaethau ariannol y Cyngor ar sail eu gwerth ar y Fantolen ac mae'n cynnwys yr holl gredydwyr masnach a'r credydwyr eraill a ddosberthir fel rhwymedigaethau ariannol sy'n ddyledus i'w talu ymhen llai na blwyddyn.

| 31 Mawrth 2016 £'000 | Dadansoddiad Aeddfedrwydd Rhwymedigaethau Ariannol | 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---|---|
| (7,897) | Llai na blwyddyn | (7,310) |
| (705) | Rhwng blwyddyn a dwy flynedd | (756) |
| (4,878) | Rhwng dwy flynedd a phump | (5,078) |
| (14,510) | Rhwng pum mlynedd a deg | (17,575) |
| (79,282) | Mwy na deng mlynedd | (75,271) |
| (19,817) | Dyddiad ansicr* | (19,815) |
| **(127,089)** | **Cyfanswm y Rhwymedigaethau Ariannol** | **(125,805)** |

* Mae'r £19.250 miliwn (19.87%) a'r £19.817 miliwn yn y ddau dabl uchod sy'n dangos dyddiad ansicr yn ymwneud â benthyciadau Opsiwn Rhoddwr Benthyciadau Opsiwn Cymerwr Benthyciadau (LOBO) a all gael eu hailamserlennu cyn eu dyddiad aeddfedu yn 2054. Gall cyfradd a chyfnod LOBO amrywio yn y dyfodol gan ddibynnu ar gyfraddau cyffredinol y farchnad, y rhoddwr benthyciad yn defnyddio'i opsiwn i gynyddu'r cyfraddau ar un o'r adegau sbarduno chwe-misol (24 Gorffennaf 2017 yw'r dyddiad sbarduno nesaf) a bod yr Awdurdod felly'n cael yr opsiwn o dderbyn y cynnydd neu ad-dalu'r benthyciad heb gael ei gosbi. Oherwydd y cyfraddau llog isel ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn rhagweld y bydd hyn yn digwydd yn ystod 2017-18 ond os bydd yr annhebygol yn digwydd a bod y rhoddwr benthyciad yn defnyddio'r opsiwn mae'r Cyngor yn debyg o ad-dalu'r benthyciadau hyn. Gan hynny, ansicr yw'r dyddiad aeddfedu.

**Risg marchnad**

Mae'r Cyngor yn agored i'r risg y gallai colled ariannol ddigwydd o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau fel symudiadau cyfraddau llog, prisiau'r farchnad neu gyfraddau cyfnewid arian tramor. Nid yw'r Cyngor yn agored i risg cyfraddau cyfnewid tramor (colled o ganlyniad i symudiadau yn y cyfraddau cyfnewid) gan fod benthyca a buddsoddi yn cael eu gweithredu mewn sterling. Nid yw'r Cyngor yn agored i risg prisiau (enillion a cholledion ariannol o ganlyniad i symudiadau ym mhrisiau'r offerynnau ariannol) ychwaith gan ei fod yn buddsoddi ar hyn o bryd mewn offerynnau lle dychwelir yr un swm wrth aeddfedu â'r swm a fuddsoddwyd i ddechrau, er bod Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol y Cyngor yn caniatáu buddsoddi mewn offerynnau megis tystysgrifau adneuon banc a Bondiau Llywodraeth. Felly, risg cyfraddau llog yn unig sy'n berthnasol a cheir manylion isod.

**Risg cyfradd llog**

Mae’r Cyngor yn agored i symudiadau mewn cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a’i fuddsoddiadau. Mae gan symudiadau cyfraddau log effaith gymhleth ar y Cyngor, gan ddibynnu sut y mae cyfraddau amrywiol a chyfraddau sefydlog yn symud ar draws gwahanol gyfnodau’r offerynnau ariannol. Er enghraifft, byddai cynnydd mewn cyfraddau llog amrywiol a sefydlog yn creu’r effeithiau a ganlyn:

- benthyciadau ar gyfraddau amrywiol – bydd y llog a godir ar refeniw yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr a Gwariant yn codi;
- benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – mae’r gyfradd sefydlog yn gwarchod y Cyngor rhag cynnydd mewn ffioedd llog gan y byddai benthyciad cyfatebol yn costio mwy bellach. Bydd gwerth teg y benthyciadau (rhwymedigaeth) yn gostwng;
- buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – bydd yr incwm o logau a gredydir ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr a Gwariant yn codi; a
- buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – mae’r gyfradd sefydlog yn atal y Cyngor rhag cael incwm uwch o fuddsoddiadau drwy fuddsoddi’r un prifswm. Bydd gwerth teg y buddsoddiad (ased) yn gostwng

Mae gan y Cyngor nifer o strategaethau ar gyfer rheoli’r risg ynglŷn â chyfraddau llog. Mae’r Strategaeth Rheoli Trysorfa yn cyfuno dangosyddion y Cyngor ynglŷn â Rheoli’r Drysorfa a’i ddangosyddion Darbodaeth a’i weithrediadau trysorfa arfaethedig, gan gynnwys disgwyliad ynghylch symudiadau mewn cyfraddau llog. Ar sail hyn, mae dangosydd yn cael ei bennu sy’n rhoi terfynau uchaf ar gyfer y datguddiad i gyfraddau sefydlog ac amrywiol:-

| | Terfyn Uchaf y TMS 2016-17 £m | Amcanestyniad diwygiedig y TMS 2017-18 £m | Prifswm Gwirioneddol sydd ar ôl 31 Mawrth 2017 £m |
|---|---|---|---|
| Amcanestyniad Cyfanswm y Prifswm sy'n dal ar ôl ar Fenthyciadau | 96.87 | 96.87 | 96.87 |
| Amcanestyniad Cyfanswm y Prifswm sy'n dal ar ôl ar Fuddsoddiadau (gan gynnwys adneuon arian parod/gwerthoedd sy'n gyfwerth ag arian parod) | 12.00 | 30.00 | 33.75 |
| **Y Prifswm Net sy'n dal ar ôl** | **84.87** | **66.87** | **63.12** |
| Datguddiad I gyfraddau llog gosod (prifswm net) | 140.00 | 140.00 | 49.12 |
| Datguddiad I gyfraddau llog amrywiol (prifswm net) | 50.00 | 50.00 | 14.00 |

Nid yw buddsoddiadau’r Cyngor a ddisgrifir fel ‘benthyciadau a symiau derbyniadwy’ a benthyciadau yn cael eu cario yn ôl y gwerth teg ar y fantolen, felly ni fydd newidiadau yn eu gwerth teg yn effeithio ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Er hynny, mae newidiadau yn y llog sy’n daladwy ac yn dderbyniadwy ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfradd amrywiol yn effeithio arno ac fe’u dangosir yn y Gwarged neu’r Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau. Mae’r Cyngor yn monitro’r farchnad a’r cyfraddau llog sydd wedi’u darogan yn ystod y flwyddyn er mwyn addasu’r datguddiad i’r rhain mewn modd priodol, er mwyn caniatáu i’r Cyngor ymdopi ag unrhyw newid andwyol. Er enghraifft yn ystod cyfnodau pan fo cyfraddau llog yn gostwng, a phan fo’r amgylchiadau economaidd yn peri bod hynny’n ffafriol, gall benthyciadau cyfradd sefydlog gael eu had-dalu’n gynnar i gyfyngu ar y datguddiad i golledion. Yn ôl y strategaeth hon, ar 31 Mawrth 2017, pe byddai newid o 1% wedi bod yn y cyfraddau llog a’r holl newidynnau eraill heb newid, byddai’r effaith ariannol wedi bod yn fras fel a ganlyn:

| | Amcangyfrif £'000 + 1% | Amcangyfrif £'000 -1% |
|---|---|---|
| Llog yn daladwy ar fenthyciadau cyfradd amrywiol | 132 | 0 |
| Llog yn dderbyniadwy ar fuddsoddiadau cyfradd amrywiol | (229) | 229 |
| **Yr Effaith ar y Gwarged neu'r Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **(97)** | **229** |

Nid yw'r ffigurau ar gyfer effaith fras gostyngiad o 1% yn y cyfraddau llog ar gyfer benthyciadau yr un fath â'r cynnydd o 1% (ond wedi'i wrth-droi) gan fod y benthyciadau cyfradd amrywiol yn cyfeirio at ein benthyciadau LOBO lle rhagdybir na fyddai'r rhoddwr benthyciad yn defnyddio'i opsiwn pe byddai'r cyfraddau llog yn gostwng.

**31. Digwyddiadau ar ôl y Fantolen**

Nid oes digwyddiadau ar ôl y Fantolen.

**32. Rhwymedigaethau wrth Gefn**

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn codi pan fo digwyddiad wedi bod sy'n peri rhwymedigaeth bosibl i'r Cyngor ond na fydd bodolaeth y rhwymedigaeth yn cael ei chadarnhau ond os bydd digwyddiadau ansicr yn codi yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o dan reolaeth y Cyngor.

Ar 31 Mawrth 2016, roedd hawliad yn parhau yn erbyn y Cyngor ynglŷn â thir a brynwyd gan y Cyngor dan drefniadau prynu gorfodol er mwyn codi adeilad ysgol newydd. Mae'r dull o gyfrifo'r dyfarniad iawndal wedi'i herio ac mae achos cyfreithiol yn parhau. Os bydd y tirfeddiannwr yn llwyddiannus, bydd proses wahanol yn dechrau er mwyn pennu gwerth y tir. Ar hyn o bryd, felly, mae gwerth unrhyw iawndal posibl yn y dyfodol a allai fod yn ddyledus yn anhysbys ac oherwydd hynny mae'n cael ei ddatgelu fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn y cyfrifon.

Mae Halo Leisure, Partner Gwasanaethau Hamdden i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn gorff derbyniedig i Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol Rhondda Cynon Taf. Ceir cytundeb ffurfiol rhwng y Cyngor a Halo Leisure, sy'n Elusen gofrestredig ac yn Fenter Gymdeithasol, sy'n llywodraethu'r berthynas, a thelerau ariannol y cyfranogiad.

Ar gyfer cyflogeion a gyflogwyd yn flaenorol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac sydd wedi eu trosglwyddo i Halo Leisure, mae'r cytundeb derbyn yn datgan y rhagdybir bod unrhyw rwymedigaethau pensiwn sydd wedi eu cronni ar adeg y trosglwyddiad, sy'n ymwneud ag aelodaeth o'r cynllun aelodau cyn y dyddiad cychwyn, wedi eu hariannu 100%. Bydd Halo Leisure yn gyfrifol am y cynnydd mewn rhwymedigaethau yn unig o'r dyddiad cychwyn a bydd y Cyngor yn gweithredu fel gwarantwr ar gyfer y rhwymedigaethau a gronnwyd yn flaenorol ar adeg y trosglwyddiad.

Yn yr un modd, mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn gorff derbyniedig i Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol Rhondda Cynon Taf, gyda'r un trefniadau â rhai Halo Leisure. Mae'r Cyngor yn gweithredu fel gwarantwr i unrhyw rwymedigaethau pensiwn a gronnwyd ar adeg trosglwyddo aelodau staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'r Ymddiriedolaeth.

# Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian Parod

## 33. Addasiadau ar gyfer Symudiadau heblaw Arian Parod

| 2015-16 £'000 | | 2016-17 £'000 |
|---|---|---|
| (26,342) | Dibrisiant ac Amhariadau ar Asedau | (24,009) |
| 10,071 | Symudiad yn y Stoc, Dyledwyr a Chredydwyr | 8,234 |
| (6,590) | Addasiadau'r Gronfa Bensiwn | (9,140) |
| (1,056) | Darpartiaethau | (185) |
| (6,140) | Gwaredu asedau anghyfredol | (6,342) |
| 1,082 | Newidiadau yng Ngwerth teg Eiddo Buddsoddi | - |
| 6 | Symadiadau anariannol eraill | - |
| **(28,969)** | **Addasiadau i'r diffyg net ar y ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer symudiadau heblaw arian parod** | **(31,442)** |

## 34. Gweithgareddau gweithredu

Mae'r llifoedd arian parod ar gyfer gweithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:-

| 2015-16 £'000 | | 2016-17 £'000 |
|---|---|---|
| (13,599) | Llif Arian Parod ar Weithgareddau Refeniw | (14,859) |
| 4,545 | Llogau a dalwyd | 4,578 |
| 1,503 | Elfen log prydles ariannol a thaliadau rhent PFI | 1,460 |
| (880) | Llogau a dderbyniwyd | (929) |
| **(8,431)** | **Llifoedd Arian Parod Net o Weithgareddau Gweithredu** | **(9,750)** |

## 35. Gweithgareddau buddsoddi

Mae'r llifoedd arian parod ar gyfer gweithgareddau buddsoddi yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:-

| 2015-16 £'000 | | 2016-17 £'000 |
|---|---|---|
| 21,517 | Prynu Eiddo, Peiriannau ac Eiddo ac Eiddo Buddsoddi | 13,881 |
| 5,523 | Prynu / (Enillion) o Fuddsoddiadau Hirdymor a Byrdymor | 14,025 |
| (3,959) | Enillion o werthu Eiddo, Peiriannau ac Offer ac Eiddo Buddsoddi | (5,292) |
| **23,081** | **Llifoedd Arian Parod Net o weithgareddau Buddsoddi** | **22,614** |

## 36. Gweithgareddau cyllido

Mae’r llifoedd arian parod ar gyfer gweithgareddau cyllido yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:-

| 2015-16 £'000 | | 2016-17 £'000 |
|---|---|---|
| (3,971) | Derbyniadau arian parod o fenthyciadau byrdymor a hirdymor | (10,200) |
| (15,598) | Derbyniadau Eraill o weithgareddau cyllido | (7,356) |
| 1,500 | Ad-daliadau benthyciadau byrdymor a hirdymor | 10,210 |
| 2,810 | Taliadau Arian Parod am ostwng y rhwymedigaethau sy’n dal heb eu talu ynglŷn â phrydlesau ariannol a chontractau PFI ar y fantolen | - |
| **(15,259)** | **Llifoedd Arian Parod Net o weithgareddau Cyllido** | **(7,346)** |

# Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Bwrdeistref Pen-y-Bont ar Ogwr yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

**Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 19, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol ar gyfer Archwilwyr.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu**

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb

amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a'r ffordd y cyflwynwyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn gyffredinol.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Naratif er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail yr wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig (gan gynnwys y Datganiad Gwarial a Chyllid):

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 31 Mawrth 2016 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â'r canllawiau.

## Tystysgrif cwblhau archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon (enw'r corff llywodraeth leol) yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Dros ac ar ran**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**
***[Dyddiad i’w fewnosod]***

*Y Swyddog Cyfrifyddu / Swyddog Cleientiaid sy'n gyfrifol am gynnal gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac am uniondeb y wefan honno; nid yw'r gwaith a wneir gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan i ddechrau.*

# Geirfa

**Actiwari**
Mae actiwari'n berson sy'n cyfrifo premiymau yswiriant a phensiwn, gan gymryd i ystyriaeth ffactorau fel disgwyliad oes.

**Addasiad blwyddyn flaenorol**
Yr addasiadau perthnasol hynny sy'n gymwys i flynyddoedd blaenorol yn sgil newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu neu yn sgil cywiro gwallau sylfaenol.

**Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)**
Yr NNDR, neu'r Ardrethi Busnes, yw'r tâl sy'n cael ei godi ar ddeiliaid mangreoedd busnes. Mae'r arian a gesglir yn cael ei dalu i Lywodraeth Cymru a'i ailddosbarthu i'r awdurdodau unigol yn gymesur â'r oedolion yn eu poblogaeth.

**Asedau cyfredol**
Asedau byrdymor yw'r rhain sydd ar gael i'r Cyngor eu defnyddio yn ystod y flwyddyn gyfrifyddu nesaf.

**Amorteiddio**
Gostyngiad yng ngwerth gwariant cyfalaf nad yw wedi creu ased, drwy newidiadau mewn refeniw.

**Archwiliad**
Mae archwiliad yn golygu archwiliad annibynnol ar gyfrifon y Cyngor.

**Asedau gweithredol**
Asedau yw'r rhain sy'n cael eu defnyddio wrth redeg neu ddarparu gwasanaethau.

**Balansau dirprwyedig ysgolion**
O dan ddarpariaethau Rheoli Ysgolion yn Lleol, mae unrhyw falansau sydd wedi cronni ar ddiwedd y flwyddyn yn cael eu dirprwyo i'r ysgolion unigol. Mae'r cronfeydd hyn yn cael eu cadw y tu allan i falansau Cronfa'r Cyngor.

**Benthyciad neu fuddsoddiad dros dro**
Dyma arian sydd wedi'i fenthyca neu wedi'i fuddsoddi am gyfnod cychwynnol o lai na blwyddyn.

**Blwyddyn ariannol**
Dyma'r cyfnod cyfrifyddu. Yn achos awdurdodau lleol mae'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn dod i ben ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ddilynol.

**Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB)**
Un o asiantaethau'r Llywodraeth yw'r Bwrdd ac mae'n darparu benthyciadau hirdymor i awdurdodau lleol. Mae'n codi cyfraddau llog sydd ychydig yn unig yn uwch na'r cyfraddau y mae'r Llywodraeth yn cael cymryd benthyciad arnyn nhw.

**Cod Ymarfer ar gyfer Adroddiadau ar Wasanaethau (SeRCOP)**
Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Adroddiadau ar Wasanaethau yn fframwaith cyson ar gyfer adroddiadau ar ddata awdurdodau lleol. Adolygir SeRCOP bob blwyddyn gan y corff rheoleiddio priodol i sicrhau ei fod yn datblygu yn unol ag anghenion llywodraeth leol fodern, tryloywder, y gwerth gorau a diwygio gwasanaethau cyhoeddus.

**Costau Annosbarthadwy (NDC)**
Mae NDC yn gategori costau a ddiffinnir gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon y Gwerth Gorau. Mae'n cynrychioli:
• costau cyfleusterau TG sydd heb eu defnyddio,
• costau asedau na ellir eu realeiddio sydd heb eu defnyddio dros dymor hir,
• costau penodol cronfeydd pensiwn

**Craidd Corfforaethol a Democrataidd (CDC)**
Mae'r CDC yn wasanaeth a ddiffinnir gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon y Gwerth Gorau, sef costau sy'n ymwneud a gweithgareddau Aelodau (Cynrychiolaeth Ddemocrataidd a Rheoli) a chostau sy'n darparu'r isadeiledd i sicrhau bod modd i wasanaethau gael eu darparu (Rheoli Corfforaethol).

**Credydwr**
Credydwr yw sefydliad neu rywun y mae ar y Cyngor arian iddo ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd yn ystod y flwyddyn ariannol neu'r blynyddoedd blaenorol.

**Croniad**
Mae croniad yn swm a ddangosir yn y cyfrifon ac sy'n cynrychioli incwm neu wariant am y cyfnod cyfrifyddu ond nad oedd wedi'i gael neu wedi'i dalu ar ddyddiad y fantolen.

**Cronfa Ailbrisio**
Mae hon yn cynrychioli'r cynnydd/gostyngiad annosbarthadwy ym mhrisiad asedau sefydlog.

**Cronfa a Glustnodwyd**
Cronfeydd wrth gefn sydd wedi'i neilltuo at ddiben penodol yw'r rhain.

**Cronfa refeniw**
Cyfrif yw hwn sy'n cofnodi'n gwariant a'n hincwm o ddydd i ddydd ar eitemau fel cyflogau misol ac wythnosol, costau rhedeg gwasanaethau ac ariannu gwariant cyfalaf.

**Cronfa ymddiriedolaeth**
Mae cronfeydd ymddiriedolaeth yn cadw arian ar ran unigolion neu sefydliad. Bydd ymddiriedolwyr yn gweinyddu'r cronfeydd ar ran y perchnogion.

**Cyfrif Addasu Cyfalaf**
Arian yw hwn sydd wedi'i neilltuo yng nghyfrifon y Cyngor ar gyfer gwariant cyfalaf ac i ad-dalu benthyciadau.

**Cyfrif escrow**
Trefniant cyfreithiol yw escrow, lle mae arian yn cael ei draddodi i drydydd parti (o'r enw asiant escrow) i'w gadw mewn ymddiriedolaeth hyd nes i ryw ddigwyddiad penodol godi neu nes y bodlonir amod neu amodau mewn contract.

**Cyllideb**
Mae cyllideb (neu amcangyfrif) yn gynllun incwm a gwariant, y seilir y dreth gyngor arni. Wedyn mae'r gwariant a'r incwm gwirioneddol yn cael eu monitro yn erbyn y cynllun hwn.

**Darpariaeth**
Mae darpariaeth yn swm y byddwn yn ei neilltuo yn ein cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau a ddisgwylir na allwn eu mesur yn fanwl gywir.

**Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP)**
Swm yw hwn sydd wedi'i neilltuo i ad-dalu benthyciadau. Dylai fod yn swm darbodus.

**Datganiad ar y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn (MIRS)**
Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan yr Awdurdod.

**Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**
Mae'r cyfrif hwn yn cofnodi'r gwariant a'r incwm beunyddiol ar eitemau fel cyflogau misol ac wythnosol, costau rhedeg gwasanaethau ac ariannu gwariant cyfalaf.

**Datganiad Llif Arian**
Dyma ddatganiad sy'n crynhoi'r symudiadau arian parod yn ystod y flwyddyn.
Derbyniad cyfalaf Derbyniadau cyfalaf yw'r enillion a geir drwy werthu asedau sefydlog megis tir neu adeiladau.

**Dibrisiant**
Dibrisiant yw'r amcangyfrif o'r golled yng ngwerth asedau sefydlog a ddangosir yn y Fantolen.

**Digwyddiadau ar ôl y fantolen**
Digwyddiadau ar ôl y fantolen yw'r rheiny sy'n codi ar ôl dyddiad y Fantolen. Dyma eitemau nad oedden nhw'n bodoli pan gafodd y Fantolen ei pharatoi ond a ddylai gael eu datgelu os ydyn nhw'n berthnasol o ran cyflwyno'r cyfrifon mewn modd teg.

**Dyledwr**
Dyledwr yw sefydliad neu rywun y mae arno arian i'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd yn ystod y flwyddyn ariannol neu'r blynyddoedd blaenorol.

**Grantiau'r llywodraeth**
Cymorth oddi wrth y llywodraeth ac asiantaethau rhynglywodraethol a chyrff tebyg, lleol, cenedlaethol neu ryngwladol, ar ffurf arian parod neu drosglwyddiadau asedau i awdurdod yn gyfnewid am gydymffurfio yn y gorffennol neu'r dyfodol ag amodau penodol ynglŷn â gweithgareddau'r awdurdod.

**Gwaith sydd ar y gweill (WIP)**
Ystyr gwaith sydd ar y gweill yw gwerth gwaith a wneir ar brosiect sydd heb ei orffen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac nad yw wedi'i godi eto ar y cyfrif refeniw.

**Gwariant cyfalaf**
Gwariant ar asedau sefydlog yw gwariant cyfalaf. Dyma asedau a fydd yn cael eu defnyddio am sawl blwyddyn wrth ddarparu gwasanaethau, sef eitemau fel adeiladau, offer a cherbydau.

**Gwerth Gwireddadwy Net**
Pris gwerthu ased, wedi'i ostwng yn ôl cost berthnasol (uniongyrchol) ei werthu.

**Gwerth y Farchnad Agored yn y Diben Presennol (OMVEU)**
Mae OMVEU yn sail ar gyfer prisio asedau sefydlog.

**Lesio**
Dyma ddull ar gyfer ariannu gwariant cyfalaf drwy dalu'r perchennog am gael defnyddio eiddo neu offer am nifer o flynyddoedd.

**Lesoedd cyllid**
Mae lesoedd cyllid yn cael eu defnyddio i brynu asedau lle mae'r Cyngor yn ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r risgiau sy'n gysylltiedig â pherchnogi'r ased.

**Lesoedd gweithredol**
Lesoedd yw'r rhain lle mae risgiau perchnogaeth yr ased yn parhau yn nwylo'r perchennog.

**Mantolen**
Mae'r fantolen yn ddatganiad o'n hasedau, ein rhwymedigaethau a'n balansau eraill, ar ddyddiad diwedd y flwyddyn ariannol, sef 31 Mawrth.

**Menter cyllid preifat (PFI) –** menter gan y llywodraeth ganolog sy'n ceisio cynyddu lefelau'r cyllid sydd ar gael i'r gwasanaethau cyhoeddus drwy ddenu ffynonellau cyllid preifat. Ategir y PFI gan nifer o gymhellion i annog yr awdurdodau i gymryd rhan.

**Praeseptau**
Dyma'r swm sy'n cael ei dalu i awdurdod nad yw'n bilio (er enghraifft cyngor cymuned) er mwyn iddo dalu ei gostau (ar ôl caniatáu am ei incwm).

**Rhwymedigaeth**
Mae rhwymedigaeth yn swm sy'n daladwy ar ryw adeg yn y dyfodol.

**Rhwymedigaethau cyfredol**
Rhwymedigaethau byrdymor yw'r rhain sydd i'w talu gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn gyfrifyddu ddilynol.

**Rhwymedigaethau digwyddiadol**
Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn rhwymedigaeth bosibl sy'n codi yn sgil digwyddiadau yn y gorffennol ac y bydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau wrth i ddigwyddiadau ansicr godi yn y dyfodol.

**Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS)**
Rheoliadau ariannol sydd i'w dilyn ac fel y'u gosodwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu (ASB).

**Stocrestrau**
Deunyddiau crai a brynir i'w defnyddio o ddydd i ddydd yw stocrestrau. Dangosir gwerth yr eitemau hyn sydd heb eu defnyddio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fel asedau cyfredol yn y fantolen.

**Trafodion Partïon Cysylltiedig**
Dyma drosglwyddiadau asedau neu rwymedigaethau neu gyflawniad gwasanaethau gan barti cysylltiedig, drosto neu ar ei ran, p'un a fydd tâl yn cael ei godi ai peidio.